

Arolygiad dilynol o Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd

Cyhoeddwyd Rhagfyr 2015

© Hawlfraint y Goron 2015

Gallwch ail-ddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu e-bost psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho ar:

www.justiceinspectores.gov.uk/hmiprobation

Cyhoeddwyd gan:

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi
Llawr 1af Canolfan Cyfiawnder Sifil
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX

Diolchiadau

Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd ran yn yr arolygiad hwn; heb eu cydweithrediad ni fyddai'r arolygiad wedi bod yn bosibl.

Hoffem, yn benodol, ddiolch i gydlynwyr /rheolwyr a Byrddau Rheoli Strategol chwe ardal y Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd yr ymwelwyd â hwy.

Arolygydd Arweiniol	Tony Rolley, <i>Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi</i>
Tim Arolygu	Vivienne Clarke, <i>Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi</i> Paddy Doyle, <i>Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi</i> Iolo Madoc-Jones, <i>Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi</i> Anthony Davies, <i>Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi</i> Paul Eveleigh, <i>Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi</i>
Gwasanaethau Cefnogi	Pippa Bennett, <i>Rheolwr Gwasanaethau Cynnal</i> Stephen Hunt, <i>Swyddog Gwasanaethau Cynnal</i> Alex Pentecost, <i>Rheolwr Cyfathrebu</i>
Prif Arolygwyr Cynorthwyol	Alan MacDonald, <i>Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi</i> Andy Smith, <i>Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi</i>

Rhagair

Gan weithio gyda'r troseddwr mwyaf peryglus ac amlycaf, mae Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPa) yn darparu fforwm i wahanol asiantaethau, o fewn a thu allan i'r system cyfiawnder troseddol, ddod at ei gilydd. Mae cynlluniau trylwyr a chadarn yn cael eu datblygu i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol a ddangoswyd gan y troseddwr, ac mae MAPPa yn sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith.

Dylai ansawdd y gwaith gyda'r grŵp hwn o droseddwr, yn seiliedig ar asesiadau da a chynllunio cadarn, fod o'r safon uchaf. Dylem ddisgwyl gweld bod popeth a allai gael ei wneud yn cael ei wneud i reoli'r risg o niwed difrifol a berir gan droseddwr a reolir o fewn MAPPa. Gallai'r canlyniadau am fethu â gwneud y gwaith hwn i'r safon uchel honno fod yn enfawr.

Canfu ein harolygiad cychwynnol o MAPPa yn 2011 bod llawer o waith da yn cael ei wneud, ond bod meysydd ymarfer sydd angen eu gwella. Cytunwyd ar yr arolygiad dilynol hwn gan Grŵp y Prif Arolygwyr Cyfiawnder Troseddol i weld a oedd yr argymhellion o'r arolygiad diwethaf wedi cael eu gweithredu ac i adolygu'r arferion cyfredol.

Mae'n galonogol adrodd bod argymhellion o'r arolygiad diwethaf wedi eu gweithredu yn sylweddol, ac yn gyffredinol roedd ansawdd y gwaith wedi gwella. Roedd cadeirio cyfarfodydd wedi gwella, gyda mwy o ffocws yn cael ei roi ar reoli risg weithredol. Ond mae cynllunio'r gwaith o reoli risg yn dal i fod yn ddryslyd ac yn anghyson, mae ymgysylltiad gweithredol rhai asiantaethau Dyletswydd i Gydweithredu yn parhau i fod yn waith ar y gweill, ac mae angen cael ymrwymiad strategol gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwr a Byrddau Rheoli Strategol i harneisio manteision ViSOR.

Mae MAPPa bellach wedi'i hen sefydlu, ond mae mesurau adrodd yn parhau i fod â ffocws ar brosesau yn bennaf. Mae'r adroddiad hwn yn annog y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwr i ddatblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol priodol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a fydd yn dangos gwell tystiolaeth o effeithiolrwydd MAPPa.

Bwriedir i'r argymhellion yn yr adroddiad hwn wella ansawdd y gwaith gyda throseddwr a reolir o dan MAPPa ymhellach, ac rydym yn credu, os byddant yn cael eu rhoi ar waith, y bydd y nod yn cael ei gyflawni.



Paul Wilson CBE
Prif Arolygydd Prawf EM

Rhagfyr 2015

Cynnwys

Tudalen

Cydnabyddiaethau	3
Rhagair	4
Crynodeb o Ganfyddiadau	6
Argymhellion	9
1. Beth oeddem ni eisiau ei ddarganfod?	11
2. Rôl a phwrpas MAPPA	13
3. Canlyniadau a gyflawnwyd: a lwyddodd MAPPA i wneud gwahaniaeth?	16
4. Adnabod, dosbarthu ac asesu	19
5. Gwneud yr hyn sydd ei angen	24
6. Rheoli risg o niwed: yr asiantaethau	35
7. Rheoli ac arweinyddiaeth: yr effaith ar ymarfer	49
Atodiad 1: Geirfa	54
Atodiad 2: Rôl yr arolygiaethau a chod ymarfer	57

Crynodeb o ganfyddiadau

Yr arolygiad

Cytunwyd ar yr arolygiad dilynol hwn gan Grŵp y Prif Arolygwyr Cyfiawnder Troseddol ac roedd yn rhan o'r ffrwd waith a nodwyd yn y *Cynllun Busnes Arolygu ar y Cyd 2014-2016*.

Arweiniwyd yr arolygiad gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, a gefnogwyd gan Arolygiaeth Cwnstabiliaeth EM. Amcanion yr arolygiad oedd ceisio sefydlu i ba raddau yr oedd yr argymhellion yn adroddiad ar y cyd 2011 *Rhoi'r darnau at ei gilydd - arolygiad o Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd* wedi cael eu gweithredu gan yr asiantaethau dan sylw, ac a oedd unrhyw welliannau i ymarfer wedi deillio o hyn.

Fe wnaethom ymweld â chwe ardal a siarad â staff strategol a gweithredol o bob gradd o'r sefydliadau sy'n gysylltiedig â MAPPA. Cynhaliwyd cyfweiliadau yn ymwneud â 48 o achosion gan ddefnyddio offeryn asesu achosion roeddem wedi ei ddyfeisio, ac fe wnaethom adolygu'r defnydd a wneir o VISOR, y gronfa ddata sy'n cynnwys gwybodaeth am y rhan fwyaf o droseddwr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA.

Canfyddiadau cyffredinol

Yn ein hadroddiad gwreiddiol yn 2011, fe wnaethom haeru bod MAPPA yn ddi-os wedi gwella'r gwaith o asesu a rheoli troseddwr a reolir ar lefel 2 neu 3. Roeddem yn cydnabod bod rhai meysydd allweddol i'w gwella os oedd MAPPA i dangos bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i reoli'r risg o niwed a gyflwynid gan y troseddwr i bobl eraill yn y gymuned.

Gwnaethom bum argymhelliad penodol yn yr adroddiad gwreiddiol, ac rydym wedi asesu drwy'r ail arolygiad hwn y cynnydd a wnaed i ymdrin â nhw.

Asiantaeth Arweiniol

Mae gofyniad yn y Canllawiau Cenedlaethol i asiantaeth arweiniol gael ei nodi ar gyfer pob troseddwr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA. Er gwaethaf yr arweiniad hwnnw, canfu ein harchwiliad cychwynnol bod angen ffocws cliriach ynghylch yr asiantaeth arweiniol benodedig, er mwyn hyrwyddo dull mwy cydgysylltiedig o reoli pob troseddwr. Fe wnaethom argymhell y dylai *'Cadeiryddion lefel 2 a 3 cyfarfodydd MAPPA sicrhau bod asiantaeth arweiniol wedi'i nodi'n glir ar gyfer pob achos ac yn cymryd y prif gyfrifoldeb am reoli'r achos'*.

Yn yr arolygiad hwn, gwelsom fod y cysyniad o asiantaeth arweiniol yn awr yn cael ei ddeall yn well, ac, mewn canran uchel o achosion, roedd yr asiantaeth arweiniol bron bob amser yn cael ei nodi yn y cofnodion, er nad oedd y wybodaeth hon bob amser yn cael ei dal yn VISOR.

Cynllunio Rheoli Risg

Yn yr arolygiad gwreiddiol, fe wnaethom ganfod mai anaml yr oedd MAPPA yn cynhyrchu cynllun rheoli risg cynhwysfawr. Fe wnaethom argymhell y dylai *'Cadeiryddion lefel 2 a 3 cyfarfodydd MAPPA sicrhau bod cynllun rheoli risg cynhwysfawr, yn nodi sut y bydd yr asiantaethau dan sylw yn cydweithio i reoli'r risg o niwed a gyflwynir gan yr unigolyn, yn cael ei lunio ym mhob achos a'i adolygu lle bo angen'*.

Yn yr ail arolygiad hwn, gwelsom fod camau rheoli risg a nodwyd yn fwy perthnasol a phriodol na'r rhai a welsom yn 2011. Ond yn gyffredinol roedd lle i wella o hyd. Yn benodol, roeddem yn

cael trafferth canfod bod yr asiantaeth arweiniol wedi diweddarau eu cynllun rheoli risg asiantaeth yn dilyn y cyfarfod MAPPA blaenorol, ac nad oedd cysondeb bob amser rhwng cynllun rheoli risg MAPPA a chynllun rheoli risg yr asiantaeth arweiniol. Credwn nad yw cyfeiriadau at gynlluniau rheoli risg asiantaeth a chynlluniau rheoli risg MAPPA yn ddefnyddiol a'u bod yn ddryslyd, a dylai cynllun rheoli risg yr asiantaeth arweiniol ddod yn gynllun rheoli risg MAPPA yn awtomatig.

Rheolaeth Weithredol

Fe wnaethom sylwadau yn 2011 ar bwyslais yng nghyfarfodydd MAPPA ar gyfnewid gwybodaeth gyffredinol yn hytrach na chanolbwyntio ar y risg o niwed a berir gan y troseddwr a datblygu cynlluniau i reoli'r niwed hwnnw. Fe wnaethom arsylwi fod Cadeiryddion cyfarfodydd lefel 2 a 3 yn methu â dal asiantaethau i gyfrif yn ddigonol am eu gweithredoedd. Gwnaethom ddau argymhelliad: *Y cyntaf oedd i'r 'Bwrdd Rheoli Strategol sicrhau bod sefydliadau sy'n gweithio o fewn MAPPA yn cael eu dal i gyfrif drwy Gadeirydd MAPPA am eu gweithredoedd ynghylch troseddwr sy'n ddarostyngedig i MAPPA'*. Gwelsom gynnydd yn erbyn yr argymhelliad hwn, gyda chyfarfodydd yn awr yn dangos mwy o ffocws ar reoli'r troseddwr yn weithredol, a Byrddau Rheoli Strategol a Chadeiryddion cyfarfodydd lefel 2 a 3 yn ceisio dal asiantaethau i gyfrif am eu gweithredoedd. Roedd adegau o hyd pan nad oedd camau gweithredu a osodwyd o fewn y MAPPA yn cael eu cyflawni'n brydlon neu o fewn yr amserlen angenrheidiol/benodedig, ac roedd problemau yn dal i godi ynghylch cael y bobl iawn o asiantaethau'r Dyletswydd i Gydweithredu, yn benodol, i fod yn bresennol.

Yr ail argymhelliad oedd i *'Gadeiryddion cyfarfodydd lefel 2 a 3 MAPPA sicrhau bod strategaethau yn cael eu llunio i leihau'r risg o niwed a gyflwynir gan yr unigolyn yn y tymor hwy pan nad yw bellach yn ddarostyngedig i MAPPA'*. Gwelsom enghreifftiau da o le y gwnaed hyn, ac mae rhai yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn. Ond ar adegau canfuom droseddwr yn dod i ddiwedd eu dedfryd heb ystyriaeth ddigonol o sut roedd risgiau oedd ar ôl yn mynd i gael eu trin.

Dogfennaeth

Yn 2011, roedd cofnodion cyfarfodydd MAPPA yn *'aml yn anaddas at y diben'*. Fe wnaethom ddweud bod ansawdd y cofnodion yn golygu na fyddai asiantaethau MAPPA bob amser yn gallu dangos eu bod wedi gwneud penderfyniadau y gellid eu hamddiffyn pe baent yn wynebu her. Ein hargymhelliad oedd y dylai *'Cadeiryddion cyfarfodydd lefel 2 a 3 sicrhau bod cofnodion holl gyfarfodydd MAPPA yn amserol, yn glir ac yn darparu cofnod cywir o benderfyniadau a gweithredoedd y cytunwyd arnynt'*.

Yn yr ail arolygiad hwn, gwelsom fod cofnodion cyfarfodydd MAPPA wedi gwella er bod gwahaniaethau amlwg ar draws yr ardaloedd yr ymwelwyd â hwy. Yn gyffredinol, roedd cofnodion yn amserol, ond nid oeddent yn cael eu postio fel mater o drefn i mewn i ViSOR yn brydlon. Roedd camau gweithredu a osodwyd yn y cyfarfodydd, a'u cofnodi yn y cofnodion, yn gyffredinol yn glir, yn gymesur ac yn briodol. Roedd copio a gludo hen wybodaeth yn dal yn amhriodol; roedd diffyg eglurder ynglŷn â mynychwyr; methiant i gofnodi gwybodaeth hanfodol yn ymwneud ag amodau trwydded yn gywir ac ymyriadau cyfyngol eraill o fewn y cynllun rheoli risg.

Buom yn ymweld â dwy ardal a oedd yn defnyddio model y 'Pedair Colofn' ar gyfer cynnal eu cyfarfodydd, a phedwar nad oedd yn gwneud hynny. Fe wnaethom ganfod cryfderau yn y Pedair Colofn, ond, fel gyda chynnal cyfarfodydd yn gyffredinol, roedd ansawdd y nodiadau yn ymwneud yn bennaf â sgiliau ac arbenigedd trefniadaethol y Cadeiryddion a'r rhai oedd yn cymryd y cofnodion.

ViSOR

Er na wnaethom unrhyw argymhelliad mewn perthynas â ViSOR, roeddem yn siomedig yn yr hyn a welsom yn 2011. Nid oedd yr heddlu, staff carchardai a staff y gwasanaeth prawf yn defnyddio ViSOR fel offeryn gwaith oedd yn cael ei rannu. Pan oeddent yn defnyddio ViSOR, anaml yr oedd ansawdd yr wybodaeth a ddarparwyd o safon uchel.

Nid yw ein canfyddiadau bedair blynedd yn ddiweddarach yn wahanol iawn. Er ein bod wedi gweld rhywfaint o ddefnydd da yn cael ei wneud o ViSOR, yn enwedig gan yr heddlu, yn gyffredinol nid oedd cynnydd digonol wedi'i wneud. O fewn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, roedd y rhesymau dros beidio â defnyddio'r system yn ymwneud â diffyg terfynellau a /neu staff hyfforddedig. Nid oedd llawer o garchardai wedi eu partneru â chofnod ViSOR y troseddwr. Hyd yn oed pan oeddynt, anaml yr oedd y carchar yn cofnodi gwybodaeth berthnasol.

Casgliad

Yn gyffredinol, canfu'r ail arolygiad hwn y bu gwelliant mesuradwy yn ansawdd y gwaith a wnaed gyda throseddwr MAPPa a reolir ar lefel 2 a 3 o'i gymharu â 2011.

Ond nid yw cynlluniau rheoli risg yn dal yn ddigon da, roedd ansawdd y cofnodion, er yn ddi-os yn well, yn parhau i fod yn anghyson, ac nid oedd Awdurdodau Cyfrifol ac asiantaethau Dyletswydd i Gydweithredu bob amser yn cael eu cynrychioli yn briodol mewn cyfarfodydd lefel 2 a 3.

Mae'r ail arolygiad hwn yn gwneud nifer o argymhellion, a ddylai, os gweithredir hwy, wella ansawdd gwaith MAPPa ymhellach.

Gan ganiatáu ar gyfer y ffaith fod 97% o droseddwr MAPPa ar 31 Mawrth 2014 yn cael eu rheoli ar lefel 1, ac nad oedd cwmpas yr arolygiad hwn yn cynnwys adolygiad manwl o achosion lefel 1 MAPPa, credwn bod hwn yn faes gwaith a allai fod yn addas ar gyfer arolygiad ar y cyd yn ei rinwedd ei hun. Gallem weld fod yna wahaniaethau amlwg yn y ffordd yr oedd gwahanol ardaloedd yn adolygu'r achosion hyn. Bu gostyngiad cynyddol yn y ganran o achosion a reolir ar lefel 2 a 3, a byddai arolygiad o'r fath yn cael ei gynllunio i roi sicrwydd bod achosion lefel 1 yn cael eu rheoli ar y lefel gywir ac i safon ddigonol. Felly, rydym yn argymhell y dylai Grŵp y Prif Arolygwyr Cyfiawnder Troseddol ystyried y dylai arolygiad o'r fath gael ei gynnwys mewn rhaglen arolygu ar y cyd yn y dyfodol.

Argymhellion

Dylai'r Grŵp Diogelu'r Cyhoedd a Rheoli Troseddwyr y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr sicrhau, o fewn chwe mis*:

- bod canllawiau sy'n ymwneud â ViSOR yn cael eu hadolygu, a bod holl achosion categori 2 MAPPA yn cael eu cofrestru wrth eu dedfrydu
- bod gan reolwyr troseddwyr NPS fynediad cyfleus i derfynellau ViSOR
- bod canllawiau sy'n ymwneud â lefel presenoldeb yr heddlu ar gyfarfodydd lefel 3 MAPPA 3 yn cael eu hadolygu, i adlewyrchu'r newidiadau sefydliadol ar lefel rheolaeth sydd wedi digwydd o fewn yr heddlu yn well
- y dylai cynllun rheoli risg yr asiantaeth arweiniol ddod yn gynllun rheoli risg MAPPA, ac, os nad yw, y dylai sail resymegol glir gael ei ddarparu ar gyfer y gwahaniaeth
- bod Dangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn cael eu cynhyrchu
- bod templed cofnodion MAPPA (MAPPA B) yn cynnwys cwestiwn am gofrestru Achos Amddiffyn y Cyhoedd Critigol a chyllid / cefnogaeth / arweiniad.

Dylai Cadeiryddion Byrddau Rheoli Strategol sicrhau, o fewn tri mis*:

- bod y carchar ar hyn o bryd yn cael ei bartneru â chofnod ViSOR troseddwr MAPPA
- bod y gwasanaeth prawf a charchardai yn defnyddio ViSOR fel offeryn rheoli risg gweithredol, gyda staff perthnasol yn cael eu hyfforddi'n briodol
- bod ymagwedd amlasiantaethol amserol yn cael ei defnyddio i sgrinio'r holl atgyfeiriadau MAPPA
- bod pob atgyfeiriad i MAPPA ar gyfer rheolaeth lefel 2 neu 3 o ansawdd digonol, yn egluro beth yw'r gwerth ychwanegol, ac yn nodi asiantaethau eraill y mae'n ofynnol iddynt gyfrannu
- bod canlyniadau sy'n ymwneud ag aildroseddu gan droseddwyr MAPPA yn cael eu casglu a'u hadrodd i'r Bwrdd Rheoli Strategol.

Dylai Cadeiryddion cyfarfodydd lefel 2 a 3 sicrhau, o fewn tri mis*:

- bod holl gofnodion cyfarfodydd yn nodi'n glir y presenoldeb gofynnol, y presenoldeb gwirioneddol, manylion y rôl ac absenoldeb
- bod holl gofnodion cyfarfodydd yn cynnwys gwybodaeth gyfredol sy'n ymwneud â holl amodau trwyddedau a chyfyngiadau sydd yn eu lle ar gyfer y troseddwr
- bod yr holl gofnodion yn cael eu postio i ViSOR o fewn yr amserlen ofynnol
- y rhoddir cyfrif llawn am bob gweithred MAPPA a bod y canlyniad yn cael ei ymgorffori yn y cofnodion.

Dylai arweinydd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ar gyfer Rheoli Troseddwyr Rhyw a Threisgar sicrhau, o fewn chwe mis*:

- bod gweithgor Rheoli Troseddwyr Rhyw a Threisgar yn datblygu cynllun gweithredu ar gyfer darpariaeth hyfforddiant i sicrhau ei fod yn cael ei gydlynu'n genedlaethol ac ar gael ac yn hygyrch i swyddogion yn ystod camau cynnar eu cyfnod fel rheolwr troseddwyr yr heddlu.

Dylai Heddluoedd sicrhau, o fewn tri mis*:

- bod yr holl droseddwyr treisgar a reolir ar MAPPA lefel 2 a 3 yn cael rheolwr troseddwyr heddlu a enwir wedi ei ddyrannu iddynt
- bod timau plismona cymdogaeth yn gwbl ymwybodol o Droseddwyr Rhyw Cofrestredig sy'n byw yn eu hardaloedd plismona.

Dylai Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu (ar y cyd â'r Coleg Plismona) sicrhau, o fewn chwe mis*:

- bod swyddogion arweiniol plismona cenedlaethol ar gyfer Rheoli Troseddwyr Integredig a MAPPA yn adolygu cyfleoedd ar gyfer Rheoli Troseddwyr Integredig ar y cyd i wella rheolaeth troseddwyr MAPPA lefel 2 a 3.

Nodyn: * - o fewn x mis i ddyddiad yr adroddiad hwn

1. Beth oeddem ni eisiau ei ddarganfod?

Crynodeb

Yn yr adran hon, rydym yn nodi cwmpas a methodoleg yr arolygiad. Rydym hefyd yn crynhoi proffil yr achosion a arolygwyd gennym.

- Roedd hanner y troseddwyd wedi eu cael yn euog o drosedd rywiol.
- Roedd hanner yn Droseddwyd Rhyw Cofrestredig (RSO).
- Roedd tri o'r troseddwyd yn blant neu bobl ifanc o dan 18 oed.
- Roedd pob un ond un o'r troseddwyd yn wrywaidd.

Pwrpas

- 1.1 Cytunwyd ar yr ail arolygiad gan Grŵp y Prif Arolygwyr Cyfiawnder Troseddol ac roedd yn rhan o'r ffrwd waith a nodwyd yn y *Cynllun Busnes Arolygu ar y Cyd 2014-2016*. Amcanion yr arolygiad oedd yn '*ceisio sefydlu i ba raddau yr oedd argymhellion o adroddiad ar y cyd 2011 wedi cael eu rhoi ar waith gan yr asiantaethau dan sylw, ac a oedd hyn wedi arwain at welliannau i ymarfer*'.

Y Broses Arolygu

- 1.2 Fe wnaethom ddewis chwe ardal MAPPA ar gyfer yr arolygiad. Nodwyd dwy ardal lle roedd ein cudd-wybodaeth yn awgrymu ein bod yn debygol o ddod o hyd i berfformiad da; roedd y pedair ardal arall yn cynnig cymysgedd o ardaloedd trefol a gwledig; sirol a metropolitan. Roeddem yn rhagweld gweld amrywiaeth o waith a fyddai'n ein helpu i nodi arfer da a meysydd i'w gwella.
- 1.3 Roeddem yn ymwybodol bod hwn yn ail arolygiad, felly fe wnaethom geisio cadw llawer o'r offeryn asesu achos gwreiddiol a ddefnyddiwyd yn arolygiad 2011 er mwyn ein helpu i farnu'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion gwreiddiol (er ein bod yn arolygu mewn chwe ardal wahanol i'r rhai lle cynhaliwyd yr arolygiad cychwynnol).
- 1.4 Wrth gynhyrchu'r rhestr o achosion i'w harolygu, ein dull oedd eistedd i lawr gyda'r cydlynwyr / rheolwyr MAPPA yn y chwe ardal a nodi achosion a oedd yn yr amserlen gyffredinol yr oeddem am archwilio o'i mewn. Yn ddelfrydol, roeddem yn gobeithio edrych ar achosion a oedd tua 6 i 12 mis ar ôl rhyddhau. Yn bragmataidd, mewn rhai achosion, bu'n rhaid i ni gamu y tu allan i'r dull cyffredinol hwnnw. Yn dilyn trafodaeth gyda phob un o gydgyssylltwyr /rheolwyr MAPPA, fe wnaethom gadarnhau'r rhestr o wyth achos y byddem yn eu harolygu ym mhob ardal.
- 1.5 Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng mis Tachwedd 2014, ac Ionawr 2015. Fe wnaethom ymweld â'r chwe MAPPA canlynol¹ - Caerlŷr, Swydd Gaerlŷr a Rutland; Manceinion Fwyaf; Hampshire ac Ynys Wyth; Llundain; Dyfed Powys; Caint.
- 1.6 Ym mhob ardal MAPPA, fe wnaethom gyfweld y rheolwr(wyr) troseddwyd a ddyrannwyd o'r NPS a'r heddlu. Lle nad oedd rheolwr troseddwyd yr heddlu dynodedig yn bodoli, buom yn siarad â swyddog goruchwylio o'r tîm oedd yn gyfrifol am y troseddwr pan oedd hynny'n

¹ Mae MAPPA Caerlŷr, Swydd Gaerlŷr a Rutland o fewn is-adran Canolbarth Lloegr y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS), ac mae'n gydffiniol â Heddlu Swydd Gaerlŷr. Mae MAPPA Manceinion Fwyaf yn eistedd o fewn is-adran Gogledd Orllewin NPS ac mae'n gydffiniol â Heddlu Manceinion Fwyaf. Mae MAPPA Hampshire ac Ynys Wyth o fewn is-adran NPS De Orllewin a De Canolog ac mae'n gydffiniol â Heddlu Hampshire. Mae MAPPA Llundain o fewn is-adran NPS Llundain ac yn cydffinio gyda Gwasanaeth yr Heddlu Metropolitan. Mae MAPPA Dyfed Powys yn rhan o is-adran NPS Cymru ac yn cydffinio â Heddlu Dyfed-Powys. Mae MAPPA Caint o fewn is-adran NPS y De Ddwyrain a'r Dwyrain ac yn cydffinio â Heddlu Caint.

bosibl. Buom hefyd yn darllen papurau a chofnodion cyfrifiadurol perthnasol, gan gynnwys cofnodion y cyfarfodydd MAPPa. Ein nod oedd ceisio canfod a oedd yr holl gamau wedi eu cymryd, cyn belled ag y gellid disgwyl yn rhesymol, i reoli'r risg o niwed i eraill a achosid gan yr unigolyn. Roedd hon yn farn bwysig i'w gwneud, oherwydd, hyd yn oed os oeddem yn barnu bod troseddwr unigol wedi cael ei reoli'n dda, roedd y posibilrwydd y gallai aildroseddu barhau.

1.7 O blith yr 48 o achosion a arolygwyd:

- roedd 17 yn cael eu rheoli ar lefel 3 cyn eu rhyddhad diweddaraf o'r carchar, (er ar adeg yr arolygiad roedd 11 yn cael eu rheoli ar y lefel honno)
- roedd 25 yn euog o droseddau rhywiol; 16 o droseddau treisgar
- roedd 25 yn Droseddwyr Rhyw Cofrestredig ('RSOs')
- roedd 38 yn cael eu rheoli'n 'arweiniol' gan yr NPS; 8 gan yr heddlu, a 2 gan Dîm Troseddau Ieuencid (YOT)
- roedd 47 yn wrywod
- roedd 3 o dan 18 oed; roedd 4 dros 60 mlwydd oed
- roedd 10 yn achosion categori 3.

1.8 Casglwyd tystiolaeth ar gyfer yr arolygiad hwn hefyd o gyfweiliadau a gynhaliwyd, ym mhob ardal, gyda:

- Chydlynwyr/rheolwyr MAPPa
- Uwch reolwyr arweiniol o'r tri Awdurdod Cyfrifol
- Cynrychiolwyr asiantaethau Dyletswydd i Gydweithredu
- Cynghorwyr lleyg
- Cadeiryddion cyfarfodydd lefel 2 a 3
- Grwpiau ffocws o swyddogion yr heddlu oedd yn ymwneud â gwaith troseddwyr rhywiol a threisgar
- Rheolwyr TTI (YOT).

1.9 Gwelsom un neu fwy o gyfarfodydd MAPPa ym mhob ardal yr ymwelwyd â hi, rhywbeth na wnaethom ei wneud yn 2011.

1.10 Gwnaethom adolygu ViSOR mewn perthynas â'r achosion unigol a arolygwyd gennym, a buom yn siarad gyda rhai aelodau o staff gweinyddol ViSOR.

2. Rôl a phwrpas MAPPA

Crynodeb

Mae'r adran hon yn amlinellu'r sail statudol ar gyfer MAPPA, ei rôl a'i bwrpas a manylion y canllawiau cenedlaethol mewn perthynas â chymhwyster a lefelau rheolaeth sy'n berthnasol i droseddwyr MAPPA. Rydym yn egluro'r gwahanol asiantaethau sy'n cyfrannu at MAPPA.

Rydym yn disgrifio'r gwahanol offer asesu troseddwyr a ddefnyddiwyd a chronfa ddata genedlaethol y troseddwyr (ViSOR) sy'n cofnodi gwybodaeth am droseddwyr MAPPA priodol.

MAPPA

- 2.1 Mae *Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003* yn darparu ar gyfer sefydlu MAPPA ym mhob un o'r 42 o ardaloedd cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr.
- 2.2 Prif bwrpas MAPPA yw '*diogelu'r cyhoedd, gan gynnwys dioddefwyr troseddau blaenorol, rhag niwed difrifol gan droseddwyr rhyw a throseddwyr treisgar*'. Er mwyn cyflawni hynny, mae gofyniad ar yr asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol a chyrrff eraill sy'n delio â throseddwyr i weithio mewn partneriaeth wrth ddelio â'r troseddwyr hyn.
- 2.3 Mae MAPPA yn dwyn ynghyd yr heddlu, y gwasanaeth prawf a'r gwasanaeth carchardai i Awdurdod Cyfrifol MAPPA ar gyfer pob ardal MAPPA. Mae ardaloedd MAPPA yn gydffiniol ag ardaloedd heddluoedd, fel y nodir yn *Neddf yr Heddlu 1996*. Mae nifer o asiantaethau eraill o dan Ddyletswydd i Gydweithredu gyda'r Awdurdod Cyfrifol. Asiantaethau'r Ddyletswydd i Gydweithredu yw:
 - Gwasanaethau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol
 - Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd
 - Timau Troseddau Ieuencid
 - Gorfodi Mewnfudo Y Swyddfa Gartref
 - Awdurdodau tai lleol a rhai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig
 - Canolfan Byd Gwaith
 - Darparwyr monitro electronig
 - Awdurdod addysg lleol
- 2.4 Nid yw MAPPA yn gorff statudol, ond mecanwaith sy'n galluogi asiantaethau i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol ac amddiffyn y cyhoedd mewn modd cydlynol.
- 2.5 Mae gan yr Awdurdod Cyfrifol gyfrifoldeb am sefydlu Bwrdd Rheoli Strategol (SMB) i gynnwys uwch reolwyr o'r sefydliadau perthnasol. Mae gan yr Awdurdod Cyfrifol ddyletswydd hefyd i sicrhau bod risgiau a berir gan droseddwyr rhyw a throseddwyr treisgar penodol yn cael eu hasesu a'u rheoli'n briodol.
- 2.6 Mae canllawiau statudol yn cael eu cyhoeddi gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol. Cyhoeddodd Grŵp Diogelu'r Cyhoedd a Rheoli Troseddwyr (OMPPG) NOMS y canllawiau MAPPA diweddaraf (fersiwn 4) yn 2012.

Cyflwynodd y rhain nifer o fân newidiadau yn bennaf i ganllawiau 2009. Yn dilyn cyhoeddi canllawiau 2012, cyhoeddwyd nifer o ddiweddariadau.

2.7 Mae canllawiau MAPPA yn mynnu y dylai asiantaethau perthnasol o fewn MAPPA:

- nodi a chofnodi'r holl droseddwyd cymwys yn syth ar ôl eu dedfrydu
- rhannu gwybodaeth berthnasol am droseddwyd
- cynnal asesiadau risg trwyadl
- rheoli troseddwyd ar y lefel gywir, am y swm cywir o amser
- sicrhau bod cynllun rheoli risg effeithiol (RMP) sy'n gymwys i'r troseddwr unigol, yn cael ei adolygu
- defnyddio adnoddau i reoli risg a nodwyd yn y modd mwyaf effeithlon ac effeithiol.

2.8 Mae cymhwyster ar gyfer MAPPA yn ei gwneud yn ofynnol i droseddwr fod yn un o'r categorïau canlynol:

- **Categori 1:** Troseddwyd rhyw cofrestredig
- **Categori 2:** Llofrudd neu droseddwr a gafwyd yn euog o drosedd rhyw dreisgar neu arall o dan Atodlen 15 *Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003* ac sydd wedi ei ddedfrydu i 12 mis neu fwy yn y ddalfa. Mae hefyd yn cynnwys y rhai a gedwir dan orchymyn ysbyty.
- **Categori 3:** Troseddwyd peryglus eraill: person sydd wedi derbyn rhybudd am neu a gafwyd yn euog o drosedd sy'n dynodi ei fod ef neu hi yn gallu achosi niwed difrifol ac sydd angen rheolaeth aml-asiantaeth.

2.9 Unwaith y bydd wedi ei gategoreiddio, mae troseddwr MAPPA cymwys yn cael ei ddyrannu i un o'r tair lefel o reolaeth. Dros amser, gallai'r lefel o reolaeth newid yn dilyn ailasesiad.

- **Lefel 1:** Rheolaeth asiantaeth gyffredin lle gallai'r risgiau a berir gan y troseddwr gael eu rheoli gan yr asiantaeth sy'n gyfrifol am oruchwylio neu reoli achos y troseddwr.
- **Lefel 2:** Rheolaeth amlasiantaethol weithredol sy'n ychwanegu gwerth at reolaeth yr asiantaeth arweinïol o'r risg o niwed difrifol a gyflwynir.
- **Lefel 3:** Rheolaeth amlasiantaethol weithredol well lle mae'r materion rheoli yn gofyn am uwch-gynrychiolaeth gan yr Awdurdod Cyfrifol a'r asiantaethau Dyletswydd i Gydweithredu.

2.10 Roedd adroddiad blynyddol MAPPA ar gyfer 2013/2014 yn dangos ar 31 Mawrth 2014 bod 65,083 o droseddwyd cymwys ar MAPPA. Roedd tua 71% yn rhai categori 1 (RSO), tra bod 97% yn cael eu rheoli ar lefel 1.

	Categori 1	Categori 2	Categori 3	Cyfanswm
Lefelau Rheoli	Troseddwyd Rhyw Cofrestredig	Troseddwyd Treisgar	Troseddwyd Peryglus Eraill	
Lefel 1	45,250	17,798	-	63,048
Lefel 2	797	787	293	1,877
Lefel 3	55	64	39	158
Cyfanswm	46,102	18,649	332	65,083

Mae nifer cyffredinol yr achosion MAPPA cymwys yn sylweddol uwch na phan wnaethon ni arolygu ddiwethaf yn 2011. Mae'r nifer a reolir ar lefel 1 wedi cynyddu tra bo'r niferoedd a reolir ar lefelau 2 a 3, yn ogystal â nifer y troseddwy'r categori 3, wedi gostwng. Gallai hyn adlewyrchu hyder cynyddol asiantaethau i reoli troseddwy'r peryglus mewn cyd-destun amlasiantaethol heb fod angen cyfarfodydd MAPPA ffurfiol o reidrwydd.

2.11 Y ddau brif offer asesu ar gyfer troseddwy'r MAPPA yw:

- **Y System Asesu Troseddwy'r (OASys)**; a ddefnyddir gan yr NPS a'r Gwasanaeth Carchardai i asesu'r tebygolrwydd o aildroseddu a'r risg o niwed difrifol troseddwy'r dros 18 oed. Mae'n cynnwys rhagfynegydd troseddu treisgar.
- **Matrics Risg 2000 (RM2000)**; offeryn asesu risg sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan ddefnyddio ffactorau statig yn unig, ar gyfer dynion 18 oed a hŷn sydd ag o leiaf un euogfarn am drosedd rhyw a gyflawnwyd ar ôl eu bod yn hŷn na 16 mlwydd oed. Mae'n rhagweld y tebygolrwydd o gael ail euogfarn am drosedd rywiol neu dreisgar.

2.12 Mae ViSOR yn storfa ganolog ar gyfer gwybodaeth gyfredol am droseddwy'r. Mae gan y tri Awdurdod Cyfrifol fynediad at, a chyfrifoldeb am ddiweddarau, y gronfa ddata. Mae angen i bob troseddwr categori 1 a throseddwy'r MAPPA eraill sy'n cael eu rheoli ar lefel 2 a 3 gael cofnod ViSOR.

3. Canlyniadau a gyflawnwyd: a lwyddodd MAPPA i wneud gwahaniaeth?

Crynodeb

Mae'r adran hon yn adrodd ynghylch yr hyn a welsom o ran effeithiolrwydd MAPPA.

- Mewn tri chwarter yr achosion, roedd pob cam rhesymol wedi'i gymryd i gadw risg y troseddwr o wneud niwed i eraill i isafswm.
- Nid oedd y rhan fwyaf o'r troseddwr MAPPA wedi aildroseddu.
- Sefydlwyd mesurau da i amddiffyn dioddefwyr yn y rhan fwyaf o achosion.
- Roedd achosion yn cael eu rheoli ar lefel briodol.

- 3.1 Mae NOMS wedi cyflwyno system o fonitro trwy Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA). Mae'r rhain yn ymwneud ag achosion sy'n cael eu hadolygu o fewn amledau diffiniedig, ar ôl i ddatgeliadau gael eu hystyried a phenderfyniadau gael eu cofnodi, ac asiantaethau yn mynychu Byrddau Rheoli Strategol (SMBs) a chyfarfodydd lefel 2 a 3 yn briodol. Mae'r rhain yn bethau pwysig i'w mesur, ac, er nad ydynt yn fesurau o 'ganlyniadau', maent yn ffordd briodol o gyfrif am ymddygiad a gweithredoedd.
- 3.2 Dywedodd cydlynwyr MAPPA wrthym fod dangosyddion perfformiad allweddol sy'n ymwneud â phresenoldeb yn ffordd o ddal asiantaethau eraill i gyfrif, yn enwedig rhai o'r asiantaethau Dyletswydd i Gydweithredu. Roeddynt yn dweud os nad oedd MAPPA yn mesur ac adrodd ar eu presenoldeb, y gallai fod wedi bod yn fwy anodd eu cael i ymgysylltu. Roeddem yn credu bod hynny'n ddadl ddilys dros gadw'r mesurau.
- 3.3 Ond mae rhai dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu geirio mewn ffordd a allai annog ymddygiad gwrthnysig. Er enghraifft, DPA (KPI) MAP008 sydd, mewn perthynas â chyfarfodydd SMB, yn dweud *'presenoldeb o 100% gan bob Awdurdod Cyfrifol neu Asiantaeth Dyletswydd i Gydweithredu lle maent yn cael eu gwahodd'*. Os oes angen i rywun fod yn bresennol, ond nid yw'n gwneud hynny oherwydd nad oedd yn cael ei wahodd, yna nid yw hynny'n creu ymateb negyddol er gwaetha'r ffaith nad oedd y cyfarfod wedi cael y fantais o gyfraniad angenrheidiol yr asiantaeth honno. Dylai dangosyddion perfformiad allweddol fod yn fwy craff, a, lle bo'n bosibl, yn canolbwyntio ar ganlyniadau.
- 3.4 Yn ystod yr arolygiad hwn, buom yn edrych ar fesurau ansoddol yn ymwneud â chanlyniadau. Mae'n debyg mai'r cwestiwn pwysicaf a ofynnwyd gennym oedd *'a yw MAPPA wedi cymryd pob cam rhesymol i gadw risg y troseddwr o niwed i eraill i isafswm?'* Cymerwyd pob cam rhesymol yn nhri chwarter yr achosion, pum pwynt canran yn uwch na'r sgôr o 70% a gyflawnwyd yn arolygiad 2011. Canfuom hefyd fod yr heddlu a'r gwasanaeth prawf wedi cymryd pob cam rhesymol i leihau'r risg o niwed a berid gan y troseddwr yn y rhan fwyaf o'r achosion.
- 3.5 Roedd gennym ddiddordeb mewn aildroseddu gan droseddwr oedd yn ddarostyngedig i MAPPA. Roedd pedwar o'r 48 o droseddwr y cafodd eu hachosion eu harchwilio gennym wedi cael eu heuogfarnu am drosedd rhyw neu dreisgar arall ers iddynt ddechrau ar MAPPA ar yr achlysur mwyaf diweddar, tra roedd 4 o droseddwr pellach wedi cael eu heuogfarnu am drosedd llai difrifol. Nid oedd unrhyw un o'r troseddwr yr oeddem wedi

arolygu eu hachosion wedi derbyn rhybudd. Roedd aildroseddu ar gyfer y garfan hon o droseddwyd yn is na'r ffigur adroddwyd gennym yn 2011; y pryd hynny, roedd 30% wedi derbyn rhybudd neu euogfarn. Mewn tri o'r pedwar achos lle roedd y troseddwr wedi'i gael yn euog am drosedd rywiol neu dreisgar bellach, roeddem yn meddwl bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i leihau'r risg o niwed a berid. Mae'r enghraifft o arfer isod yn ymwneud â'r un achos a arolygwyd gennym lle'r oedd angen cymryd camau pellach.


Enghraifft o Arfer

Trosedd indecs Rob oedd ymosod ar oedolyn gwrywaidd, ond roedd ei brif anghenion rheoli risg yn gysylltiedig â'i hanes o drais yn y cartref yn erbyn partneriaid benywaidd. Ar ddechrau'r cysylltiad â MAPPa, nododd yr asesiad risg fod partneriaid yn y dyfodol yn rhai oedd mewn risg uchel o niwed. Aseswyd yr aildroseddu fel rhywbeth oedd ar fin digwydd. Un o'r gofynion allweddol oedd i Rob fyw yn nhŷ ei fam fel rhan o'r cynllun i leihau'r tebygolrwydd o drais yn y cartref. Cynhaliodd yr heddlu a'r gwasanaeth prawf ymweliadau cartref ar y cyd i dŷ'r fam rhwng cyfarfod cyntaf MAPPa a'r amser pan gyflawnodd Rob ymosodiad ar bartner newydd. Ond roedd pob un ond un o'r ymweliadau cartref hynny yn rhai a gafodd eu cyhoeddi. Fe wnaeth y rhain fodloni'r heddlu a'r gwasanaeth prawf ei fod yn byw yn nhŷ ei fam, pan nad oedd yn gwneud hynny mewn gwirionedd. Roedd wedi bod yn byw gyda'i ddiodefwr newydd am o leiaf wythnos cyn i'r ymosodiad ddigwydd.

- 3.6 Er nad oedd yn rhan o'r arolygiad hwn, roedd adroddiad ymchwil diweddar i aildroseddu gan droseddwyd MAPPa o ddi-ddordeb. Comisiynodd tîm MAPPa o fewn y Grŵp Rheoli Troseddwyd a Diogelu'r Cyhoedd (o fewn NOMS) (OMPPG), gan Wasanaethau Dadansoddol y Weinyddiaeth Gyfiawnder, astudiaeth aildroseddu gan droseddwyd oedd yn ddarostyngedig i MAPPa (categoriâu 1 a 2 yn unig) a ddedfrydwyd rhwng 2000 a 2010. Cafodd yr adroddiad *Reoffending Analysis of MAPPa Eligible Offenders* ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2015, a'i brif ganfyddiad oedd bod cyfraddau aildroseddu yn gostwng ar gyfer y troseddwyd hynny a oedd wedi bod yn ddarostyngedig i MAPPa.
- 3.7 Roedd rheoli'r bygythiad i ddiodefwyd adnabyddadwy neu ddiodefwyd a allai fod yn adnabyddadwy yn effeithiol mewn pedair rhan o bump o'r achosion a arolygwyd gennym. Mewn 87%, nid oedd unrhyw erledigaeth pellach.

Enghraifft o Arfer:

Roedd euogfarn Darren am ddynladdiad cariad ei chwaer, yr oedd ef yn ei feio am annog ei defnydd o heroin. Roedd ei ryddhad ar fin digwydd. Roedd ei droseddu ef yn gysylltiedig â'r cam-drin rhywiol yr oedd ef a'i chwaer wedi ei dderbyn gan eu hewythr pan oeddent yn blant, yr oedd yn dal i deimlo'n euog am beidio â bod wedi gallu amddiffyn ei chwaer. Galwyd cyfarfod MAPPa cychwynnol ac amserol a roddodd gychwyn ar gamau i wirio lle roedd yr ewythr yn byw ar y pryd a chanfod mwy am deimladau Darren tuag ato. Gofynnwyd hefyd i'r Swyddog Cyswilt â Dioddefwyd gysylltu â chwaer Darren, gan ei bod hi yn bartner diodefwr y drosedd indecs. Nodwyd materion amddiffyn plant ynghylch wyrion Darren drwy gwblhau genogram ac ymarferiad rhwydwaith cymdeithasol.



- 3.8 Cydymffurfiodd y troseddwr gyda gofynion y ddedfryd mewn dros ddwy ran o dair o'r achosion y buom yn edrych arnynt, a oedd yn uwch na'r tro diwethaf. Ym mhob achos lle nad oedd yr unigolyn yn cydymffurfio, cymerwyd camau gofodi priodol.
- 3.9 O'r 48 o achosion a arolygwyd, canfuom ar adeg yr arolygiad, fod y lefel rheoli wedi gostwng mewn 13 o achosion (28%), ac wedi cynyddu mewn 5 (11%). Yn y gweddill, arhosodd y lefel rheoli yr un fath ag yr oedd pan ddaeth yr achos i mewn i MAPPa am y tro cyntaf. Nid ydym yn dod i gasgliadau o'r wybodaeth hon gan y gallai cynyddu'r lefel fod yn gymaint o arwydd o amryfusedd effeithiol MAPPa â gostwng y lefel. Ar y cyfan, roeddem yn teimlo bod cyfarfodydd MAPPa yn cael eu cynnal ar y lefel iawn.

Roedd Mark yn droseddwr rhyw aml oedd yn byw yn Swydd Gaerlŷr. Yr oedd ei lefel yn amrywio o lefel 2 i 3, ac yna yn ôl i lefel 2, cyn dod i lawr hyd at lefel 1. Roedd y rhan fwyaf o asiantaethau yn cyfrannu'n dda i'r cyfarfodydd MAPPa. Roedd yna waith arbennig o agos rhwng yr heddlu a'r gwasanaeth prawf, a chyswllt da gyda theulu'r troseddwr. Roedd yr ymgysylltu gyda'r troseddwr yn drawiadol; cytunodd Mark yn wirfoddol i gael ei dagio, a gofynnodd am i'w Orchymyn Atal Troseddwr Rhyw (SOPO) gael ei dynhau. Roedd y Swyddogion Cyswllt â Dioddefwyr yn benderfynol yn eu hymdrechion i chwilio am ddioddefwyr blaenorol a sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn cael eu cefnogi.

- 3.8 Roedd y rhan fwyaf o'r troseddwr yr oeddem wedi arolygu eu hachosion wedi gwasanaethu dedfrydau hir am droseddau rhywiol neu dreisgar. Ar adeg yr arolygiad hwn, roeddem wedi cael eu rhyddhau am gyfnod cymharol fyr. O ganlyniad, roeddem yn meddwl ei fod yn annhebygol y byddem yn gweld tystiolaeth o weld bod eu perygl o niwed wedi cael ei leihau. Ond o'r 48 o achosion y buom yn edrych arnynt, roeddem o'r farn bod risg o niwed wedi gostwng mewn bron i un rhan o bump o achosion.

Casgliad

- 3.9 Fel y dywedwyd yn adroddiad yr arolygiad gwreiddiol i MAPPa, mae mesur effeithiolrwydd MAPPa yn anodd oherwydd natur y troseddwr a reolir ar lefel 2 neu 3. Yn 2011, roedd ein canfyddiadau yn gadarnhaol ar y cyfan o ran aildroseddu ac amddiffyn dioddefwyr.
- 3.10 Oherwydd yr adnoddau sy'n mynd i mewn i'r ychydig o achosion critigol sy'n cael eu rheoli ar MAPPa lefel 2 neu 3, dylai'r trothwy i'w gymhwyso mewn perthynas ag asesu a rheoli risg gael ei osod ar lefel uchel. Y rhain, wedi'r cyfan, yw'r troseddwr mwyaf peryglus a /neu fwyaf anodd eu rheoli.
- 3.11 Yn gyffredinol, canfuom o'i gymharu â 2,011 fod llai o droseddwr yr oeddem wedi arolygu eu hachosion wedi aildroseddu. Canfuom hefyd fod mesurau i amddiffyn dioddefwyr yn eu lle mewn canran uwch o achosion, a bod, mewn mwy o achosion o'i gymharu â'r arolygiad cychwynnol, pob cam rhesymol wedi'i gymryd i leihau'r perygl o niwed a berid gan y troseddwr.
- 3.12 Er bod lle i wella o hyd, ar y cyfan roeddem yn meddwl bod MAPPa yn gwneud gwaith da.

4. Adnabod, dosbarthu ac asesu

Crynodeb

Yn yr adran hon, rydym yn adolygu'r trefniadau a welsom ar gyfer adnabod troseddwr MAPPA cymwys a neilltuo lefelau rheoli.

- Nid oeddem yn hyderus bod pob achos cymwys ar gyfer MAPPA wedi eu nodi, yn enwedig y rhai a reolid gan TTlau ac iechyd meddwl.
- Nid oedd dull aml-asiantaeth yn bodoli bob amser i benderfynu pa achosion oedd yn cael eu rheoli ar lefel 1.
- Roedd atgyfeiriadau i MAPPA yn aml o ansawdd gwael ac heb fod yn amserol.
- Roedd adborth am atgyfeiriadau i swyddogion cyfeirio yn gyffredinol yn gynhwysfawr ac yn amserol.
- Roedd statws asiantaeth arweiniol yn cael ei nodi yn y cofnodion, ond nid oedd bob amser yn cael ei gofnodi ar VISOR.

Nodi achosion cymwys a phriodoli lefel rheoli

- 4.1 Mae Pennod 6 o arweiniad MAPPA yn ymwneud â nodi a hysbysu troseddwr MAPPA. Mae pump o asiantaethau yn gyfrifol am nodi troseddwr MAPPA o fewn tri diwrnod o'u dedfrydu. Y rhain yw yr heddlu, y gwasanaeth prawf, y gwasanaeth carchardai, Timau Troseddau Ieuencid a gwasanaethau iechyd meddwl. Yn ogystal, gallai unrhyw asiantaeth, nid dim ond yr Awdurdodau Cyfrifol a'r rhai gyda Dyletswydd i Gydweithredu, atgyfeirio achos i'w ystyried fel troseddwr categori 3.
- 4.2 Mae Timau Troseddau Ieuencid yn defnyddio un o dair system rheoli achosion gwahanol. Nid oes gan un ohonynt, Careworks, y gallu i gipio gwybodaeth MAPPA na thynnu sylw ati. Dywedodd rhai cydgysylltwyr /rheolwyr MAPPA wrthym nad oeddent yn hyderus fod pob achos TTI ac achosion iechyd meddwl wedi eu hysbysu, er bod hyfforddiant wedi cael ei ddarparu. Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid wedi sicrhau, wrth ddatblygu Asset Plus, y teclyn asesu newydd ar gyfer Timau Troseddau Ieuencid, fod MAPPA wedi ei integreiddio'n llawn.
- 4.3 Yn ystod y misoedd yn arwain at yr arolygiad, fe wnaeth Arolygiaeth Prawf EM rai gwiriadau ar y system rheoli achosion carchar, P-NOMIS, mewn hanner dwsin o garchardai i weld a oedd staff y carchar wedi nodi achosion MAPPA yn gywir. Fe wnaethom ganfod yn aml nad oedd achosion MAPPA yn cael eu crynhoi yn gywir ar y system rheoli achosion carchar, a, lle roeddynt, weithiau roedd y lefelau yr oeddent yn cael eu rheoli arnynt yn anghywir. Roedd gan rai troseddwr fwy nag un cofrestriad, gyda chyfnodau blaenorol fel achos MAPPA heb eu cau, ac ychwanegwyd cofrestriadau newydd ar ôl hynny. Roedd hyn yn ddryslyd. Er eu bod yn ymwybodol o'r broblem hon, nid oedd carchardai yn blaenoriaethu'r adnoddau i lanhau data yn ddigonol. Canfuom ddarlun tebyg ar yr arolygiad hwn.

- 4.4 Fe wnaeth diweddariad diweddar i ganllawiau MAPPa gyflwyno ffurflen sgrinio Q MAPPa. Mae'r ffurflen hon yn rhoi cyfrifoldeb ar yr asiantaeth arweiniol i bennu cyfreithlondeb statws cymhwyster MAPPa y troseddwr, ac yna i benderfynu a oes angen i ddwy neu fwy o asiantaethau gwrdd a chydweithio'n weithredol i ddatblygu a gweithredu RMP aml-asiantaethol. Yng ngoleuni'r atebion hynny, dylai'r cyfeiriwr sy'n cwblhau'r ffurflen allu dweud os bydd yr achos yn gofyn am reolaeth amlasiantaethol weithredol ar lefel 2 neu 3, neu, a yw'n briodol rheoli'r achos ar lefel 1. Gwelsom ddefnydd yn cael ei wneud o'r ffurflen sgrinio hon, yn y ffordd a ragnodwyd, mewn tair o'r ardaloedd yr ymwelwyd â hwy. Lle roedd y sgrinio yn nodi hynny, roedd yr asiantaeth arweiniol wedyn yn llenwi ffurflen atgyfeirio MAPPa (MAPPa A). Yn gyffredinol, roedd rheolwr y troseddwr a'i reolwr llinell yn gwneud y penderfyniadau sgrinio cychwynnol. Weithiau, roedd yr heddlu yn cymryd rhan, a chredid bod hyn yn arfer da. Nododd cynrychiolwyr asiantaethau Dyletswydd i Gydweithredu y byddent hwy hefyd yn hoffi bod yn rhan o'r broses sgrinio.
- 4.5 Mewn dwy ardal, cwblhawyd ffurflen atgyfeirio MAPPa A, neu amrywiad agos iawn, gan y rheolwr troseddwr a chafodd ei sgrinio gan y tim MAPPa i benderfynu a oedd yr achos yn addas ar gyfer rheolaeth lefel 2 neu 3. Canfuom, yn yr achosion hynny, fod y gwaith o gwblhau'r ffurflen gan y rheolwr troseddwr yn cael ei wneud i safon wael.
- 4.6 Roedd Swydd Gaerlŷr a Rutland yn defnyddio ffurflen sgrinio a ddatblygwyd yn lleol. Roeddent yn defnyddio'r ffurflen hon mewn perthynas â MAPPa a rheolaeth aml-asiantaeth Rheoli Troseddwr Integredig (IOM). Nid oedd y rhai oedd yn gwneud yr atgyfeiriadau bob amser yn llenwi'r ffurflen sgrinio i safon ddigonol. Yna penderfynodd y panel sgrinio, oedd yn cynnwys staff priodol o MAPPa ac IOM, a oedd dull IOM, MAPPa neu ddull asiantaeth unigol yn briodol. Fe wnaethom arsylwi cyfarfod sgrinio, a chawsom ein plesio gyda lefel y drafodaeth a ddigwyddodd ac ansawdd yr adborth a roddwyd i'r swyddog atgyfeirio. Yn Swydd Gaerlŷr a Rutland, roedd ffurflen gyfeirio MAPPa A i'w defnyddio yn y cyfarfod cychwynnol yn cael ei chwblhau wedyn dim ond os oedd y cyfarfod sgrinio lleol wedi cadarnhau bod yr achos yn briodol ar gyfer rheolaeth lefel 2 neu 3. Roeddem yn meddwl fod hwn yn ddull cynhwysfawr, a oedd yn ei gwneud yn bosibl i roi ystyriaeth dda o'r materion, yn arwain at wneud penderfyniadau gwybodus, ac yn cynhyrchu adborth da.
- 4.7 Yn gyffredinol, yn yr ardaloedd hynny oedd yn defnyddio ffurflen sgrinio MAPPa NOMS (MAPPa Q), nid oedd digon o wybodaeth am yr achos i ni fesur cywirdeb y penderfyniad ynghylch a oedd yn ofynnol cael rheolaeth aml-asiantaeth neu beidio. Yn y tair ardal arall, roeddem yn meddwl bod ansawdd yr atgyfeiriadau yn aml yn annigonol, ac nad oedd yn rhoi digon o wybodaeth am yr achos neu am ba fanteision a fyddai yn dod yn sgil rheolaeth lefel 2 neu 3.
- 4.8 Buom yn edrych ar 48 o atgyfeiriadau i gyd nas derbyniwyd ar gyfer rheolaeth amlasiantaethol ar lefel 2 neu 3. Nid oedd dwy ran o dair yn rhoi gwybodaeth am y tebygolrwydd o aildroseddu; nid oedd eu hanner yn ymdrin yn ddigonol â risg yr unigolyn o niwed difrifol; dim ond 10% oedd yn cynnwys unrhyw beth am debygolrwydd niwed difrifol. Er syndod, dim ond 12% oedd yn glir ynghylch pa asiantaethau Dyletswydd i Gydweithredu yr oedd y swyddog atgyfeirio yn awyddus i'w gwahodd i'r cyfarfodydd MAPPa a pham. Mewn dim ond hanner yr atgyfeiriadau a wrthodwyd y gallem ddod o hyd i asesiad risg asiantaeth, tra bod dim ond 12% yn cynnwys Cynllun Rheoli Risg (RMP). Dim ond un atgyfeiriad y gwnaethom ei ganfod a'i gwnâi yn ddigon clir beth oedd y materion arbennig a oedd yn gofyn am gyfranogiad rhyngasiantaethol ychwanegol at yr hyn y gallai un asiantaeth rheoli ei ddarparu. Er gwaethaf ansawdd cyffredinol wael yr atgyfeiriadau, nodasom fod pedwar o bob pump wedi derbyn ymateb o fewn deg diwrnod o dderbyn yr

atgyfeiriad. Rhoddodd bron i dri chwarter yr ymatebion adborth o ansawdd da i'r asiantaeth atgyfeirio, ac yr oedd yn amlwg i ni bod y rhai oedd yn gwneud y penderfyniad yn defnyddio ffynonellau eraill o wybodaeth, gan gynnwys edrych ar gofnodion OASys ac nDelius (system rheoli achosion y gwasanaeth prawf). Gallem weld cofnodion ar nDelius wedi'u cofnodi gan reolwyr lleol a staff MAPPA ynghylch yr atgyfeiriadau a'r penderfyniadau a ddeilliodd o hynny.

- 4.9 Defnyddiodd rhai ardaloedd broses adolygu drylwyr 16 wythnos ar gyfer pob un o achosion lefel 1 MAPPA, a oedd yn cynnwys y gwasanaeth prawf a'r heddlu. Mewn ardaloedd eraill, roedd y broses hon yn llai datblygedig.
- 4.10 Yng Nghaint a Dyfed Powys, roedd achosion lefel 1 categori 2 MAPPA nid yn unig yn cael eu nodi, ond eu cofnodi ar ViSOR. Er nad yw'n ofyniad cenedlaethol, roeddem yn meddwl ei bod yn gynllun cadarnhaol gan ei fod yn caniatáu i wybodaeth am y troseddwr, rhywun a oedd wedi cyflawni trosedd dreisgar fel arfer, gael ei chadw trwy gydol eu hamser yn y carchar. Nid yw lefel rheoli o reidrwydd yn cyfateb i'r risg o niwed difrifol y gallai troseddwr ei achosi, felly pe bai pob achos categori 2 MAPPA wedi'u cofrestru ar ViSOR gallai eu hymddygiad a gwybodaeth berthnasol arall gael eu cofnodi o ddyddiad y ddedfryd. Byddai hynny'n ddull mwy cynhwysfawr na'r trefniadau presennol lle mae gwybodaeth am droseddwr categori 2 MAPPA yn cael ei gofnodi ar gyfer y rhai sy'n cael eu rheoli ar lefel 2 neu 3 yn unig. Gan nad yw'r lefel yn cael ei gosod tan chwe mis cyn eu rhyddhau fel arfer, mae gwybodaeth rannol yn cael ei chofnodi ar gyfer y troseddwr hynny ar hyn o bryd.
- 4.11 Pan oedd achos yn cael ei nodi i'w ystyried ar gyfer rheolaeth ar lefel 2 neu 3 MAPPA, roedd yn rhaid cwblhau MAPPA A a'i hanfon at y cydlynedd MAPPA. Ar gyfer troseddwr sydd yn y ddalfa, rhaid i'r atgyfeirio ddigwydd o leiaf chwe mis cyn eu rhyddhau. Canfuom fod dwy ran o dair o atgyfeiriadau lle'r oedd y troseddwr yn y ddalfa yn amserol, a oedd ychydig yn waeth na'r hyn a welwyd gennym bedair blynedd yn ôl. Yn gyffredinol, roeddem yn ystyried bod ychydig yn llai na hanner yr holl atgyfeiriadau yn amserol a chynhwysfawr.

Enghraifft o Arfer:

Roedd Amy wedi bod yn rhan o gwlt rhyw mewn cymuned fach wledig. Roedd yr achos wedi datblygu enw drwg ymhell tu hwnt i'r ardal leol. Roedd menywod eraill oedd yn ymwneud â'r troseddu eisoes wedi cael eu rhyddhau ac yn cael eu rheoli o fewn MAPPA. Roedd Amy wedi ei dyrannu i'r un rheolwr troseddwr NPS a oedd yn rheoli un o'r menywod eraill oedd yn ymwneud â'r achos hwn. Roedd hyn yn synhwyrol oherwydd gwybodaeth y person hwnnw am yr achos, yn enwedig cymhlethdod perthnasau a lluosogrwydd y dioddefwyr. Atgyfeiriodd y rheolwr troseddwr achos Amy yn brydlon i MAPPA, a chynhaliwyd y cyfarfod lefel 3 cyntaf flwyddyn cyn ei dyddiad rhyddhau disgwylidig. Roedd hyn yn rhoi digon o amser i asiantaethau MAPPA gynllunio ar gyfer ei rhyddhau, ac, yn arbennig, nodi llety priodol ymhell oddi wrth y troseddwr eraill a'r lleoliad lle digwyddodd y troseddu.

Asiantaeth Arweiniol

- 4.12 Yn ein hadroddiad diwethaf, fe wnaethom ddweud nad oedd y cysyniad o asiantaeth arweiniol wedi'i wreiddio mewn arfer. Fe wnaethom argymhell y dylai'r asiantaeth arweiniol gael ei '*nodu'n glir ar gyfer pob achos a chymryd y prif gyfrifoldeb am reoli'r achos*'.

- 4.13 Noda canllawiau MAPPA mai'r asiantaeth arweiniol yw'r asiantaeth gyda'r awdurdod statudol a'r cyfrifoldeb i reoli troseddwr MAPPA. Mae'r rheolaeth hon yn golygu rhannu gwybodaeth briodol i nodi risg. Yr asiantaeth arweiniol sydd â'r prif gyfrifoldeb dros atgyfeirio'r troseddwr at reolaeth lefel 2 neu 3 MAPPA neu am barhau rheolaeth ar lefel 1.
- 4.14 Roedd pob un o'r chwe MAPPA y gwnaethom ni ymweld â hwy wedi ymdrin â'r argymhelliad o'r arolygiad gwreiddiol, ac wedi nodi'n glir yr asiantaeth arweiniol yn y cofnodion MAPPA ym mhob un achos bron a arolygwyd gennym. Mewn un ardal, yr asiantaeth arweiniol ar gyfer troseddwr rhyw categori 1 a oedd yn destun goruchwyliaeth gyfredol gan yr NPS neu TTI bob amser oedd yr heddlu. Roedd hyn yn gwyro oddi wrth ganllawiau cenedlaethol.
- 4.15 Roedd cofnodi ar ViSOR pa Awdurdod Cyfrifol oedd yn arwain rheolaeth y troseddwr yn aml yn annigonol. Nid oedd statws asiantaeth arweiniol wedi'i gofnodi'n glir mewn un rhan o bump o'r achosion a adolygwyd. Mewn un ardal, nid oedd yn cael ei gofnodi ar gyfer unrhyw rai o'r achosion a adolygwyd er eu bod wedi eu nodi yng nghofnodion cyfarfod MAPPA y troseddwr.
- 4.16 Mae canllawiau MAPPA yn dynodi nifer o gyfrifoldebau i'r asiantaeth arweiniol. Ar y cyfan, roedd dealltwriaeth glir o'r cysyniad o asiantaeth arweiniol. Ond o bryd i'w gilydd roedd yr ymddygiad a arsylwyd gennym yn dangos rhywfaint o oddefedd gan y rheolwr troseddwr gan blygu'n amhriodol i farn Cadeirydd y cyfarfod. Ond mae canllawiau MAPPA yn glir; amcan rheolaeth amlasiantaethol yw '*ychwanegu gwerth at reolaeth yr asiantaeth arweiniol o'r risg o niwed a berir gan y troseddwr*'. Nid cymryd ei le.

Asesu

- 4.17 Roedd asesiadau cychwynnol yn gywir ar y cyfan, ond roedd angen mwy o ddadansoddiad o'r risgiau a berir gan y troseddwr. Roedd ymddygiad neu droseddau yn y gorffennol yn aml yn cael ei archwilio yn annigonol, yn enwedig pan oedd yn wahanol i'r hyn a ddangoswyd yn fwy diweddar. Yn yr arolygiad diwethaf, gwnaethom sylwadau ar y gwahanol offer asesu a ddefnyddid gan yr heddlu a'r gwasanaeth prawf - RM2000 a OASys yn y drefn honno. Mae RM2000 yn mesur y risg o aildroseddau gan droseddwr rhyw, tra bo OASys yn asesu'r tebygolrwydd o aildroseddau a'r risg o niwed i eraill. Ond ar yr arolygiad diwethaf un thema gyffredin a oedd yn codi, yn enwedig yn ein cyfarfodydd gyda'r asiantaethau Dyletswydd i Gydweithredu, oedd y dryswch a deimlent am y term generig 'risg uchel'. '*Risg uchel o beth?*' oedd y cwestiwn a ofynnid yn aml. Yn ystod yr arolygiad hwn, ni wnaeth cynrychiolwyr y Ddyletswydd i Gydweithredu a gyfwelwyd gennym godi hyn fel mater, sy'n dangos bod cyd-ddealltwriaeth o'r derminoleg bellach.
- 4.18 Roedd asesu risgiau troseddwr yn gyffredinol yn seiliedig ar wybodaeth a rannwyd o fewn MAPPA. Roedd cofnodion cyfarfodydd yn adlewyrchu diweddariadau gan yr holl asiantaethau perthnasol am y risg o niwed a berir gan y troseddwr, er bod y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant weithiau'n araf i ddarparu gwybodaeth.
- 4.19 Dangosodd cofnodion MAPPA dystiolaeth glir o gyfraniadau gan asiantaethau perthnasol a dadansoddiad ar y cyd o risg parhaus. Ond nid oedd asesiadau risg y gwasanaeth prawf neu'r tîm troseddau ieuencid bob amser yn cael eu diweddarau yn dilyn y cyfarfod MAPPA i roi sylw i'r risgiau pellach neu'r cynnydd a drafodwyd ac a gytunwyd yn y cyfarfod.
- 4.20 Yn ein harolygiad diwethaf, ni welsom unrhyw enghreifftiau o brosesau ffurfiol a nododd fod troseddwr yn cael eu hysbysu o'u statws MAPPA a'r hyn yr oedd yn ei

olygu. Gwelsom ddarlun gwahanol y tro hwn. Roedd rhai ardaloedd yn hysbysu troseddwydwr am eu statws MAPPa, yn enwedig troseddwydwr ar lefel 3, fel mater o drefn. Gwelsom enghreifftiau o droseddwydwr yn cyfrannu eu barn eu hunain am eu risg, gyda'r wybodaeth honno yn cael ei rhannu wedyn o fewn y cyfarfodydd MAPPa. Yn y cyfarfodydd MAPPa gwelsom yn Swydd Gaerlyr a Rutland a Dyfed Powys, fod barn y troseddwr yn cael ei chyfleu i'r holl asiantaethau oedd yn mynychu'r cyfarfod, ac roedd hyn wedi helpu i fod yn sail i'r asesiad risg cyffredinol a'r cynllun o ganlyniad i hynny.

Casgliad

- 4.21 Roedd nodi achosion MAPPa fel arfer yn amserol. Ond yn aml nid oedd y system rheoli achosion carchar yn cofnodi achosion MAPPa a'r lefel yr oeddent yn cael eu rheoli arni yn gywir. Roedd hyn yn golygu, fel y gwelsom yn ein Harolygiadau Rheoli Troseddwydwr Carchar cyn-thematig, fod y carchar yn llai tebygol o gymryd ymagwedd ragweithiol at gynllunio cyn-rhyddhau.
- 4.22 Roeddem yn meddwl bod y diffyg ymagwedd aml-asiantaethol drwyadl a chyson tuag at sgrinio achosion cyn eu hatgyfeirio at MAPPa ar gyfer rheolaeth lefel 2 neu 3 yn wendid, ac nid oedd yn rhoi digon o sicrwydd nad oedd achosion nad oeddent wedi eu hatgyfeirio angen rheolaeth amlasiantaethol ar lefel 2 neu 3. Gallai adolygiad o achosion lefel 1 MAPPa yn briodol fod yn rhywbeth y bydd Grŵp y Prif Arolygwyr Cyfiawnder Troseddol (CJCIG) yn dymuno ei ystyried fel pwnc ar gyfer arolygiad ar y cyd yn y dyfodol.
- 4.23 Lle ffurfiwyd safbwynt y dylai atgyfeiriad at MAPPa gael ei wneud ar gyfer rheolaeth ar lefel 2 neu 3, roedd ansawdd yr atgyfeiriad yn aml yn wael. Yn benodol, methodd llawer o atgyfeiriadau ddatgan yn glir pam roedd achos yn cael ei gyfeirio at MAPPa, a phwy yr oedd y swyddog atgyfeirio yn dymuno ei wahodd. Roedd hyn yn peryglu i achosion amhriodol gael eu hystyried, a phobl / asiantaethau ddim yn cael eu gwahodd i'r cyfarfod a fyddai fel arall wedi bod â chyfraniad i'w wneud at yr achos.
- 4.24 Roedd adnabod yr asiantaeth arweiniol yn amlwg o'r cofnodion, ond roedd angen ei chofnodi ar ViSOR fel bod y wybodaeth hon yn glir i'r rheini o dair asiantaeth yr Awdurdod Cyfrifol a oedd angen gwybod pwy oedd yn gyfrifol am yr achos.
- 4.25 Nid oes unrhyw ddisgwyliad cenedlaethol ar hyn o bryd bod gwybodaeth am droseddwydwr treisgar a reolir ar lefel 1 yn cael ei chofnodi ar ViSOR, er bod dwy ardal MAPPa yn cofrestru'r achosion hynny. Rydym yn credu y byddai manteision mewn rhannu gwybodaeth, rheoli risg a chynllunio cyn rhyddhau pe bai pob achos MAPPa wedi'u cofrestru o ddyddiad y ddedfryd.

5. Gwneud yr hyn sydd ei angen

Crynodeb

Yn yr adran hon, rydym yn rhoi sylwadau ar amledd cyfarfodydd lefel 2 a 3 MAPPA ac ansawdd a phrydlondeb y cofnodion. Rydym yn adrodd hefyd ynghylch a wnaeth asiantaethau oedd yn gweithio o fewn MAPPA gymryd y camau gweithredu a oedd yn ofynnol, a lle roedd Cadeiryddion wedi eu dal i gyfrif.

- Roedd amlder a chynllunio'r cyfarfodydd yn dda.
- Roedd presenoldeb mewn cyfarfodydd yn dda ar y cyfan, ond anaml yr oedd timau plismona cymdogaeth yn cael eu cynrychioli.
- Roedd datgelu gwybodaeth i drydydd parti yn digwydd ac yn cael ei adolygu.
- Cafodd y camau gweithredu eu cwblhau, ond nid oedd y canlyniadau yn glir bob amser.
- O'i gymharu â 2011, roedd cyfarfodydd yn canolbwyntio llai ar rannu gwybodaeth gyffredinol ac yn canolbwyntio mwy ar y risg o niwed a berid gan y troseddwr a'r cynllunio oedd yn deillio o hynny.
- Roedd cadeiryddion yn weithgar o ran dal asiantaethau i gyfrif.
- Roedd Cynlluniau Rheoli Risg a chofnodion MAPPA yn well nag yn 2011, ond roedd lle i wella.
- Nid oedd NPS a charchardai yn defnyddio ViSOR fel offeryn gwaith.

Amllder a Phresenoldeb mewn Cyfarfodydd

- 5.1 Noda canllawiau MAPPA y dylai cyfarfodydd lefel 2 gael eu cynnal o leiaf unwaith bob 16 wythnos, a chyfarfodydd lefel 3 o leiaf bob 8 wythnos. Cyflawnwyd y lefelau amledd hynny yn fras ym mhob un ond un o'r achosion a arolygwyd gennym. Roedd hwn yn ganlyniad gwell na'r hyn a welwyd gennym yn 2011. Roedd cydlynwyr wedi datblygu systemau da ar gyfer cynllunio'r cyfarfodydd hyn, gyda chyfarfodydd lefel 2 wedi'u trefnu yn gyffredinol ar sail amledd, a chyfarfodydd lefel 3, yn delio â'r ychydig critigol, wedi'u trefnu yn ôl y gofyn.
- 5.2 Yn wahanol i 2011, gwelsom gyfarfodydd MAPPA ym mhob un o'r chwe ardal a arolygwyd gennym yn yr ail arolygiad hwn. Fel arfer byddem yn gweld un neu ddau o achosion yn cael eu trafod ym mhob cyfarfod, ond mewn un ardal roedd llawer o achosion yn cael eu trafod gyda llai o amser ar gael ar gyfer pob achos unigol. Roedd yn ddiddorol gweld y gwahanol ddulliau ac arddulliau a fabwysiadwyd yn y cyfarfodydd a arsylwyd gennym. Yn gyffredinol, roedd y gwaith o gadeirio cyfarfodydd yn cael ei wneud yn broffesiynol. Ar adegau, roedd y broses yn ymddangos yn bwysicach na'r diben. Fel enghraifft, mewn un cyfarfod ni thrafodwyd y gair 'risg' hyd nes roedd dros awr wedi mynd heibio. Roedd y Cadeirydd wedi bod yn canolbwyntio gormod ar gyfnewid gwybodaeth, a sicrhau bod pawb yn y cyfarfod yn cael cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y troseddwr heb ystyried a oedd y wybodaeth honno yn ymwneud â'i risg o niwed neu beidio. Yn yr achos

penodol hwnnw, nid oeddem yn hyderus fod pawb yn deall y risgiau, ac, felly, roeddem yn teimlo'n llai na hyderus fod y gwaith o gynllunio ar gyfer rheoli risg ar sylfaen ddigon cadarn.

- 5.3 Roedd gan bob MAPPA y buom yn ymweld ag ef brotocol diweddar rhwng yr asiantaethau perthnasol. Roedd presenoldeb mewn cyfarfodydd lefel 2 a 3 yn gyffredinol dda, ond nid oedd y gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd bob amser yn bresennol mewn cyfarfodydd lle roedd disgwyl iddynt fod. Sylw un Llywodraethwr Carchar oedd bod *'angen i lechyd ystyried bod ganddynt ddyletswydd y tu hwnt i'r berthynas rhwng y meddyg â'r claf'*.
- 5.4 Nid oedd bob amser yn amlwg o'r cofnodion a oedd yna eglurder ynghylch pwy y disgwyliid iddynt fod yn bresennol yn y cyfarfod, a oedd rhai a ddisgwylid yno, neu a oedd gan y rhai oedd yn mynychu wybodaeth ddigonol ac arbenigedd mewn perthynas â'r achos ac yn gallu ymrwymo i gamau gweithredu y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod. Nid oedd rhestrau presenoldeb bob amser yn rhoi dynodiad neu rôl y sawl oedd yn mynychu. Roedd hon yn broblem arbennig ar gyfer yr ardaloedd hynny lle roedd ffiniau llywodraeth leol a ffiniau gweinyddol eraill yn gymhleth. Mewn un achos y gwnaethom ei arolygu, mynychodd gwahanol bobl o'r gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant y cyfarfodydd gan gyfaddef yn agored eu diffyg gwybodaeth am y trafodaethau a oedd wedi digwydd yn y cyfarfodydd blaenorol. Er yn wastraff amser, roedd yn gwneud eu gallu i gyfrannu at asesiad risg o niwed a chynllunio yn llai tebygol. Yn yr achos hwnnw, ysgrifennodd y Cadeirydd at wasanaethau gofal cymdeithasol plant i geisio cywiro'r broblem hon. Yn gyffredinol, roedd y Cadeiryddion yn ymddangos yn fwy gweithgar o ran gweithio ar bresenoldeb nag a ganfuwyd gennym yn 2011, ond roedd cael y bobl iawn i fynychu yn dal i fod yn broblem i MAPPA.
- 5.5 Mewn rhai ardaloedd, nid oedd gan yr heddlu reolwyr troseddwr wedi'u henwi ar gyfer troseddwr treisgar a reolid ar lefel 2 a 3. Yn lle hynny, roedd rheolwr yr heddlu, Ditectif Arolygydd fel arfer, yn bresennol yn y cyfarfod ac yn cymryd cyfrifoldeb am fwrw ymlaen â'r camau gweithredu. Ond anaml iawn yr oedd hwn y person oedd yn gyfrifol am gyflawni'r camau gweithredu oedd yn codi. Mae'r enghraifft isod yn dangos y peryglon o beidio â bod â rheolwr troseddwr a enwir yn yr heddlu.

Enghraifft o Arfer

Roedd Stephen yn droseddwr categori 3 lefel 2 a oedd wedi cael ei dderbyn ar gyfer rheolaeth amlasiantaethol ar ôl iddo dderbyn gorchymyn dedfryd ohiriedig gyda goruchwyliaeth am ymosodiad trais yn y cartref, trosedd a oedd yn debyg i'r ymddygiad troseddol blaenorol mewn perthynas. Roedd ei risg o niwed difrifol yn 'uchel iawn', yn dilyn arwyddion bod troseddu o natur debyg yn y dyfodol ar fin digwydd. Ond ni chafodd camau gweithredu pwysig yn deillio o'r cyfarfodydd MAPPA eu gweithredu'n brydlon gan yr heddlu. Yn yr achos hwn nid oedd unrhyw reolwr troseddwr gan yr heddlu wedi'i ddyrannu iddo, ac roedd y Ditectif Arolygydd a fynychodd y cyfarfod wedi anwybyddu'r angen i ddyrannu'r gweithredu i un o'u tîm.

- 5.6 Ac eithrio Dyfed Powys, ni wnaeth yr heddlu gadw at y lefelau hynafedd ('seniority') ar gyfer mynychu cyfarfodydd lefel 3 fel y nodir yng nghanllawiau MAPPA. Yn y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd MAPPA, Prif Arolygydd oedd yn bresennol yn hytrach nag Uwcharolygydd. Dywedodd uwch reolwyr yn yr heddlu wrthym y bu gostyngiad yn nifer yr Uwcharolygwyr oedd yn gwneud y gofyniad hwn yn amhosibl ei gyflawni. Roeddent yn dweud nad oedd unrhyw effaith weithredol ar wyro oddi wrth y

canllawiau fel hyn, gan fod Prif Arolygwyr bellach yn cario llwyth gwaith a chyfrifoldeb a oedd yn debyg i'r hyn a wneid gan Uwcharolygydd ychydig flynyddoedd yn ôl. Yn yr achosion hynny lle roedd rheolwyr un radd yn is na'r hyn a nodwyd yn y canllawiau yn cynrychioli'r heddlu, ni welsom effaith andwyol ar eu cyfraniad i'r cyfarfodydd. Ein barn ni oedd pe gallai Prif Arolygydd arwain ymchwiliad i lofruddiaeth, dylent fod yn gallu cynrychioli'r heddlu mewn cyfarfod lefel 3 MAPPA.

- 5.7 Yn yr holl achosion a arolygwyd gennym, roedd o leiaf un aelod yn cynrychioli'r heddlu yn bresennol. Ond o ran presenoldeb gan swyddogion yr heddlu oedd yn ymddrin yn uniongyrchol ag achosion, roedd y canlyniadau yn gymysg, ac yn debyg i'r rhai a gafwyd yn arolygiad 2011. Dim ond dau o'r chwe heddlu a arolygwyd oedd yn dangos tystiolaeth o bresenoldeb rheolaidd gan swyddogion oedd yn ymarfer. Ond lle nad oedd y swyddogion hynny yn mynychu roedd eu rheolwyr goruchwylio fel arfer yno. Nid oedd llawer o dystiolaeth o dimau plismona yn y gymdogaeth yn mynychu cyfarfodydd MAPPA yn rheolaidd, ac ychydig iawn o dystiolaeth a welwyd o ymgynghori â swyddogion o'r timau hynny neu eu briffio am droseddwr MAPPA yn cael eu rhyddhau i'w cymuned leol. O ystyried natur eu rôl a nifer uchel y troseddwr MAPPA sy'n cael eu rheoli o fewn y gymuned, nad oedd rhai ohonynt bellach yn destun cyfyngiadau gofyniad goruchwylio statudol, ystyrid bod hwn yn gyfle a gollwyd i MAPPA fanteisio ar ffynhonnell bwysig o wybodaeth am y gymuned a chasglu gwybodaeth. Lle roedd yn digwydd, roedd yn cynhyrchu canlyniadau cadarnhaol.

Enghraifft o Arfer:

Yn Hampshire, roedd Swyddog Cefnogi'r Gymuned yr Heddlu (PCSO) wedi mynychu cyfarfod MAPPA troseddwr ac wedi rhoi gwybodaeth werthfawr am symudiadau diweddar y troseddwr yn y gymuned. Roedd hyn yn cynnwys dweud wrth MAPPA fod y troseddwr wedi cael ei weld yng nghwmni plentyn na ddylai fod wedi bod mewn cysylltiad ag ef.

Dogfennaeth

- 5.7 Yn codi o'r arolygiad diwethaf, fe wnaethom argymhell y '*dylai cofnodion fod yn amserol, yn glir ac yn rhoi cofnod cywir o benderfyniadau a gweithredoedd y cytunwyd arnynt*'.
- 5.8 O'i gymharu â 2011, roedd cynhyrchu'r cofnodion yn fwy prydlon. Bu ffocws amlwg ar gyflawni hyn. Yn Swydd Gaerlyr a Rutland, roedd yr holl gofnodion ar gyfer pob un o'r wyth achos y buom yn edrych arnynt yn brydlon. Roedd perfformiad Manceinion Fwyaf hefyd yn dda. Yn Nyfed Powys, dosbarthwyd pwyntiau gweithredu o'r cyfarfod yn syth ar ôl y cyfarfod, hyd yn oed os oedd y cofnodion eu hunain yn cymryd mwy o amser i gyrraedd. Gwelsom arferion tebyg mewn lleoedd eraill. Roeddem yn meddwl fod hyn yn ddefnyddiol.
- 5.9 Roeddem yn synnu clywed am arfer mewn un ardal, lle roedd setiau annigonol o gofnodion yn cael eu darparu weithiau mewn cyfarfodydd i bawb gael copi. Yn yr achos penodol hwnnw, roedd tri neu bedwar set ar y bwrdd i'r 'asiantaethau ymladd drostynt'. Credwn ei bod yn bwysig i setiau digonol o gofnodion fod ar gael i bawb sy'n mynychu gael eu copi eu hunain.

- 5.10 Gwelsom fod camau i'w cymryd yn gliriach ac yn fwy perthnasol na'r hyn a welwyd gennym yn 2011. Roedd yna hefyd fwy o drylwyredd wrth adolygu'r camau gweithredu. Roedd y rhan fwyaf o'r MAPPAs yn gosod terfynau amser ar gyfer camau gweithredu a oedd yn briodol ar gyfer yr amgylchiadau unigol.
- 5.11 Cafodd bron pob un o'r camau gweithredu a ddyrannwyd gan y cyfarfod blaenorol eu cofnodi fel rhai oedd wedi'u cwblhau yn unol â'r amserlen a osodwyd. Roedd camau yn llawer mwy cymesur a pherthnasol nag a welwyd gennym yn 2011. Ond roedd yn fater rhwystredig i ni, fel y mae'r enghraifft isod yn dangos, ein bod o bryd i'w gilydd wedi gweld gweithred a adroddwyd fel un a gafodd ei chwblhau, ond na allem wedyn weld beth fu canlyniad y camau hynny.

Enghraifft o Arfer

Roedd Jac wedi gadael tair ffôn symudol yn y Safle Cymeradwy cyn ei alw'n ôl i'r carchar. Gofynnodd MAPPA i swyddog yr heddlu y TTI (YOT) weld pa wybodaeth oedd ar y ffonau. Yn y cyfarfod dilynol, adroddodd y cofnod *'cafodd y ffonau eu gwirio am gudd-wybodaeth'*. Ond nid oedd dim yn dweud yn y cofnodion beth oedd heddwys y TTI wedi ei ganfod ar y ffonau. Ar ôl rhoi'r dasg o wirio'r ffonau i swyddog heddlu y TTI (YOT), ac ar ôl gofyn iddo a oedd wedi cyflawni'r weithred, yr oedd yn ddyletswydd ar y Cadeirydd i ganfod beth oedd wedi bod ar y ffonau, neu, os na ofynnid iddo, i swyddog heddlu y TTI (YOT) gynnig gwybodaeth.

- 5.12 Yn deillio o'r arolygiad diwethaf, gwnaethom y ddau argymhelliad canlynol i'w cyflwyno gan Gadeiryddion cyfarfodydd lefel 2 a 3 MAPPA: Dylent:
- *'sichrau bod cynllun rheoli risg cynhwysfawr, yn nodi sut y bydd yr asiantaethau dan sylw yn cydweithio i reoli'r risg o niwed a gyflwynir gan yr unigolyn, yn cael ei lunio ym mhob achos a'i adolygu lle bo angen'*
 - *'llunio strategaethau i leihau'r risg o niwed a gyflwynir gan yr unigolyn yn y tymor hwy pan nad yw bellach yn ddarostynedig i MAPPA'*.
- 5.13 Noda canllawiau MAPPA: *'Ar ôl asesu'r risg y mae pob troseddwr yn ei gynrychioli, mae angen i'r asiantaethau MAPPA reoli'r risg honno. Bydd hyn yn golygu paratoi Cynllun Rheoli Risg manwl a chadarn.* Yn 2011, ychydig iawn o 'RMPs' MAPPA manwl a chadarn a welsom. Y tro hwn, fe wnaethom ganfod tystiolaeth o welliant, ond roedd y canlyniadau yn dal yn siomedig. Mae templad MAPPA A ar gyfer atgyfeiriadau yn gofyn i RMP yr asiantaeth gael ei ymrannu yn 'Ffactorau Cyfyngol/Ymyriadau', 'Ffactorau Adsefydlu /Ymyriadau' a 'Ffactorau Amddiffynnol / Ymyriadau'. Mae'r rhan fwyaf o wybodaeth atgyfeirio MAPPA A wedyn yn cael ei gludo drosodd i gofnodion MAPPA B. Mae'r RMP yn defnyddio'r un penawdau. Yn rhy aml, roeddem yn canfod bod RMP yr asiantaeth gychwynnol yn cael ei gludo drosodd o gyfarfod MAPPA i gyfarfod MAPPA heb newid, ac yn ddiodyn roedd yn dod yn RMP MAPPA. Mewn llawer o achosion, nid oedd y Cynllun Rheoli Risg yn cael ei ddiweddarau'n ddigonol neu, weithiau, roedd yn anghywir. Mewn un achos y gwnaethom ei arolygu, roedd y Cynllun Rheoli Risg yn cynnwys amod 'dim cyswllt' â pherson oedd yn anffodus wedi marw.
- 5.14 Er y gallem weld tystiolaeth o lawer o weithgarwch rheoli risg, ac roedd hyn ar y cyfan yn cael ei wneud a'i gofnodi'n dda, roeddem yn aml yn rhwystredig wrth

ganfod o fewn yr adran Ffactorau Cyfyngol / Ymyriadau y Cynllun Rheoli Risg, ymadroddion fel 'amodau trwydded' neu 'SOPO'. Roedd mesurau wrth gefn yn aml yn gwneud dim ond rhestru 'torcyfraith os yn methu â chydymffurfio'. Yn ogystal, nid oedd manylion am ba waith oedd yn mynd i gael ei wneud gyda'r troseddwr i'w adsefydlu neu amddiffyn yn aml yn cael ei nodi'n glir yn y Cynllun Rheoli Risg. Yr hyn roedd hyn yn ei olygu oedd ei bod yn aneglur mewn llawer o achosion beth oedd cyfraniad yr holl asiantaethau o amgylch bwrdd MAPPA i Gynllun Rheoli Risg trosfwaol MAPPA.

- 5.15 Weithiau gwelsom 'ymweliadau cartref' yn cael eu cynnwys fel rhan o'r cynllun, ond nid y manylion ynghylch pryd a chan bwy. Roeddem yn meddwl bod yr hyn a ddywedodd un gweithiwr cyffuriau wrthym yn egluro llawer. Dywedodd nad oeddent yn cyfrannu at reoli risg, oherwydd mai'r cyfan a wnaethent oedd ymweld â'r troseddwr ychydig o weithiau'r wythnos yn ei gartref i roi ei feddyginiaeth iddo. Roedd y diffyg ymwybyddiaeth hwnnw ynghylch sut roedd yr holl asiantaethau o amgylch y bwrdd yn cyfrannu at gadw dioddefwyr a dioddefwyr posibl yn fwy diogel yn siomedig. Yn yr achos hwnnw, efallai bod y gweithiwr cyffuriau wedi cael mwy o gyswllt o ddydd i ddydd gyda'r troseddwr nag unrhyw un arall.
- 5.16 Roeddem hefyd yn meddwl ei bod yn bwysig fod y cofnodion yn cynnwys, o fewn y Cynllun Rheoli Risg, fanylion am amodau trwyddedau a gorchmynion cyfyngol, megis SOPOs, Gorchmynion Troseddwr Treisgar neu RoSHOs, yn llawn ac yn gywir². Fe wnaethom fynychu un cyfarfod lefel 3 lle roedd y troseddwr rhyw yn byw ychydig gannoedd o filltiroedd i ffwrdd y tu allan i'r ardal. Gofynnodd y rhai oedd yn yr ystafell neu ar y ffôn nifer o gwestiynau i'r heddlu am y Gorchmyn Atal Troseddau Rhyw (SOPO). Roeddem yn meddwl os oedd manylion y SOPO wedi eu cynnwys o fewn Cynllun Rheoli Risg y MAPPA, yna byddai pawb yn y cyfarfod wedi bod yn ymwybodol o beth yn union oedd y troseddwr yn cael caniatâd i'w wneud, a beth oedd o ddim, a byddent wedi eu paratoi'n well i ymateb i unrhyw dorri amodau. Byddai'r cyfarfod hefyd wedi bod yn fwy cryno.
- 5.17 Y cyfarfodydd y gwnaethom sylwi oedd yn dangos yr ystyriaethau mwyaf trylwyr o asesu risg, a'r camau oedd eu hangen i fynd i'r afael â'r materion yn codi, oedd y cyfarfodydd lefel 3 a welsom yng Nghaerlŷr a Chaerfyrddin, yr ardaloedd peilot ar gyfer Pedair Colofn. Fodd bynnag, er bod y model yn amlwg yn rhoi siâp i'r ystyriaethau, y peth mwyaf pwysig o'n safbwynt ni oedd sgiliau'r Cadeirydd wrth gymhwyso'r model yn gywir, gan sicrhau bod y bobl gywir o gwmpas y bwrdd a'u bod yn gwybod beth oedd yn rhaid iddynt ei wneud i gymryd y camau oedd eu hangen ymlaen. Yng Nghaerlŷr a Chaerfyrddin, cafodd y cyfarfodydd eu cadeirio'n dda gan y cydlynwyr MAPPA lleol. Yn benodol, yng Nghaerlŷr eglurodd y Cadeirydd gyda'r asiantaeth arweiniol bod Cynllun Rheoli Risg yr asiantaeth wedi cael ei ddiweddarau a bod gwybodaeth berthnasol wedi ei rhoi i ViSOR.
- 5.18 Ar y cyfan, roeddem yn meddwl bod y Cynllun Rheoli Risg yn well na phedair blynedd yn ôl ond roedd yn dal angen ei wella. Roeddem yn meddwl mai dim ond dwy ran o bump oedd o ansawdd digonol. Y Cynlluniau Rheoli Risg gorau y gwnaethom eu darllen oedd y rhai a gynhyrchwyd gan Swydd Gaerlyr a Rutland. Roedd y MAPPA hwnnw, ynghyd â Dyfed Powys, yn ardal beilot ar gyfer Pedair Colofn, a ddatblygwyd gan Brifysgol De Montford yn seiliedig ar waith yn yr Alban gyda throseddwr risg

² Mae Gorchmynion Atal Troseddau Rhyw (SOPOs) a Gorchmynion Perygl o Niwed Difrifol (RoSHOs) wedi cael eu disodli gan Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol (SHPOs) a Gorchmynion Risg Rhywiol (SROs) o ganlyniad i newidiadau a wnaed i Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 gan *Ddeddf Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol, Trosedd a Pholisi 2014*.

uchel ac yna a addaswyd i'w ddefnyddio yng Nghymru a Lloegr. Ond hyd yn oed yn y ddwy ardal honno mae'r camau a nodwyd o dan y Pedair Colofn yn ategu'r cynllun presennol, ac nid oedd bob amser yn hawdd dod o hyd i'r cynllun presennol hwnnw. Dywedodd un llywodraethwr carchar a oedd yn aelod o Fwrdd Rheoli Strategol, ac oedd yn mynychu cyfarfodydd lefel 3, wrthym y byddai adran crynodeb yn nogfennau MAPPA yn helpu i dynnu'r cynllun at ei gilydd. Disgrifiodd hi hyn fel '*ac i gloi, mae'r Cynllun Rheoli Risg ...*'.


- 5.19 Mewn llawer o achosion, nid oedd y Cynllun Rheoli Risg wedi'i ddiweddarau'n ddigonol hyd yn oed pan oedd newid amlwg wedi bod. Meddai Arolygydd oedd yn adrodd ar un achos: '*Mae'r Cynllun Rheoli Risg o'r atgyfeiriad yn cael ei fabwysiadu fel Cynllun Rheoli Risg y MAPPA heb unrhyw newid. Caiff ei dynnu drwodd i nodyn pob cyfarfod er ei fod yn dod yn amherthnasol yn fuan iawn*'.
- 5.20 O ran llunio strategaethau i leihau'r risg o niwed a gyflwynir gan yr unigolyn yn y tymor hwy, pan nad ydynt mwyach yn destun MAPPA, daethom o hyd i ddarlun cymysg. Mewn rhai achosion, roedd y troseddwr yn ddarostyngedig i gyfnod hir o drwydded; mewn eraill, roedd y troseddwr newydd gael ei ryddhau neu roedd ar fin cael ei ryddhau. Yn yr achosion hynny, roedd yn rhy gynnar disgwyl gweld paratoi ar gyfer strategaethau tymor hwy. Mewn achosion eraill, gwelsom ystyriaeth dda yn cael ei rhoi i gynllunio ar gyfer gadael. Gwelsom hefyd enghreifftiau lle roedd yr achos yn dirwyn i ben ar ddiwedd y ddedfryd, â ffactorau risg yn dal heb eu trin. Mae'r enghreifftiau isod yn dangos dwy ochr y darlun.

Enghraifft o Arfer:

Roedd Dave yn droseddwr rhyw oedrannus gyda hanes gydol oes o droseddu yn erbyn gwrywod cyn cyrraedd eu harddegau. Roedd wedi derbyn lefel uchel o ymyriadau cyfyngol priodol a chymorth o dan MAPPA Swydd Gaerlyr a Rutland am fwy na dwy flynedd. Cafodd ei ryddhau i Safle Cymeradwy. Fe wnaeth cefnogaeth a monitro rhyngasiantaethol alluogi MAPPA i fod yn ddigon hyderus i ganiatáu iddo symud i fyw'n annibynnol, gyda chymorth gweithiwr cymorth. Ar adeg yr arolygiad, roedd yn dal heb droseddu, yn dal yn ddarostyngedig i gyfyngiadau priodol drwy ei SOPO, ar feddyginiaeth gwrth-libidinaidd ac yn derbyn cefnogaeth wirfoddol un-i-un.

Enghraifft o Arfer

Roedd Jon yn droseddwr treisgar, a reolid ar gategori 3 lefel 2. Roedd ganddo hanes fel cyflawnwr cam-drin domestig, roedd yn cymryd rhan yn y byd gangiau a chyffuriau, ac roedd troseddau arfau yn rhan o'i hanes. Wrth gael ei ryddhau o'r carchar ar ddyddiad gorffen ei ddedfryd, roedd y cofnod hwn ar y cofnod achos pan oedd ei ddedfryd yn dod i ben yn arwyddocaol iawn: '*... cynhaliwyd ymweliad oedd wedi'i gynllunio i gwblhau cynllun rhyddhau Jon. Mae ffrind yn ei gasglu cyn gynted ag y bydd Jon wedi cael torri ei wallt a phrynu dillad newydd. Rhoesom ein rhifau ffonau symudol i Jon, a dweud wrtho am ein ffonio ni pan fydd wedi cyrraedd. Mae wedi cytuno i dreulio ychydig o nosweithiau mewn gwely a brecwast*'. Nid oedd hwn yn gynllun da ar gyfer rhyddhau dyn a oedd yn ymwneud â gweithgareddau gang, ac yn peri risg o niwed difrifol i bobl hysbys ac anhysbys yn ogystal â'i blant ei hun. Ni roddwyd ystyriaeth ddigonol ynghylch ymgysylltu â Jon unwaith bod ei ddedfryd wedi dod i ben.



- 5.21 Ym Manceinion Fwyaf, fe wnaethon arolygu achosion o Fwrdeistref Fetropolitan Tameside. Roedd y tîm IOM yn Tameside, a elwir yn Spotlight, yn cynnwys carfan o droseddwr treisgar, rhywbeth y byddwn yn ei weld yn anaml gan fod IOMs wedi canolbwyntio yn hanesyddol ar droseddwr meddiangar cynhyrchiol. Ond roedd y tîm Spotlight yn Tameside yn gyfrifol am droseddwr treisgar a reolid yn MAPPA. Roedd yr holl swyddogion yn y tîm wedi eu hyfforddi mewn Rheoli Troseddwr Rhywiol a Threisgar (MOSAVO), ac wedi mynychu cyfarfodydd MAPPA. Roedd yr IOM yn monitro troseddwr treisgar pan ddeuent at ddiwedd eu dedfryd er mwyn ceisio amddiffyn dioddefwyr, fel mae'r achosion isod yn dangos.

Enghraifft o Arfer

Gwnaed gwaith da cyn ail-ryddhau Phil o'r carchar yn Hydref 2014 ar ddyddiad gorffen y ddedfryd. Llwyddodd y tîm IOM i'w gael i gymryd rhan mewn cyswllt a chefnogaeth wirfoddol, a chynhaliwyd cyswllt cyson wedi hynny mewn perthynas â'i iechyd meddwl, ailgartrefu a chamddefnyddio sylweddau. Cafodd ei ryddhad o'r carchar ei reoli'n dda; cafodd ei gasglu oddi wrth y giât, a'i hebrwng i lety a drefnwyd gydag arian a sicrhawyd ar ei gyfer i fyw yno am bythefnos. Fe wnaeth yr heddlu gynnal gwyliadwriaeth, a chyflwynwyd mesurau cynhwysfawr i amddiffyn dioddefwyr posibl. Roedd rheolaeth MAPPA Manceinion o'r materion monitro ac amddiffyn dioddefwyr yn dda, fel yr oedd yr ymgysylltiad cefnogol a ddarparwyd i'r troseddwr gan y tîm IOM.

Enghraifft o Arfer:

Roedd Derek wedi bwrw dedfryd dwy flynedd o garchar am ymosodiad treisgar ar ddydd 64 oed a oedd yn credu oedd yn droseddwr rhyw. Pan oedd yn y carchar, roedd Derek wedi mynegi bwriad i ladd troseddwr rhyw pe cai gyfle. Ar ôl rhyddhau cychwynnol, cafodd ei alw'n ôl i'r carchar (oherwydd bygythiadau, camddefnyddio cyffuriau a mynd i mewn i ardal waharddedig). Oherwydd hyn a phryderon am ei ymddygiad, arhosodd Derek yno tan ddyddiad gorffen ei ddedfryd. Nododd yr heddlu yr unigolion hynny a oedd mewn perygl a gosodwyd 'marcwyr' ar eu cyfeiriadau. Dechreuwyd gwyliadwriaeth gan yr Heddlu am bythefnos yn dilyn rhyddhau Derek, a arweiniodd at y casgliad nad oedd yn ceisio ymweld ag unrhyw rai o'r bobl a oedd wedi cael eu nodi fel risg. Helpodd y PCSO o fewn yr IOM Derek i gael hawliau budd-daliadau, trefnwyd gweithgareddau pysgota fel gweithgaredd dargyfeiriol, ac, o ganlyniad, sicrhawyd ymgysylltiad gan Derek.

Datgelu

- 5.22 Datgeliad yw rhannu gwybodaeth benodol am droseddwr MAPPA gyda thrydydd parti nad yw'n ymwneud â'r MAPPA, er mwyn diogelu'r cyhoedd. Dylai datgelu mewn perthynas â *holl* droseddwr MAPPA gael ei ystyried ym mhob cyfarfod adolygu. O ddarllen y cofnodion, gwelwyd tystiolaeth o ystyried datgelu mewn ychydig dros bedair rhan o bump o'r achosion, gyda rhesymau yn cael eu darparu mewn tair rhan allan o bump. Gan gofio bod adran benodol o fewn y templed cofnodion ar gyfer datgelu, roeddem yn disgwyl ymateb gwell. Weithiau, roedd y blychau yn wag, ac weithiau roedd gwybodaeth yn cael ei chopio a'i gludo o gofnodion cyfarfod blaenorol, ac nid oeddent yn berthnasol i'r cyfarfod newydd. Roedd ystyriaethau datgelu yn y gwahanol MAPPAs yn amrywiol, gyda Swydd Gaerlyr a Rutland a Llundain bob amser yn dangos tystiolaeth o ystyriaeth briodol. Roedd Llundain hefyd yn dda am roi adroddiad am y rhesymau dros y datgeliad.

Enghraifft o Arfer:

Roedd Pete, troseddwr rhyw, yn arddangos cynnydd yn ei ymddygiad troseddol. Roedd MAPPA Llundain yn pryderu y gallai partner Pete fod yn ddiodefwr posibl. Yn arbennig, roeddent yn bryderus y gallai hi fod yn rhan o arferion rhywiol anghyfreithlon gyda Pete heb ganiatâd. Aeth yr heddlu i ymweld â hi i ganfod ei safle yn y berthynas, a rhoddwyd datgeliad llawn iddi o'i hanes o droseddu.

- 5.23 Mewn un achos, roedd y cofnodion yn dweud mewn perthynas â datgelu '*gweler y crynodeb yng nghorff y nodiadau*'. Ond cafodd corff y nodiadau eu diweddarw wedyn yn y cyfarfod nesaf, ac roedd y datgeliad yn dal i ddweud '*gweler y crynodeb yng nghorff y nodiadau*'. Byddai'r rhai oedd yn bresennol wedi bod yn ddryslyd ynghylch beth oedd y datgeliad, ac i bwy yr oedd i gael ei wneud.
- 5.24 Cafodd gwybodaeth o gyfarfodydd MAPPA ynghylch penderfyniadau datgelu ei chofnodi ar ViSOR mewn tair rhan o bump o'r achosion a arolygwyd gennym, gyda'r perfformiad gorau yn Swydd Gaerlyr a Rutland a Manceinion Fwyaf.

Enghraifft o Arfer

Roedd Denis yn Droseddwr Rhyw Cofrestredig (RSO) a oedd wedi cael dedfryd hir o garchar am droseddau rhyw dro ar ôl tro yn erbyn chwaer ddeng mlwydd oed ei bartner. Cyn rhyddhau Denis, roedd Heddlu Manceinion Fwyaf a'r gwasanaeth prawf wedi ymweld â'i deulu ar y cyd. Galluogodd hyn iddynt ddatgelu gwybodaeth am y risgiau yr oedd yn eu peri i'w neiaint a'i nithoedd, y drwydded a chyfyngiadau SOPO a'r rheswm dros dynnu'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant i mewn.

Diogelwch Dioddefwyr

- 5.25 Yn yr arolygiad diwethaf, dywedasom fod y tebygolrwydd o faterion diogelwch dioddefwyr yn cael eu dwyn i sylw'r cyfarfod yn cynyddu'n sylweddol pan oedd swyddog cyswllt dioddefwyr y gwasanaeth prawf yn mynychu'r cyfarfodydd MAPPA yn rheolaidd. Yn yr arolygiad hwn, gwelsom mewn bron i dri chwarter yr achosion lle

roedd swyddogion cyswllt dioddefwyr yn ymwneud yn weithredol â'r dioddefydd, neu lle'r oedd problemau gyda dioddefwyr a oedd angen sylw penodol, eu bod yn mynychu'r cyfarfodydd. Roedd hyn yn gynydd o ddeg pwynt canran o'i gymharu â'n harolygiad yn 2011. Gweithredwyd i sicrhau diogelwch dioddefwyr ym mhob un ond un o'r achosion perthnasol a arolygwyd gennym, a oedd yn sylweddol uwch na'r hyn a gafwyd yn yr arolygiad diwethaf. Roedd gwybodaeth mewn perthynas â'r dioddefwr bron bob amser yn cael ei hadrodd i'r MAPPA mewn modd amserol.

- 5.26 Mewn un achos, nid oedd y swyddog cyswllt dioddefwyr yn cefnogi cariad dioddefwr dynladdiad, gan ddweud ei fod y tu allan i'w gylch gwaith. Rhan o'r rheswm pam y cyfeiriodd y rheolwr troseddwr yr achos at reolaeth amlasiantaethol oedd ysgogi newid yn y sefyllfa honno. Gweithiodd dylanwad MAPPA, a cheisiodd y swyddog cyswllt â dioddefwyr gysylltu trwy weithiwr cyffuriau'r cariad.

ViSOR

- 5.27 Canfu'r arolygwyr fod y rhan fwyaf o heddluoedd yn defnyddio ViSOR yn effeithiol, gyda systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth am droseddwr yn cael ei chofnodi neu ei throsglwyddo yn briodol o systemau TG eraill i ViSOR. Fodd bynnag, o'i gymharu, ychydig o dystiolaeth o gynydd a welwyd yn ansawdd ac amllder y defnydd o ViSOR gan asiantaethau'r Awdurdodau Cyfrifol eraill. Mewn tair rhan o bump o'r achosion a arolygwyd, fe wnaeth yr asiantaethau hynny gofnodi gwybodaeth yn anaml yn y 12 mis blaenorol. Mewn saith o'r rheini, nid oeddent wedi cofnodi unrhyw wybodaeth o gwbl.
- 5.28 Roedd rhai materion yn ymwneud â ViSOR a nodwyd yn adroddiad 2011 wedi'u gweithredu. Yn benodol, cafodd collfarnau troseddwr eu cofnodi ar ViSOR ym mhob un o'r cofnodion a adolygwyd, gyda modus operandi'r troseddwr yn cael ei gofnodi'n eang. Roedd lefel MAPPA gyfredol y troseddwr yn cael ei chofnodi'n glir, hyd yn oed pan oedd wedi newid yn ddiweddar. Fodd bynnag, nid oedd gan un rhan o dair o achosion y troseddwr unrhyw asesiad risg RM2000 wedi'i gofnodi, ac, mewn chwe achos arall, nid oedd yr asesiad wedi cael ei awdurdodi gan oruchwyliwr. Mewn bron i hanner yr achosion perthnasol, roedd lefel y risg a gofnodwyd ar ViSOR yn wahanol i'r lefel yr oedd y troseddwr yn cael ei reoli arni mewn gwirionedd.
- 5.29 Nid oedd gan un heddlu ddigon o derfynfeydd ar gyfer nifer swyddogion yr heddlu oedd eu hangen, ac mewn ardal wahanol, roedd uwchraddio'r TG yn ddiweddar wedi arwain at broblemau a oedd yn anodd eu datrys ac yn gadael swyddogion gydag anawsterau diangen a sylweddol o gael mynediad at y system. Yn yr ail ardal honno, roedd ansawdd ac amllder y cofnodion ViSOR gan yr heddlu yn sylweddol is nag a welsom yn y pum ardal arall.
- 5.30 Yn gyffredinol, roedd defnydd gwael yn cael ei wneud o'r swyddogaethau rheoli achos pwrpasol o fewn ViSOR. Roedd gwybodaeth allweddol yn aml yn cael ei rhoi yn y swyddogaeth log gweithgarwch, a oedd yn amhriodol. Er enghraifft, roedd penderfyniadau datgelu fel arfer yn cael eu gweld o fewn cofnodion y cyfarfod yn hytrach nag yn y rhan berthnasol o'r system. Anaml yr oedd manylion personol, megis arferion gwahaniaethol nodedig a diddordebau rhywiol yn cael eu cofnodi. O ganlyniad, roedd yn fwy anodd dod o hyd i wybodaeth neu nid oedd mor gynhwysfawr ag y dylai fod. Roedd eithriadau.

Enghraifft o Arfer:

Yn Nyfed Powys, roedd swyddogion yr heddlu wedi cofnodi gwybodaeth bersonol

nodedig ac unigryw am y troseddwr, yn ogystal â manylion penodol am euogfarn flaenorol a modus operandi y troseddwr oedd yn dyddio o'r 1990au, cyn ViSOR. Roedd hyn yn arfer da o ystyried fod y troseddwr ar fin cael ei ryddhau a thebygrwydd ei drosedd flaenorol i'w ymddygiad troseddol mwyaf diweddar.

- 5.31 Canfuwyd rhai enghreifftiau o fewnbwn uniongyrchol gan reolwyr troseddwr NPS. Yn aml, roedd gwybodaeth yn ymwneud â'u cyfranogiad yn cael ei chofnodi drwy nodiadau ail-law gan swyddogion yr heddlu neu staff gweinyddol ViSOR yn seiliedig ar wybodaeth a gawsant. Roedd y diffyg ymwneud uniongyrchol hwn yn aml yn gysylltiedig â'r anawsterau parhaus roedd staff NPS yn ei gael wrth fynd i mewn i'r system, darlun tebyg i'r hyn a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol. Canfuom un ardal MAPPA lle roedd yr holl weinyddwyr MAPPA oedd wedi'u hyfforddi wedi cael eu trosglwyddo i'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol (CRC) ym mis Mehefin 2014, pan oedd y rhaniad yng ngwaith y gwasanaeth prawf wedi digwydd. Roedd hyn yn ymddangos yn enghraifft o gynllunio afresymol o ddrwg. Ni fyddai unrhyw un o'r staff hynny bellach yn defnyddio eu sgiliau ViSOR, gan nad yw'r CRC yn rheoli unrhyw achosion MAPPA. Soniodd rhai cydlynwyr MAPPA am ddiffyg terfynellau ViSOR o fewn yr NPS.
- 5.32 Gwelsom brinder o fewnbwn gan y carchar i ViSOR yn yr achosion a arolygwyd gennym, heb lawer o dystiolaeth o garchardai yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o ddiweddarar cofnodion ViSOR. Yn Llundain, gwelsom dystiolaeth o un carchar oedd yn darparu diweddariadau oedd yn cynnwys gwybodaeth ddiogelwch barhaus ar gofnod ViSOR troseddwr. Yn Nyfed Powys, daethom o hyd i gofnodion tebyg ar gofnod troseddwr a wnaed gan gydlynwyr ViSOR dynodedig wedi'i leoli mewn carchar lleol yn yr ardal, rhywbeth na welwyd yn unrhyw le arall yn ystod yr arolygiad. Fodd bynnag, roedd y rhain yn eithriadau i'r rheol. O ystyried statws carchardai fel un o'r tair asiantaeth Awdurdod Cyfrifol ar y cyd, mae hyn yn arbennig o siomedig.
- 5.33 Yn isadran Gogledd-ddwyrain NOMS, cynhaliwyd cynllun peilot yn ddiweddar lle mae adroddiadau cudd-wybodaeth yn cael eu cyflwyno gan staff diogelwch y carchar i mewn i gronfa ddata cudd-wybodaeth diogelwch newydd y carchar sydd wedyn yn cael ei ddadansoddi gan staff mewn canolbwynt cudd-wybodaeth. Yna mae'n cael ei roi yn ViSOR (o fewn y log gweithgarwch a'r atodiadau cudd-wybodaeth), pan fydd y wybodaeth honno yn cael ei hasesu fel gwybodaeth sy'n berthnasol i risg y troseddwr o niwed i eraill neu aildroeddu. Yn aml mae'r wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo mewn amser agos at 'real' oherwydd rôl weithredol a strwythury canolbwynt. Roeddem yn meddwl bod hon yn fenter ddiddorol.
- 5.34 Yn aml, nid oedd y lleoliad carchar terfynol yn cael ei osod fel partner i gofnod ViSOR y troseddwr. Mae canllawiau MAPPA yn datgan *'tra bydd y troseddwr yn y ddalfa, bydd sefydliad y carchar yn gofyn am bartneriaeth gan yr Ymddiriedolaeth Prawf neu'r heddlu ar gyfer troseddwr MAPPA sydd ar ViSOR. Dylai'r heddlu neu'r Ymddiriedolaeth Prawf greu'r Gwasanaeth Carchardai (y sefydliad carchar lle mae'r troseddwr wedi ei leoli) fel partner i'r cofnod ViSOR ym mhob achos. Bydd y Gwasanaeth Carchardai yn sicrhau bod y cofnod yn cael ei ddiweddarar gyda gwybodaeth berthnasol'*. Mewn un rhan o dair o'r achosion perthnasol a arolygwyd, nid oedd y carchar perthnasol wedi'i 'bartneru' â chofnodion ViSOR yr unigolyn.
- 5.35 Nid yw TTIau yn un o asiantaethau Awdurdod Cyfrifol dynodedig MAPPA, ond maent yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o reoli troseddwr MAPPA perthnasol. Er y gwelwyd rhai enghreifftiau o droseddwyr MAPPA dan awdurdodaeth timau YOT lleol yn yr arolygiad, ni wnaethom ddod o hyd i unrhyw dystiolaeth fod y TTI wedi cael unrhyw fewnbwn neu yn wir fynediad i'r system ViSOR. Rydym yn credu y dylid cael

adolygiad o'u mynediad mewn perthynas â ViSOR, efallai drwy eu swyddogion heddlu wedi'u secondio.

- 5.36 Dylai cofnodion o gyfarfodydd MAPPA lefel 2 gael eu cynhyrchu o fewn deg diwrnod gwaith a chyfarfodydd lefel 3 MAPPA o fewn pum diwrnod gwaith. Dylid eu hanfon drwy e-bost diogel i'r derbynnydd perthnasol, a'u storio ar ViSOR. Er bod y cofnodion yn gyffredinol yn cyrraedd yn brydlon, mewn dwy ran o dair o'r achosion a arolygwyd gennym cafodd y cofnodion eu postio yn hwyr i mewn i ViSOR. Roedd perfformiad ar draws yr ardaloedd yr ymwelwyd â hwy yn amrywio'n fawr. Mewn un ardal, dim ond un o'r wyth achos gafodd eu cofnodion wedi eu postio i ViSOR mewn modd amserol; ond yn Swydd Gaerlyr a Rutland cafodd y cofnodion o bob un o'r wyth achos eu postio i ViSOR yn brydlon.
- 5.37 Canfuwyd anghysondebau yn y modd y cafodd manylion am swyddogion yr heddlu a gafodd eu neilltuo'n benodol i reoli troseddwr MAPPA eu cofnodi. Roedd y wybodaeth hon yn amlwg ar ViSOR mewn ychydig dros hanner yr achosion y gwnaethom edrych arnynt. Hefyd, nid oedd manylion goruchwylwyr y swyddogion hynny bob amser wedi'u cofnodi. Rydym yn ystyried hyn yn ddi-fudd ac yn debygol o achosi dryswch i unrhyw ddefnyddwyr y system sy'n ymgyswrtu eu hunain gyda'r achos ei hun a'r pwyntiau cyswllt penodol o fewn pob asiantaeth. Fel y gwelwyd yn flaenorol, mae'r polisi o ran rheoli troseddwr MAPPA gan swyddogion penodol yn amrywio o heddlu i heddlu ac nid oes gan bob troseddwr MAPPA reolwr heddlu penodedig.

Casgliad

- 5.38 Roedd ein canfyddiadau mewn perthynas â chyfarfodydd lefel 2 a 3 yn gadarnhaol ar y cyfan, ac roedd y perfformiad cyffredinol yn well nag yn 2011.
- 5.39 Er mwyn cynorthwyo atebolrwydd, roedd angen i Gadeiryddion fod yn gliriach ynghylch presenoldeb mewn cyfarfodydd. Fodd bynnag, roeddent yn fwy gweithgar wrth ddal asiantaethau /unigolion i gyfrif am eu gweithredoedd nag a welsom yn 2011.
- 5.40 Yn yr arolygiad diwethaf, fe wnaethom sôn am y diffyg RMPau MAPPA integredig sengl. Er bod y RMP o ardaloedd y Pedair Colofn yn well, ac roedd ansawdd y cynlluniau a welsom yn ystod yr arolygiad hwn ar y cyfan wedi gwella o'i gymharu â 2011, roeddem yn dal yn ei chael yn anodd gweld Cynlluniau Rheoli Risg cynhwysfawr a oedd yn cynnwys yr holl gamau angenrheidiol yn llawn. Mae arweiniad MAPPA yn sôn am Gynlluniau Rheoli Risg MAPPA a Chynlluniau Rheoli Risg asiantaethau arweiniol. Nid ydym yn sicr pam y dylai'r cyntaf fod yn wahanol i'r olaf. Mae'r cyfrifoldeb am yr achos yn nwylo'r asiantaeth arweiniol. Mae asiantaethau eraill yn cyfrannu at y Cynllun Rheoli Risg hwnnw. Rydym yn credu y dylai'r troseddwr gael un cynllun yn unig, a dylai cynllun yr asiantaeth arweiniol fod yn gynllun MAPPA ac i'r gwrthwyneb.
- 5.41 Er bod yr heddlu wedi defnyddio ViSOR yn effeithiol, ychydig o gynnydd a fu yn y defnydd o ViSOR gan garchardai a'r NPS ers 2011. Roedd hyn yn siomedig, ac yn negyddu diben ViSOR fel arf allweddol wrth reoli troseddwr a phobl eraill sy'n peri risg o niwed i'r cyhoedd yn effeithiol. Fel system aml-asiantaeth, mae ei effeithiolrwydd yn dibynnu ar ansawdd ac amseroldeb gwybodaeth a chudd-wybodaeth a gofnodir ynddi, ynghyd â chysondeb wrth ddechongli'r data hwnnw.

6. Rheoli risg o niwed: yr asiantaethau

Crynodeb

Mae'r adran hon yn adrodd pa mor dda y gwnaeth asiantaethau o fewn MAPPA gyfrannu at yr asesiad o risg y troseddwr o beri niwed i eraill, a oeddent yn ymgymryd â'r camau gweithredu a ddisgwylid ganddynt yn y cyfarfod, ac a oedd RMP MAPPA cadarn wedi'i sefydlu i reoli'n effeithiol y risg o niwed a gyflwynai'r troseddwr. Rydym yn rhoi sylwadau ar ba mor dda roedd MAPPA wedi ymateb i'r argymhellion perthnasol o'r arolygiad MAPPA gwreiddiol.

- Roedd llawer o Gynlluniau Rheoli Risg asiantaethau arweiniol yn ymgorffori penderfyniadau a chamau gweithredu MAPPA yn anghywir a /neu yn annigonol.
- Roedd staff prawf yn rhannu gwybodaeth berthnasol gydag eraill, ac yn cyflawni camau a nodwyd ar eu cyfer yn y cyfarfod MAPPA.
- Rhoddid blaenoriaeth briodol i ddiogelwch dioddefwyr.
- Roedd staff Safleoedd Cymeradwy a swyddogion cyswllt â dioddefwyr yn gyfranwyr gweithredol i gyfarfodydd MAPPA.
- Roedd swyddogion yr heddlu fel mater o drefn yn cyfnewid gwybodaeth berthnasol am droseddwyr MAPPA, ac yn cyflawni camau a nodwyd ar eu cyfer yn y cyfarfodydd.
- Nid oedd pob heddlu yn nodi a dyrannu rheolwyr troseddwyr i weithio gyda throseddwyr treisgar.
- Roedd yr heddlu yn gyffredinol yn ymweld â throseddwyr yn unol â pholisi lleol, ond anaml yr oedd eu hymweliadau a'r ymweliadau a wnaed gan asiantaethau Dyletswydd i Gydweithredu yn cael eu cynnwys yn RMP MAPPA.
- Mae cyfraniad carchardai at MAPPA yn dda ar y cyfan.
- Roedd Asiantaethau Dyletswydd i Gydweithredu yn cyfrannu'n dda at MAPPA, ond nid oeddent bob amser yn cael eu cynrychioli gan y person cywir.

Timau Troseddau Ieuencid

- 6.1 Fe wnaethom arolygu tri achos oedd yn cael eu goruchwyllo gan TTI. Yn un o'r achosion hynny yr asiantaeth arweiniol oedd yr heddlu, a oedd yn groes i ganllawiau cenedlaethol ond yn unol ag arfer yn yr ardal honno. Rydym yn sylweddoli, gyda chyn lleied o achosion TTI yn cael eu rheoli o fewn lefel 2 a 3 MAPPA, ei bod yn anodd dod i gasgliadau o nifer mor fach o achosion.
- 6.2 Mewn un achos, roedd y swyddog prawf ar secondiad yn y TTI yn gydwybodol o ran yr hyn a wnâi, ond yn rhy oddefol yn y cyfarfod MAPPA a arsylwyd gennym; roedd yn derbyn camau gweithredu gan Gadeirydd y cyfarfod, ac nid oedd yn cymryd rôl arweiniol. Hwn oedd y person oedd â'r cysylltiad mwyaf â'r person ifanc, ac roedd y methiant hwn i ddangos awdurdod yn ymddangos yn amhriodol. Roedd materion atebolrwydd yn aneglur o ganlyniad.

- 6.3 Mewn dau o'r tri achos oedd yn ymwneud â'r TTI, roedd yr atgyfeiriad i MAPPA yn hwyr. Ym mhob un ohonynt, methodd RMPMAPPA ymgorffori'r holl gamau gweithredu amlasiantaeth angenrheidiol oedd eu hangen i reoli'r risg o niwed. Mewn un achos, roedd arwyddion o gam-fanteisio'n rhywiol ar blant, ond nid oedd hyn wedi cael ei gydnabod ac ni weithredwyd arno.
- 6.4 Mewn dau o'r achosion, digwyddodd y cyfathrebu rhwng y TTI ac asiantaethau perthnasol eraill mewn modd amserol ac effeithiol mewn perthynas â materion risg o niwed difrifol. Yn y tri achos, cynhaliodd y TTI yr holl gamau oedd yn ofynnol gan MAPPA ac adroddwyd ar y camau gweithredu hynny. Fe wnaethant roi blaenoriaeth briodol i ddiogelwch dioddefwyr a nodwyd.
- 6.5 Mae Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi newydd gynnal archwiliad i Adolygiadau o Achosion Difrifol mewn Timau Troseddau Ieuentid. Fe wnaethom adolygu 30 o Adroddiadau Dysgu Critigol a gyflwynwyd i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid am ddioglyddiadau difrifol a ddioglyddodd yn ystod 4 mis cyntaf 2014. Ni chafodd un o'r achosion hynny, er ei fod yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer MAPPA, ei nodi cyn i'r digwyddiad difrifol ddioglydd. Mae nodi achosion MAPPA gan TTiau ar adeg dedfrydu yn parhau i fod yn faes i'w wella.
- 6.6 Cyfarfuom â rheolwyr TTI ym mhob un o'r chwe ardal MAPPA yr ymwelwyd â hwy. Roedd rhai rheolwyr yn fwy gwybodus am MAPPA nag eraill, ac, yn yr achosion hynny, roeddent yn gallu mynegi'r manteision a roddir gan MAPPA. Dywedodd un rheolwr y TTI y byddent yn annog eu staff i wneud atgyfeiriad pan oedd ganddynt anhawster wrth ymgysylltu ag asiantaeth benodol. Yn yr ardal MAPPA arbennig honno roedd y broses atgyfeirio yn awtomatig yn golygu bod yr achos yn cael ei drafod mewn cyfarfod lefel 2, gan nad oedd unrhyw sgrinio amlasiantaeth wedi'i gynnal. Mae gennym amheuaeth am yr ymagwedd gyffredinol honno.

Prawf

- 6.7 Roedd RMP cyfredol mewn OASys mewn tri chwarter o'r achosion perthnasol, a oedd yn berfformiad gwaeth na'r tro diwethaf. Roedd yn ymgorffori camau gweithredu a nodwyd yn y cyfarfod MAPPA yn hanner yr achosion, darlun tebyg i 2011. Yn rhy aml, roedd y cynlluniau yn ddiffygiol mewn manylder, ac roeddent, ar adegau, yn anghywir. Er enghraifft, fe wnaethom ddarllen RMP OASys a oedd yn adrodd am amodau digyswllt troseddwr gyda dim ond ychydig o'r bobl nad oeddent i fod i gael cysylltiad â nhw. Gwelsom hefyd ardaloedd gwahardd wedi'u disgrifio yn anghywir, gyda ffurfweddau manwl o fwrdeistrefi neu ardaloedd daearyddol wedi'u disodli yn y RMP gyda rhywbeth gwahanol. Roedd y rhain yn wahaniaethau a allai greu problemau, os oedd gan bawb oedd yn ymwneud â'r achos ddealltwriaeth wahanol o bwy nad oedd y troseddwr i fod i gael cyswllt ag ef neu ffiniau'r parth gwahardd. Fel yn achos y tro diwethaf, anaml iawn y byddem yn gweld gwybodaeth yn cael ei chynnwys yn RMP yr OASys oedd yn ymwneud ag ymweliadau cartref gan yr heddlu neu asiantaethau eraill.

Enghraifft o Arfer:

Yn yr achos hwn roedd y rheolwr troseddwr wedi adolygu'r OASys ar yr adegau priodol, ee wrth ei ryddhau ac ar ôl i'r achos gael ei ddadgofrestru o MAPPA. Fodd bynnag, roeddent yn lleihau risg Matthew o niwed difrifol i ganolig, er nad oedd unrhyw beth yn y dadansoddiad RoSH neu'r RMP i gefnogi'r penderfyniad hwnnw neu i ddangos pam nad oedd MAPPA ar lefel 2 bellach yn angenrheidiol. Methodd yr

RMP gynnwys gwybodaeth am statws HIV Matthew, rôl ei fentor, neu'r gefnogaeth a gafodd gan ei lety â chymorth, ac ni chafodd y wybodaeth hon fyth ei diweddarau.

- 6.8 Roedd rhannu gwybodaeth am droseddwr yn gyffredinol dda pan oedd yn cael ei wneud gan y gwasanaeth prawf i asiantaethau eraill. Mewn 87% o achosion, roeddem yn barnu bod y gwasanaeth prawf wedi cyfathrebu gydag asiantaethau eraill mewn modd amserol ac effeithiol am faterion rheoli risg. Roedd hyn yn gynydd o saith pwynt canran ar 2011. Roedd rheolwyr troseddwr yn Swydd Gaerlyr a Rutland a Dyfed Powys yn cyfathrebu'n effeithiol ym mhob achos.
- 6.9 Canfu ein harolygiad bod rheolwyr troseddwr swyddogion prawf yn teimlo nad oeddent bob amser yn cael eu hysbysu gan asiantaethau eraill am y troseddwr MAPPA yr oeddent yn gweithio gyda hwy. Ond gallai hyn fod am nad oes gan lawer o swyddogion prawf, fel yr ydym wedi dweud mewn manau eraill yn yr adroddiad hwn, fynediad i derfynellau ViSOR. Yn yr achosion hynny lle maent yn cael mynediad i ViSOR, nid yw llawer o swyddogion prawf yn ei ddefnyddio fel teclyn cyfathrebu rheoli risg fel mater o drefn. Mae hwn yn ganfyddiad o'n harolygiad gwreiddiol. Fe wnaeth yr arolygiad hwn ganfod bod tystiolaeth bod rheolwr troseddwr y gwasanaeth prawf yn cyfathrebu ag asiantaethau eraill er mwyn cael y newyddion diweddaraf am y troseddwr MAPPA cyn y cyfarfod nesaf.
- 6.10 Mewn 91% o achosion, roedd camau gweithredu a nodwyd yn MAPPA bob amser neu fel arfer yn cael eu cyflawni gan y rheolwr troseddwr, neu gan eraill oedd yn gweithio ar eu rhan, ac yn adrodd i'r MAPPA mewn modd amserol. Roedd hwn yn ddarlun tebyg i'r hyn a gafwyd yn 2011.
- 6.11 Diddymwyd Ymddiriedolaethau Prawf ym mis Mehefin 2014, a chafodd gwaith ei rannu rhwng yr NPS, sy'n rheoli'r holl achosion MAPPA a'r rhai gyda risg uchel o niwed, a'r CRCs, sy'n rheoli achosion risg o niwed isel a chanolig. O ganlyniad, roedd yr holl achosion y buom ni yn edrych arnynt o fewn yr NPS. Roedd yn golygu bod llai o reolwyr troseddwr yn rheoli nifer fwy o achosion MAPPA yr un nag oedd yr achos yn ôl yn 2011.
- 6.12 Gwelsom yn 2011, mewn 83% o achosion perthnasol, fod rheolwyr troseddwr wedi rhoi blaenoriaeth briodol i ddiogelwch dioddefwyr. Y tro hwn, roedd y ffigur wedi codi i 89%. Cafodd camau gweithredu oedd yn deillio o MAPPA eu cyflawni a'u hadrodd i MAPPA yn amserol mewn bron pob achos, ac mewn canran uwch nag a welsom yn yr arolygiad gwreiddiol.
- 6.13 Roedd ViSOR yn parhau i gael ei danddefnyddio yn yr NPS. Mewn un ardal, roedd cynllun i hyfforddi uwch-swyddogion prawf erbyn diwedd mis Ebrill. Fodd bynnag, dywedodd y rheolwr MAPPA wrthym mai anaml yr oedd rheolwyr troseddwr yn gofyn am edrych ar ViSOR. Ar y cyfan, nid oedd llawer o dystiolaeth bod rheolwr troseddwr yn cael ViSOR yn flaenllaw ar eu meddwl na bod ganddynt wybodaeth am y cyfleuster i gysylltu'r cofnod cyswllt nDelius â ViSOR fel y dengys yr enghraifft ganlynol.

Enghraifft o Arfer

Cyfarfu troseddwr rhyw MAPPA gyda'i reolwr troseddwr y gwasanaeth prawf, a datgelodd ei fod wedi dechrau byw rhan o'i fywyd o dan hunaniaeth fenywaidd newydd. Ni wnaeth y rheolwr troseddwr gyfleu'r wybodaeth hon i'r heddlu na'i chofnodi ar gofnod

ViSOR y troseddwr. Yn fuan wedyn, cynhaliodd swyddogion yr heddlu ymweliad dirybudd â chartref y troseddwr ac roeddent yn synnu wrth ddod o hyd i dystiolaeth o hunaniaeth newydd y troseddwr, gan gynnwys eitemau o ddillad merched. Dylai'r wybodaeth hon fod wedi cael ei rhannu.

- 6.14 Gwelsom dystiolaeth o fwy o ddefnydd o weithgareddau cadarnhaol ac ymyriadau adeiladol yn yr arolygiad hwn. Roedd dwy ardal yn defnyddio Pedair Colofn, ac roedd templed agenda a chofnodion cyfarfodydd yn hoelio sylw pawb oedd yn bresennol ar Oruchwyliaeth; Monitro a Rheoli; Ymyriadau a Thriniaeth; a Chynllunio Diogelwch Ddiodefwyr. Yn bwysig, roedd disgwyliad y dylai'r RMP gynnwys barn y troseddwr am y risg yr oeddent yn ei chyflwyno. Mae hefyd yn gofyn beth fydd llwyddiant i'r troseddwr. Mater i'r rheolwr troseddwr yw darparu'r wybodaeth honno.

Enghraifft o Arfer:

Roedd y troseddwr hwn o Ddyfed Powys yn byw allan o'r ardal, ac roedd ar fin cael ei drosglwyddo. Teithiodd y rheolwr troseddwr i'r ardal newydd am ddau ddiwrnod er mwyn gwneud gwaith troseddau rhywiol merched un-i-un gyda hi mewn perthynas ag addasiad cymdeithasol a chynllunio rheoli risg. Manteisiodd ar y cyfle tra roedd yn yr ardal newydd hefyd i ganfod a gweld llety priodol ar gyfer y wraig hon ar gyfer yr adeg pan fyddai'n symud ymlaen o'r Safle Cymeradwy lle roedd yn byw.

- 6.15 Mae profion polygraff yn offeryn ychwanegol diweddar y gellir eu cynnwys mewn amodau trwydded gyda throseddwr rhyw penodol. Mewn un achos yn Llundain, cafwyd cyswllt ardderchog gyda'r profwr polygraff i sicrhau mai'r pedwar cwestiwn a ofynnid fyddai'n dangos cydymffurfiaeth neu ddiffyg cydymffurfiaeth y troseddwr orau.
- 6.16 Mewn canran yr un mor uchel o achosion ag yn 2011, roedd gan y rheolwr troseddwr neu eraill oedd yn gweithio ar eu rhan lefelau cyswllt gyda'r troseddwr a oedd yn briodol i'r lefel MAPPA yr oedd yr achos yn cael ei reoli arno, a'r risg o niwed a berid gan y troseddwr.
- 6.17 Cafodd y troseddwr yn y rhan fwyaf o'r achosion a arolygwyd eu rhyddhau oddeutu haf 2014, sef pan gafodd yr Ymddiriedolaethau Prawf eu diddymu a phan gafodd eu gwaith ei drosglwyddo i'r NPS neu'r CRCs. Bydd rheolwr canol NPS, felly, wedi bod yn brysur yn delio â materion staffio a dyrannu achosion, yn ogystal â sicrhau bod adroddiadau yn cael eu hysgrifennu ar gyfer y llysoedd. Ond roedd yn siomedig y gallem weld dystiolaeth o wendidau o ran goruchwyllo rheolaeth effeithiol gyda materion risg o niwed mewn tri o bob pump o'r achosion - ffigur tebyg i 2011, er bod y ffigur cyffredinol hwnnw yn cuddio rhai gwahaniaethau rhwng y chwe ardal yr ymwelwyd â hwy.
- 6.18 Gwelsom dystiolaeth ar y cofnod nDelius o reolwr yn cymeradwyo atgyfeiriadau MAPPA, ac yn darparu seiliau rhesymegol da dros wneud hynny. Ond roedd ansawdd gwael llawer o atgyfeiriadau a gydlofnodwyd y buom yn edrych arnynt, gyda gwybodaeth ar goll neu annigonol, yn nodi nad oedd y craffu gan reolwr yn ddigon trylwyr.

Safleoedd Cymeradwy

- 6.19 Defnyddiwyd Safleoedd Cymeradwy mewn tri o bob pump o'r achosion i reoli'r risg o niwed a gyflwynai'r troseddwr i eraill.
- 6.20 Roedd staff a rheolwyr Safleoedd Cymeradwy yn chwarae rôl allweddol mewn cyfarfodydd MAPPA, gan fynychu a chyfrannu mewn 86% o'r achosion y gwnaethom edrych arnynt a oedd ychydig yn uwch nag yn yr arolygiad diwethaf. Ym mhob un ond un o'r achosion a arolygwyd gennym, cafodd camau gweithredu oedd yn ofynnol gan y Safleoedd Cymeradwy i reoli risg o niwed eu cynnal a'u hadrodd i MAPPA mewn modd amserol.
- 6.21 Roedd Safleoedd Cymeradwy yn cyflawni rôl amhrisiadwy o ran cynnig gwylidwriaeth a chyfyngiad ychwanegol. Weithiau, oni bai am ddarparu lle mewn Safle Cymeradwy, efallai na fyddai'r troseddwr wedi cael ei ryddhau. Mewn rhai achosion, gwelsom MAPPA yn gwneud, a derbyn, cyllid ychwanegol gan NOMS ar gyfer gwarchodaeth ychwanegol mewn Safle Cymeradwy ar gyfer troseddwr a oedd yn cael ei reoli ar lefel 3 ac wedi'i gofrestru fel Achos Diogelu'r Cyhoedd Critigol (CPPC).
- 6.22 Gwelsom enghreifftiau o Safleoedd Cymeradwy yn mynd tu hwnt i'r hyn y gellid yn rhesymol fod wedi ei ddisgwyl ganddynt. Yn Hampshire, derbyniodd rheolwyr mewn Safle Cymeradwy droseddwr rhyw oeddrannus gyda dementia fasgwlaidd pan ryddhawyd ef o'r ysbyty lleol cyn i leoliad mwy addas gael ei ganfod. Cymerodd y Safle Cymeradwy ef yn ôl, a darparu gwasanaeth gofal i bob pwrpas, nad oeddent wedi eu hyfforddi i'w roi. Cafodd y troseddwr hwn ei symud i leoliad gofal preswyl priodol wedi i'r gwasanaethau cymdeithasol i oedolion gwblhau asesiad priodol ohono.

Cyswllt â Dioddefwyr

- 6.23 Mewn 73% o achosion perthnasol, mynychodd swyddogion cyswllt â dioddefwyr o'r gwasanaeth prawf gyfarfodydd MAPPA lle roeddent yn ymwneud yn weithredol â'r dioddefwr neu lle'r oedd problemau gyda'r dioddefwyr a oedd angen sylw penodol. Roedd hyn yn gynydd o ddeg pwynt canran ar yr arolygiad diwethaf. Ym mhob un ond un o'r achosion perthnasol a arolygwyd gennym, cafodd camau gweithredu yn codi o MAPPA mewn perthynas â'r dioddefwr eu cyflawni. Ym mhob un ond dau o'r achosion, roedd adrodd i'r MAPPA am y gweithredoedd hynny yn amserol.
- 6.24 Mewn un achos, ni fu unrhyw gyfraniad gan y swyddog cyswllt â dioddefwyr gyda 'y *dioddefwr heb fod o'r ardal leol*' yn cael ei nodi fel y rheswm. Nid oedd digon o wybodaeth am y dioddefwr i ddeall a oedd hyn yn berthnasol, neu a ddylai swyddog cyswllt â dioddefwyr o ardal arall fod wedi cymryd rhan. Yn yr achos hwnnw, nid oedd yn glir pwy oedd yn cefnogi'r dioddefwr.

Heddlu

- 6.25 Mewn 94% o achosion, cyflawnodd yr heddlu gamau gweithredu gofynnol yn codi o MAPPA. Yn yr un ganran o achosion, cadarnhaodd yr heddlu wrth MAPPA y camau gweithredu a oedd wedi'u cyflawni. Roedd y rhain yn ffigurau tebyg i rai 2011.

Enghraifft o Arfer:

Ym Manceinion Fwyaf, gosododd yr heddlu larwm cartref yng nghartref dioddefwr blaenorol y tramgwyddwr trais yn y cartref hwn, a oedd yn gyn bartner y troseddwr ac yn fam ei blentyn. Yn ogystal, fe wnaethant weithredu mesurau diogelu ar gyfer tri chynbartner drwy orchmynion atal a datgeliadau gwybodaeth ar y cyd â'u swyddogion Uned Trais yn y Cartref. Ar ôl ei ryddhau, aeth y troseddwr yn ei flaen i gyflawni ymosodiad trais yn y cartref ar 'bartner' a oedd yn anhysbys tan hynny i'r asiantaethau. Ar ôl dianc o'r lleoliad, cafodd y troseddwr ei arestio yn nhŷ ei gynbartner ar ôl i'r heddlu fod wedi gweithio gyda hi i drefnu hynny. Roedd hyn yn dangos gwaith ymchwiliol da, oedd yn cyfyngu ar gyfleoedd y troseddwr o gyflawni troseddau pellach ac a arweiniodd at erlyniad llwyddiannus am y drosedd yr oedd wedi'i chyflawni.

- 6.26 Roedd ymweliadau â Throseddwr RSOs a throseddwr treisgar yn cydymffurfio â pholisi'r heddlu, ac yn briodol ar gyfer rheoli'r achos yn ddigonol mewn 90% ac 86% o'r achosion yn y drefn honno; yn debyg i 2011. Anaml yr oedd trefniadau ymweld yn cael eu cynnwys yn RMP MAPPA.
- 6.27 Yn y rhan fwyaf o achosion, nid oedd manylion yr ymweliadau yn cael eu cofnodi gan yr heddlu yn atodiad 'ymweliadau' ViSOR. Ond mewn un achos yn Llundain roedd yr atodiad ymweliadau a'r tab 'ymweliadau' o fewn atodiad y 'Cynllun Rheoli Risg' wedi cael ei ddiweddarau i gofnodi manylion yr ymweliadau a wnaed â'r troseddwr. Roedd hyn yn cynnwys ymweliadau ar y cyd gan yr heddlu/gwasanaeth prawf ynswyddfeydd NPS ac ymweliadau dirybudd gan yr heddlu i weld y troseddwr yn y Safle Cymeradwy lle'r oedd yn byw.
- 6.28 Roedd amserlenni ymweliadau oedd yn ymddangos yn gyraeddadwy gan swyddogion yr heddlu at droseddwr rhyw yn fwy anodd i'w rheoli yn yr ardaloedd mwy gwledig oherwydd yr amseroedd teithio hwy oedd eu hangen i'w cwblhau. Gwnaeth un swyddog 5 ymdrech aflwyddiannus i wneud un ymweliad dirybudd i weld troseddwr a oedd yn byw 90 munud o amser teithio i ffwrdd.
- 6.29 Roedd llwyth achosion swyddogion yr heddlu oedd yn gweithio gyda throseddwr MAPPA yn gyffredinol yn unol â chanfyddiadau arolygiad 2010 o'r enw *Joint Inspection on Management of Sexual Offenders in the Community - Restriction and Rehabilitation: Getting the Right Mix*. Fodd bynnag, mewn un ardal roedd llwyth achosion yn sylweddol uwch ac, yn ein barn ni, yn annerbyniol. Yn yr ardal honno, nid oedd y drefn ymweld yn cyd-fynd â chanllawiau cenedlaethol.
- 6.30 Ar adeg yr arolygiad, roedd symudiad cenedlaethol tuag at gyflwyno System Rheoli Risg Weithredol (ARMS), proses asesu strwythuredig i asesu ffactorau risg dynamig y gwyddys eu bod yn gysylltiedig ag aildroseddu rhywiol, a ffactorau amddiffynnol y gwyddys sy'n gysylltiedig â llai o droseddu. Yn Awst 2015, roedd 850 o swyddogion heddlu a staff wedi cael eu hyfforddi ac roedd yr NPS yn y broses o hyfforddi hyfforddwyr i gyflwyno ARMS i staff y gwasanaeth prawf er mwyn i bob troseddwr categori 1 gael yr un asesiad risg a chynlluniau rheoli. Yr amcan yw rhoi gwybodaeth i'r heddlu a'r gwasanaeth prawf i gynllunio'r gwaith o reoli troseddwr rhyw a gollfarnwyd yn y gymuned. Bydd gofynion dechreuol o ran adnoddau i ailasesu'r holl droseddwr rhyw sy'n bodoli eisoes yn uchel, ond unwaith y byddant wedi'u cyflwyno bwriedir iddynt gynhyrchu rhestr gyffredinol o ymweliadau a fydd yn fwy priodol.

- 6.31 Rhannwyd gwybodaeth gan yr heddlu i MAPPA mewn 98% o achosion, yr un ffigur ag yn 2011. Fe wnaethon ni arolygu achos un troseddwr a reolwyd fel troseddwr Terfysgaeth a Gwrthderfysgaeth (TACT). Roedd gwaith MAPPA yn cael ei nodweddu gan atgyfeirio amserol, cyfnewid gwybodaeth yn ardderchog ac asesu a rheoli risg effeithiol. Roedd y wybodaeth a gafwyd o'r carchar yn dda, a defnyddiwyd y Safle Cymeradwy yn briodol ar ôl rhyddhau'r troseddwr am y tro cyntaf. Roedd ystod eang o fesurau cyfyngol yn rhoi sicrwydd ynghylch ei ymddygiad, a datgeliadau yn cael eu rhoi i'r Mosgiau a fynychai unwaith yr oedd yr uned gwrthderfysgaeth wedi eu cymeradwyo. Cafodd ei asesu gan ddefnyddio'r canllaw risg eithafiaeth, a bu'n cymryd rhan yn y carchar ac ar ôl ei ryddhau â'r *'Ymyriad Hunaniaeth Iach'*, rhaglen ddwys a gynlluniwyd ar gyfer eithafwyr ac a gyflwynir gan seicolegydd. Darparwyd mentor iddo gan yr Uned Eithafiaeth Ganolog. Caniatawyd iddo adael y Safle Cymeradwy bob yn dipyn ac wedi ei fonitro, yn dilyn asesiad gan y gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas ag unrhyw risgiau posibl i'w blant. Fe wnaethom gyfsweld y troseddwr. Dywedodd wrthym ei fod yn deall yr hyn roedd 'bod ar MAPPA' yn ei olygu. Roedd yn gwybod pryd roedd y cyfarfodydd i gael eu cynnal, beth oedd ei gynllun ac a oedd unrhyw newidiadau iddo. Dywedodd fod trefniadau adrodd yn ymateb i'w anghenion amrywiaeth.
- 6.32 Roedd hwn yn achos llwyddiannus ac yn un a oedd yn cael ei reoli'n dda, ac roedd y troseddwr yn cydymffurfio'n llawn. Fodd bynnag, roedd gennym rai pryderon nad oedd MAPPA yn deall ei holl risgiau gan nad oedd yr uned gwrthderfysgaeth yn mynychu cyfarfodydd MAPPA yn rheolaidd nac yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf. Nid oeddem yn gallu gweld rhai o'r cofnodion neu wybodaeth arall mewn perthynas â'r troseddwr hwn oherwydd y dosbarthiad diogelwch. Mae canllawiau ar weithio gyda therfysgwyr ac eithafwyr domestig yn gynhwysfawr, ac efallai y byddai'r broblem y daethom ar ei thraws yn yr achos hwn wedi cael ei datrys pe gofynnid am gyngor yn brydlon gan y swyddog arbenigol o fewn OMPPG. Nid yw'n fuddiol i MAPPA fod yn cyfrannu'n weithredol at reoli achos os, am resymau diogelwch, nad yw'n cael ei hysbysu'n llawn am yr holl risgiau.
- 6.33 Yn y rhan fwyaf o achosion, cymerodd yr heddlu yr holl gamau rhesymol i leihau'r risg o niwed i eraill a gyflwynid gan y troseddwr.

Enghraifft o Arfer:

Cafwyd Ray yn euog yn dilyn pwl o droeddau cynyddol lle byddai'n mynd at ferched nad oedd yn eu hadnabod a gwneud awgrymiadau anwedus, sarhaus ac anllad. Yn fwy diweddar, roedd wedi cyflawni ymosodiadau ar ferched. Roedd yr heddlu a'r gwasanaeth prawf yn Ealing yn rheoli'r achos hwn yn dda. Gosodwyd amodau trwydded tynn pan gafodd ei ryddhau i'r Safle Cymeradwy. Pan symudodd Ray yn ôl i'w gyfeiriad ei hun gyda'i bartner, bu'r heddlu yn cynnal gwyliadwriaeth arno trwy gamera (a gofnododd ei fynd a dod o gyfeiriad y cartref) a goruchwyliaeth tridiau ar droed ar ôl sylweddoli ei fod yn absennol o'r cartref am gyfnodau yn ystod y dydd. Ni welwyd unrhyw ymddygiad oedd yn peri pryder. Roedd yn ymgysylltu'n dda a chafodd ei israddio i MAPPA lefel 1. Ar ddiwedd y ddedfryd, ymgysylltodd yn wirfoddol â'r Rhaglen Trin Troseddwyr Rhyw.

- 6.34 Gwnaethom gyfsweld rheolwyr troseddwr yr heddlu ym mhob achos lle roedd un wedi cael ei ddyrannu. Fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn (paragraff 5.5), mewn un neu ddwy o ardaloedd ni chafodd rheolwyr troseddwr eu nodi na'u dyrannu i weithio gyda throseddwr treisgar. Wrth gydnabod problemau gyda llwyth

gwaith, rydym yn credu bod diffyg rheolwr troseddwy'r heddlu a enwir yn achos a allai greu dryswch a diffyg atebolrwydd. Roedd cofnodion ViSOR ar gyfer y troseddwy'r hynny yn aml yn methu â rhoi arwyddion clir ynghylch y pwyntiau cyswllt perthnasol ar gyfer yr achos. Gallai hyn achosi anawsterau i staff mewn asiantaethau Awdurdodau Cyfrifol eraill o ran deall pwy i gysylltu â nhw.

- 6.35 Roedd rhai o'r lluoedd y gwnaethon ni eu harolygu wedi cydnabod bod gan y timau IOM y gallu i reoli carfan oedd yn cynnwys troseddwy'r treisgar ac roeddent yn gallu darparu rheolaeth ar gyfer rhai troseddwy'r categori 2 a 3 MAPPA. Roedd Heddlu Manceinion Fwyaf wedi cyflwyno'r pecyn i bob un o'i swyddogion IOM i gydnabod y dull gwahanol sy'n ofynnol ar gyfer rheoli'r grŵp hwn. Nid oedd heddluoedd eraill yr ymwelwyd â hwy wedi ystyried unrhyw ddefnydd o'r fath o'u IOMs ar gyfer rheoli troseddwy'r treisgar. Yn ein barn ni roedd hyn yn syndod o gofio'r gofynion cynyddol a roddir ar heddluoedd wrth reoli nifer cynyddol o Droseddwy'r Rhyw Cofrestredig.
- 6.36 Dywedodd y rhan fwyaf o reolwyr troseddwy'r heddlu eu bod wedi derbyn hyfforddiant mewn perthynas â gwaith gyda throseddwy'r MAPPA a'u bod wedi'u hyfforddi'n ddigon da. Dywedodd pedwar o bob pump bod ganddynt sgiliau digonol wrth ddefnyddio ViSOR. Dywedodd pob un o reolwyr troseddwy'r heddlu a gyfwelwyd gennym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac yn derbyn digon o oruchwyliaeth gan reolwyr.
- 6.37 Roeddem yn disgwyl canfod bod pob rheolwr troseddwy'r heddlu wedi dilyn y cwrs hyfforddi MOSAVO, y gofyniad arferol ar gyfer y rôl arbenigol hon. Yn wir, mewn un lluoedd yr holl swyddogion oedd yn gweithio gyda throseddwy'r MAPPA wedi derbyn yr hyfforddiant hwn. Mewn manau eraill, roedd tystiolaeth o'i gyflwyno i swyddogion yn fwy achlysurol gyda rhai swyddogion hyfforddedig yn gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr heb eu hyfforddi. Yn gyffredinol, canfuom fod rheolwyr troseddwy'r heddlu mwyaf ymroddedig yn swyddogion profiadol neu yn dditectifs hyfforddedig, ac wedi cwblhau'r hyn sy'n cyfateb i'r cwrs MOSAVO.
- 6.38 Ym Manceinion Fwyaf, roedd rheolwyr troseddwy'r yn cael eu recriwtio yn allanol i'r Uned Rheoli Troseddwy'r Rhyw (SOMU), ond roedd yr holl swyddogion y siaradwyd â hwy wedi derbyn yr hyfforddiant MOSAVO o fewn yr ychydig fisoedd cyntaf o gychwyn yn eu swydd. Fe wnaethant dderbyn cyrsiau hyfforddiant cynefino eraill hefyd, roeddent yn cael cyfleoedd i gysgodi swyddogion mwy profiadol a chwblhau Cynllun Datblygu Personol penodol a oedd yn cael ei drafod yn rheolaidd gyda rheolwyr llinell. Roeddem yn meddwl bod y rhaglen cynefino a'r hyfforddiant a ddarperid yn dystiolaeth o arfer da.

Carchar

- 6.39 Mae'n ofynnol i garchardai roi gwybod i'r rheolwr troseddwy'r am ddyddiad rhyddhau neu ddyddiad cymhwyster am barôl y troseddwy'r wyth mis cyn eu rhyddhau. Dylai rheolwyr troseddwy'r gyfeirio achosion perthnasol at MAPPA chwe mis cyn rhyddhau. Canfuom fod atgyfeiriad amserol yn cael ei wneud mewn dwy ran o dair o'r achosion.
- 6.40 Cyfrannodd carchardai yn weithredol at gyfarfodydd MAPPA yn y rhan fwyaf o achosion, naill ai trwy fynychu'r cyfarfodydd neu drwy ddarparu adroddiadau ysgrifenedig. Gwelsom ddefnydd da yn cael ei wneud o MAPPA FS (y ffurflenni a gyflwynir gan y carchar i MAPPA sy'n rhannu gwybodaeth am y troseddwr). Ond mewn nifer o achosion roedd y wybodaeth honno yn cael ei chopio a'i gludo o gronfa ddata'r carchar yn syth i mewn i'r MAPPA F ac yna i'r cofnodion MAPPA, heb ystyried ei pherthnasedd. Nid oedd gwybodaeth o'r cyfarfod bob amser yn cael ei adolygu yn

ddigonol yn y cofnodion, ac roedd hen wybodaeth yn aros oedd yn ei gwneud yn anodd gweld pa mor gyfredol neu berthnasol oedd y wybodaeth.

- 6.41 Fe wnaeth carchardai gyflawni'r camau a osodwyd iddynt mewn 85% o'r achosion lle roedd angen hynny, ac mewn canran uwch dywedasant wrth MAPPA ac asiantaethau eraill yr hyn yr oeddent wedi'i wneud. Roedd y rhain yn llawer gwell canfyddiadau mewn perthynas â Charchardai nag yn 2011. Mewn rhai ardaloedd yr ymwelwyd â hwy, nid oedd y carchardai yn weladwy ym mhob achos, hyd yn oed pan allent fod wedi bod â chyfraniad i'w wneud.
- 6.42 Roedd cyfraniad y carchardai at MAPPA Swydd Gaerlyr a Rutland yn arbennig o weithgar. Roeddent yn cymryd rhan ym mhob un o'r wyth achos, a gwnaethant bopeth oedd yn ofynnol ganddynt, fel mae'r enghraifft o arfer yn dangos.

Enghraifft o Arfer:

Roedd David yn droseddwr treisgar o Swydd Gaerlyr, yn treulio dedfryd o bedair blynedd. Cyn ei ryddhau, gofynnodd MAPPA i'r carchar ystyried y troseddwr mewn cyfarfod Tim Rheoli Risg Mewnol, a sicrhau bod staff y carchar yn monitro ei risgiau. Yn benodol, gofynnodd MAPPA i'r carchar nodi unrhyw gysylltiad rhwng David a'i gynbartner a oedd yn ddioddefwr posibl. Gofynnodd MAPPA hefyd i'r carchar drefnu i drosglwyddo David i garchar yn agosach at ei gartref cyn ei ryddhau.

Cyflawnodd y carchar yr holl gamau gweithredu uchod a rhoddodd adroddiad i MAPPA mewn modd amserol.

- 6.43 Gwelsom dystiolaeth o rywfaint o gydweithio da rhwng yr heddlu a'r carchardai o fewn MAPPA fel mae'r achos isod yn dangos.

Enghraifft o Arfer:

Roedd y Llundeiniwr hwn yn y ddalfa am dorri ei SOPO. Roedd wedi bod â ffordd o fyw guddiedig gyda menyw a oedd â phedwar o blant. Ni chafodd maint llygreddigaeth ei droseddu blaenorol yn erbyn plant ei wneud yn glir yng nghofnodion y cyfarfodydd MAPPA, ond byddai'n ddefnyddiol pe baent wedi cael eu rhannu fel dangosydd o'r risgiau difrifol yr oedd Brian yn eu peri i blant ac i'r fenyw oedd agored i niwed yr oedd mewn perthynas â hi. Yn ystod ei ddedfryd o garchar, rhannodd y carchar wybodaeth am eu pryderon fod Brian wedi bod yn siarad gyda phlant ei bartner ar y ffôn o'r carchar, er bod hyn yn torri ei SOPO. Aeth y swyddog o Heddlu'r Metropolitan, a oedd yn rheoli cyfranogiad yr heddlu yn yr achos, mewn cydweithrediad agos gyda swyddogion o Heddlu Avon a Gwlad yr Haf, drwy oriau o alwadau ffôn a recordiwyd o'r carchar i ganfod tair galwad ffôn oedd yn profi ei fod wedi torri ei SOPO. Daethpwyd o hyd i rywfaint o wybodaeth oedd yn peri pryder, ac a arweiniodd at bryderon fod partner Brian wedi bod yn ymwneud â throseddau rhyw yn erbyn plant (er bod llawer o'r galwadau mewn iaith wedi'i chodio a fu'n anodd ei dehongli). Cafodd Brian a'i bartner eu harestio a chafodd cell Brian ei chwilio, ac yno darganfuwyd ffotograffau nad oedd ganddo ganiatâd i fod â nhw. Cafodd cyswllt rhwng Brian a'r wraig ei rwystro, ac yn ddiweddarach symudodd hi o gartref y teulu i dŷ diogel.

Asiantaethau Dyletswydd i Gydweithredu

- 6.44 Mae gan nifer o asiantaethau Ddyletswydd i Gydweithredu gyda MAPPA, fel y nodir ym mharagraff 2.3 yr adroddiad hwn.
- 6.45 Roedd asiantaethau Dyletswydd i Gydweithredu wedi nodi, neu roeddent yn y broses o adnabod pwyntiau cyswllt unigol a oedd yn ymddangos yn hanfodol i gael y bobl iawn o amgylch y bwrdd a fyddai'n gallu cymryd camau pendant lle roedd angen hynny. Yn gyffredinol, roedd gwahaniaethu clir a phriodol am lefelau'r staff oedd yn cynrychioli'r asiantaethau yn y cyfarfodydd lefel 2 neu 3. Dywedodd un cynrychiolydd Dyletswydd i Gydweithredu ar lefel 2, efallai mai'r cyfraniad fyddai *'gallai gael gwely'*, tra ar lefel 3 yr ymateb oedd *'bydd yn cael gwely a dyma lle'*.

Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Awdurdodau Lleol

- 6.46 Roedd gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cael eu cynrychioli mewn cyfarfodydd MAPPA mewn 36 o'r 39 achos lle roeddem yn credu y dylent fod. Mewn 89% o achosion perthnasol, roedd gwasanaethau gofal cymdeithasol yn rhannu gwybodaeth am y troseddwr gydag MAPPA.
- 6.47 Nid oedd cynrychiolaeth mewn cyfarfodydd MAPPA bob amser gan y rhan mwyaf priodol o'r gwasanaethau gofal cymdeithasol, neu, weithiau gan yr adran gwasanaethau cymdeithasol oedd wedi'i lleoli'n iawn yn ddaearyddol. Weithiau, gwelsom bresenoldeb y gwasanaethau gofal i oedolion, pan fyddai gwasanaethau plant wedi bod yn fwy priodol, ac i'r gwrthwyneb. Ar adegau eraill, gwelsom gynrychiolydd o'r adran gwasanaethau gofal cymdeithasol anghywir yn bresennol. Credwn fod hyn yn rhannol i wneud â'r diffyg manylder a ddarperir gan y person sy'n gwneud yr atgyfeiriad cychwynnol. Gwelsom dermau fel 'gwasanaethau cymdeithasol' fel yr asiantaeth i gael ei gwahodd, pan yr hyn oedd ei angen oedd gwybodaeth lawnach gyda pherson a enwid yn cael ei nodi ynghyd â manylion am eu cyflogwr, rôl a manylion cyswllt. Gyda'r ewyllys gorau yn y byd, nid yw'n realistig disgwyl i swyddfa MAPPA allu targedu'r gwahoddiadau yn briodol os nad yw rheolwr y troseddwr yn eu rhoi.
- 6.48 Mewn rhai achosion, bu oedi wrth rannu'r wybodaeth neu wrth gwblhau gweithredoedd. Gwelsom enghreifftiau lle roedd Cadeiryddion MAPPA yn rhagweithiol wrth geisio hwyluso materion. Gwelsom ychydig o achosion lle roedd ardal gartref y gwasanaethau cymdeithasol yn cyfrannu'n briodol at y MAPPA, ond bod adran gwasanaethau cymdeithasol y tu allan i'r ardal, a oedd yn gysylltiedig efallai oherwydd materion dioddefwyr neu mewn perthynas â symudiad posibl y troseddwr i ardal newydd, yn anodd ymgysylltu â hi. Roedd hyn weithiau yn cael effaith andwyol ar, er enghraifft, gynllunio cyfnod cyn rhyddhau'r troseddwr.
- 6.49 Mewn 71% o'r achosion lle'r oedd angen hynny, gwnaeth y gwasanaethau gofal cymdeithasol gyfraniad gweithredol priodol at y cyfarfod MAPPA.

Enghraifft o Arfer:

Roedd y troseddwr hwn o Hampshire mewn cysylltiad â theulu cyfnither nad oedd wedi ei chynnwys yn amodau'r drwydded a oedd yn nodi'r rhai hynny nad oedd caniatâd iddo fod â chyswllt â hwy. Ond roedd y rheolwr troseddwr wedi asesu'r troseddwr fel un oedd yn cynrychioli risg uchel o niwed difrifol i deulu'r gyfnither, gan gynnwys merch fach. Roedd hyn yn bryder i MAPPA. Gofynnwyd i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant gynnal asesiad rhianta amddiffynnol gyda rhieni'r baban. Gwnaethant yr asesiad,

ac yn dilyn hynny hysbyswyd MAPPA fod y rhieni yn gallu amddiffyn y babi.

- 6.50 Mewn dros bedair rhan o bump o'r achosion lle'r oedd cyfarfod MAPPA yn gofyn iddynt wneud rhywbeth, fe wnaeth y gwasanaethau gofal cymdeithasol hynny ac adrodd ynghylch yr hyn roeddent wedi ei wneud.
- 6.51 Mewn achos yn Nyfed Powys, cynhaliodd gwasanaethau gofal cymdeithasol ymweliad cartref i asesu'r risgiau i wraig y troseddwr treisgar a phlant ifanc ac fe wnaethant roi adborth defnyddiol i'r cyfarfodydd MAPPA a ddilynodd hynny.
- 6.52 Mewn achos yn Hampshire, cynhaliodd y gwasanaethau gofal oedolion asesiad ar droseddwr gyda dementia pan fethodd yr adran iechyd meddwl wneud y gwaith. Yna, fe wnaethant ddod o hyd i leoliad gofal preswyl i'r troseddwr. Fe wnaethant hefyd hysbysu MAPPA.

Ymddiriedolaethau /Awdurdodau Iechyd

- 6.53 Cafodd ymddiriedolaethau/ awdurdodau iechyd eu cynrychioli mewn cyfarfodydd MAPPA mewn 34 o'r 38 achos lle roeddem yn credu y dylent fod. Mewn 79% o achosion perthnasol, fe wnaethant rannu gwybodaeth am y troseddwr gydag MAPPA. Fe wnaethom ganfod gwell perfformiad mewn perthynas ag iechyd nag a welsom yn 2011.
- 6.54 Ni wnaethom arolygu unrhyw achosion lle'r oedd iechyd meddwl yn asiantaeth arweiniol. Yn yr arolygiad diwethaf, ni welsom bresenoldeb Meddygon Teulu (GP) mewn unrhyw achos; y tro hwn gwelsom ddarlun tebyg ond yr oedd meddyg teulu yn bresennol mewn perthynas ag un o'r achosion yn Swydd Gaerlyr a Rutland. Dywedodd un cydlynnydd wrthym eu bod yn aml yn derbyn llythyr 'ddim yn dod' gan feddygon teulu sy'n dweud nad ydynt yn fodlon rhannu gwybodaeth. Roedd Swydd Gaerlyr a Rutland wedi cynhyrchu DVD yr oeddent wedi ei roi i feddygon teulu ac eraill am waith MAPPA, a sut y mae'r gwahanol asiantaethau yn cyfrannu.
- 6.55 Mewn 73% o'r achosion lle'r oedd angen hynny, roedd ymddiriedolaethau /awdurdodau iechyd yn gwneud cyfraniad gweithredol priodol i'r cyfarfod MAPPA. Ond mewn un ardal, methodd seiciatrydd ymgynghorol cymunedol oedd yn arbennig o anfonlon helpu fynyachu cyfarfodydd MAPPA mewn perthynas â dau droseddwr. Ni wnaeth y meddyg ymgynghorol rannu gwybodaeth berthnasol am y troseddwr na gwneud yr hyn y gofynnwyd iddo ei wneud gan y cyfarfod. Canfu MAPPA ddulliau adeiladol i ddatrys y materion yn y ddau achos, ond gallai fod wedi cyfeirio'r problemau at awdurdod uwch yn gynharach.
- 6.56 Pan ofynnwyd i'r adran iechyd wneud rhywbeth gan MAPPA, roedd yn ei wneud mewn 73% o'r achosion. Mewn achos yn Llundain, chwaraeodd iechyd meddwl rôl allweddol wrth reoli'r risgiau. Mynychodd ymgynghorydd y cyfarfodydd. Gan gydnabod natur wirfoddol y ddarpariaeth iechyd meddwl, sicrhodd bod yr asiantaethau eraill yn deall y cyfyngiadau. Ymgysylltodd yr ymgynghorydd yn llawn â MAPPA er mwyn sicrhau bod amodau trwydded priodol ar waith a bod atgyfeiriad y troseddwr am driniaeth yn cael ei flaenoriaethu a'i ddechrau cyn diwedd y ddedfryd.
- 6.57 Dywedodd ymddiriedolaethau /awdurdodau iechyd wrth MAPPA yr hyn yr oeddent wedi ei wneud mewn 74% o'r achosion.

Awdurdodau Tai Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig

- 6.58 Cynrychiolid Awdurdodau Tai yng nghyfarfodydd MAPPA mewn 22 o'r 26 o achosion lle roeddem yn credu y dylent fod ynddynt. Mewn 95% o achosion perthnasol, roeddent yn rhannu gwybodaeth am y troseddwr gydag MAPPA.
- 6.59 Mewn 84% o'r achosion lle'r oedd angen, gwnaeth awdurdodau tai gyfraniad gweithredol priodol at gyfarfod MAPPA.
- 6.60 Lle gofynnwyd iddynt wneud rhywbeth gan MAPPA, fe wnaethant hynny mewn 82% o'r achosion.
- 6.61 Dywedodd awdurdodau tai wrth MAPPA yr hyn yr oeddent wedi ei wneud mewn 88% o'r achosion.
- 6.62 Cynrychiolid landlordiaid cymdeithasol cofrestredig mewn cyfarfodydd MAPPA mewn pedwar o'r achosion a arolygwyd gennym, er ein bod yn credu y gallent fod wedi cael eu cynrychioli mewn pedwar arall. Ym mhob un o'r achosion lle roeddent yn cael eu cynrychioli, roeddent yn rhannu gwybodaeth berthnasol am y troseddwr gyda MAPPA, yn gwneud cyfraniad gweithredol priodol at gyfarfodydd, yn cyflawni camau gofynnol, ac yn dweud wrth MAPPA yr hyn yr oeddent wedi'i wneud.
- 6.63 Llety i symud ymlaen iddo ar gyfer troseddwr o'r carchar neu Safle Cymeradwy yn aml oedd un o'r materion mwyaf dyrys i MAPPA ei ddatrys, ac nid oedd hynny yn cael ei helpu gan farn rhai fod unigolyn wedi gwneud ei hun yn ddigartref yn fwriadol trwy gyflawni trosedd.
- 6.64 Roedd Swyddfa Weithredol MAPPA Llundain a thim Jig-so Canolog Heddlu'r Metropolitan (Gwarchod y Cyhoedd) wedi datblygu protocol ar gyfer troseddwr MAPPA a throseddwr sy'n dychwelyd o dramor gyda'r awdurdodau tai lleol ar draws y Ddinas. Roedd hyn yn darparu ystod o fesurau ar gyfer troseddwr lefel 2 a 3 er mwyn diogelu'r cyhoedd, amddiffyn dioddefwyr posibl yn y dyfodol a chaniatáu iddynt gael eu hailsefydlu yn ôl i'r gymuned. Ar gyfer troseddwr a oedd wedi bwrw dedfryd gymwys ar gyfer MAPPA dramor, roedd cytundeb a oedd yn caniatáu i'r tim Jig-so ddosbarthu troseddwr oedd yn dychwelyd i fwrdeistrefi ar sail rota gyda'r disgwyliad y byddai'r fwrdeistref y dyrannwyd y troseddwr iddi yn sicrhau llety priodol o fewn yr ardal honno.

Enghraifft o Arfer:

Mae awdurdod lleol mewn un ardal a arolygwyd gennym yn darparu tair fflat 'MAPPA' i'w defnyddio gan droseddwr MAPPA ar sail angen yn unig. Mae'r rhain wedi'u lleoli mewn gwahanol rannau o'r ddinas ac yn cynnig cam cyntaf ar gyfer troseddwr MAPPA a allai fel arall fod yn ddigartref ac, felly, yn fwy tebygol o ailddosoddu. Cafodd un o'r troseddwr y gwnaethom arolygu ei achos lety yn un o'r fflatiau.

Asiantaethau Dyletswydd i Gydweithio eraill

- 6.65 Mae asiantaethau Dyletswydd i Gydweithredu eraill yn cynnwys y Ganolfan Byd Gwaith, Awdurdodau Addysg Lleol, Darparwyr Monitro Electronig a Gorfodi Mewnffudo'r Swyddfa Gartref. Mynychodd pob un ohonynt leiafrif yn unig o'r

cyfarfodydd MAPPA a gynhaliwyd mewn perthynas â'r achosion a arolygwyd gennym, ond yn gyffredinol fe wnaethant gyfrannu yn briodol i gyfarfodydd MAPPA.

- 6.66 Fel y nodwyd eisoes, nid oedd yr atgyfeiriadau bob amser yn nodi'n ddigonol pwy roedd y swyddog atgyfeirio am eu gweld yn y cyfarfod, ac felly nid oedd asiantaethau a allai fod wedi bod â chyfraniad i'w wneud bob amser yn cael eu gwahodd. Mewn rhai achosion, roedd cynrychiolwyr o'r asiantaethau Dyletswydd i Gydweithredu yn aelodau craidd o'r cyfarfod MAPPA ac, felly, roeddent yn bresennol hyd yn oed os nad oedd ganddynt gyfraniad arbennig i'w wneud i'r achos penodol.
- 6.67 Un cyfarfod yn unig a fynychwyd gan y Gwasanaethau Monitro Electronig (EMS), ond fe wnaethant gyfrannu'n dda. Dywedodd un darparwr EMS wrthym mai ychydig iawn o achosion MAPPA oedd gyda chyrrffyw oedd yn cael ei fonitro'n electronig, nad oeddem yn meddwl oedd yn gywir. Yn yr ardal honno, roedd EMS wedi rhoi cyflwyniad i'r SMB am Systemau Lleoli Byd-eang (GPS), ac o ganlyniad roeddent yn meddwl y byddai hynny'n ysgogi mwy o gyfranogiad ganddynt mewn cyfarfodydd MAPPA yn y dyfodol. Mewn un ardal MAPPA, dywedodd y rheolwr gwasanaeth maes ar gyfer y rhanbarth, er iddo gael ei wahodd i gyfarfodydd SMB, nad oedd erioed wedi cael gwahoddiad i gyfarfod lefel 2 neu 3 lle'r oedd y tramgwyddwr yn ddarostyngedig i fonitro electronig.
- 6.68 Roedd y Ganolfan Byd Gwaith yn cymryd rhan mewn pedwar achos, er ein bod yn credu y gallent fod wedi bod yn rhan o fwy. Nid oeddent bob amser yn rhannu gwybodaeth am y troseddwr gydag MAPPA nac yn cyfrannu mor weithredol ag y credem y dylent. Fodd bynnag, yn y tri achos lle'r oedd camau gweithredu wedi eu gosod ar eu cyfer, roedd y Ganolfan Byd Gwaith bob amser yn eu cyflawni ac yn dweud wrth MAPPA beth yr oeddent wedi'i wneud. Roeddem yn hoffi'r ffordd yr oedd y Ganolfan Byd Gwaith wedi cofleidio'r materion ehangach a gyflwynwyd yn yr achos MAPPA canlynol o Swydd Gaerlyr a Rutland.

Enghraifft o Arfer:

Rhoddwyd 12 mis o garchar i Billy am drais a bygythiadau a oedd wedi'u gwaethygu oherwydd hil. Roedd ganddo hanes blaenorol yn dangos patrwm o droseddau gydag arfau ac ymddygiad hiliol. Cafodd ei asesu fel un oedd yn cynrychioli risg uchel iawn o niwed i'r cyhoedd, a risg uchel o niwed i staff. Cymerodd y Ganolfan Byd Gwaith ran weithredol yn yr achos hwn, ac roeddent hefyd yn ddiodefwr posibl. Roeddent yn sensitif i'r angen i beidio â gwaethygu ymdeimlad Brian o anghyfiawnder, ac fe wnaethant gymryd agwedd bragmatig amdano yn hawlio budd-daliadau ar ôl ei ryddhau. O dan amgylchiadau arferol, byddai wedi cael ei gyfeirio at ddarparwr rhaglen waith. Ond gwnaed penderfyniad i beidio â'i gyfeirio. Yn lle hynny, cafodd ei gofrestru ar gyfer Lwfans Ceisio Gwaith. Er nad hon oedd y lwfans mwyaf priodol, byddai ei newid wedi golygu trefn ddwys lle byddai'n rhaid iddo fynychu'r swyddfa a chael ei asesu, gyda'r holl risgiau canlyniadol.

- 6.69 Roedd awdurdodau addysg lleol yn rhan o un achos yn unig; yn Swydd Gaerlyr a Rutland. Aethant ati i gyfrannu, fe wnaethant yr hyn y gofynnwyd iddynt ac adrodd i'r MAPPA yn briodol.
- 6.70 Cymerodd Gorfodi Mewnfudo y Swyddfa Gartref ran mewn un achos yn Llundain, a chyfrannodd yn llawn.

Casgliad

- 6.71 Nid oedd Cynlluniau Rheoli Risg y Gwasanaeth Prawf bob amser yn adlewyrchu yr hyn a gytunwyd yn y cyfarfod MAPPA, a gwelsom anghysondebau rhwng RMP yr NPS a RMP MAPPA. Credwn y bydd cael gwared ar y gwahaniaeth a chael un cynllun yn unig yn cael gwared ar ddryswch ac yn arwain at gynllun gwell sy'n ymgorffori'r holl gamau gweithredu a mesurau perthnasol.
- 6.72 Canfuom fwy o ffocws yn yr arolygiad hwn ar ymyriadau adeiladol, ac roeddem yn canmol y dull a ddefnyddir yn Nyfed Powys a Swydd Gaerlyr a Rutland, lle gofynnid am farn y troseddwr ynghylch ei risgiau fel mater o drefn, a lle roedd hyn yn cael ei ymgorffori yn y Cynllun Rheoli Risg a'i rannu gydag asiantaethau MAPPA eraill.
- 6.73 Er bod unigolion o wasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd i blant yn mynychu cyfarfodydd MAPPA, nid nhw bob amser oedd y person iawn, neu'n dod o ran iawn eu sefydliad ehangach. Pe bai'r person oedd yn gwneud yr atgyfeiriad cychwynnol wedi bod yn fwy eglur wrth wneud yr atgyfeiriad pwy oeddent eisiau ei weld yn y cyfarfod, ac wedi darparu'r manylion cyswllt cywir, byddai'r tebygolrwydd y byddent yn cyfrannu'n weithredol wedi bod yn fwy.

7. Rheoli ac arweinyddiaeth: yr effaith ar ymarfer

Crynodeb

Yn yr adran hon, rydym yn disgrifio'r fframwaith strategol MAPPA yn genedlaethol a lleol, ac yn rhoi sylwadau ar ei effaith ar ymarfer.

- Mae canllawiau MAPPA 2012 yn fframwaith cynhwysfawr ar gyfer gweithio gyda throseddwr MAPPA.
- Mae DPA (KPIs) yn mesur 'canlyniadau' ar gyfer troseddwr a reolir o fewn MAPPA yn annigonol.
- Roedd uwch reolwyr yn yr Awdurdodau Cyfrifol a'r asiantaethau Dyletswydd i Gydweithredu yn ymrwymedig i wneud i MAPPA weithio yn eu hardaloedd.
- Roedd cydlynwyr /rheolwyr MAPPA yn wybodus ac yn uchel eu parch yn eu hardaloedd lleol.

Y Fframwaith Cenedlaethol

- 7.1 Mae nifer o grwpiau yn cefnogi gweithredu MAPPA yn effeithiol. Y prif rai yw Grŵp Llywio Cenedlaethol yr Awdurdodau Cyfrifol (RANSO) a'r tîm MAPPA cenedlaethol yn yr OMPPG o fewn NOMS.
- 7.2 RANSO yw'r corff cydlynu cenedlaethol sy'n goruchwylio MAPPA ac yn gyfrifol am ei ddatblygiad parhaus. Cynllun busnes cenedlaethol blynyddol MAPPA a gynhrychir gan RANSO yw'r ddogfen y mae'r 42 o SMBs yn ei hadlewyrchu yn eu cynlluniau busnes lleol.
- 7.3 Mae'r tîm MAPPA cenedlaethol o fewn NOMS, OMPPG yn dim amlddisgyblaethol sy'n cynnwys gweision sifil a staff ar secondiad gan yr heddlu ac mewn mannau eraill yn NOMS. Mae ei gylch gwaith yn lluosog ac amrywiol, ond mae'n cynnwys cyhoeddi canllawiau MAPPA ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, hysbysu am bolisi a datblygiadau ymarfer, a chynghori a chefnogi SMBs ac Awdurdodau Cyfrifol ar faterion MAPPA.
- 7.4 Yn ystod 2014, mae RANSO wedi bod yn ystyried DPA (KPIs) mewn perthynas â MAPPA, gan gydnabod y cyfyngiadau yn y mesurau cyfredol. Rydym yn cymeradwyo'r angen i gyflwyno dangosyddion perthnasol sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau, er yn cytuno na ddylai ymddygiadau afresymol gael eu hannog. Rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth y dylai defnydd effeithiol o ViSOR fod yn rhan annatod o reoli troseddwr MAPPA. Bydd hyn yn gofyn am fuddsoddiad gan NOMS ac Awdurdodau Cyfrifol mewn TG a hyfforddiant.
- 7.5 Gwelsom enghreifftiau yn yr arolygiad hwn, lle derbyniwyd cyllid Achos Diogelu'r Cyhoedd Critigol (CPPC) ar gyfer staffio ychwanegol mewn Safle Cymeradwy ar gyfer troseddwr oedd yn bodloni meini prawf a nodwyd ac a oedd yn cael eu rheoli ar lefel 3. Llwyddodd un MAPPA y gwnaethon ni ei arolygu i roi cyfrif am eu holl gofrestrïadau ac fe wnaethant ddisgrifio lle roeddent wedi llwyddo i ddenu arian ychwanegol. Dywedodd cydlynwyr /rheolwr gwahanol fod llai o eglurder ynghylch

cofrestrriad CPPC yn eu hardal, ac o ganlyniad eu bod wedi methu â derbyn rhywfaint o arian ychwanegol. Clywsom hefyd gan rai cydlynwyr am y cymorth a'r cyngor ychwanegol y gallai ardaloedd lleol ei gael gan Bennaeth CPPC mewn perthynas â rhannu arfer da a'u hannog i feddwl am risgiau sefydliadol. Ar hyn o bryd nid oes gan dempled cofnodion MAPPa, MAPPa B gwestiwn sbardun i gael MAPPAs i feddwl am gofrestrriad CPPC ar gyfer achosion lefel 3. Pe bai cwestiwn o'r fath yn bodoli, byddai'n canolbwyntio sylw MAPPa ynghylch cyllid neu arweiniad /cefnogaeth ganolog.

- 7.6 Mae gan y Coleg Plismona gyfadran trosedd a chyfiawnder cymunedol. Fe wnaethom nodi yn ystod yr arolygiad hwn nad oedd pob rheolwr troseddwy'r heddlu sy'n gweithio gyda throseddwy'r MAPPa wedi derbyn hyfforddiant MOSAVO. Mewn rhai ardaloedd, roedd hyn oherwydd nad oedd digon o leoedd hyfforddi wedi'u darparu o fewn yr heddlu lleol i ateb y galw ac ychydig o ystyriaeth a roddid i drefniadau cydweithredol gyda heddluoedd cyfagos. Dylai swyddogion yr heddlu sy'n rheoli troseddwy'r MAPPa fod â chymwysterau priodol. Rydym o'r farn bod gweithgor MOSAVO, a gadeirir gan swyddog arweiniol Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC), mewn sefyllfa dda i ystyried y ffordd orau o wneud yn siŵr bod hyfforddiant MOSAVO yn cael ei gydlynwyr ac ar gael ac yn hygyrch i swyddogion yn ystod camau cynnar eu daliadaeth fel rheolwr troseddwy'r heddlu.

Y Bwrdd Rheoli Strategol

- 7.7 Roedd Bwrdd Rheoli Strategol gweithredol ym mhob un o'r chwe ardal yr ymwelwyd â hwy. Roedd pedwar ohonynt yn cael eu cadeirio ar hyn o bryd gan uwch swyddog o'r NPS, Prif Weithredwr Cynorthwyol neu ei debyg fel arfer. Roedd Prif Gwnstabl Cynorthwyol yn cadeirio'r ddau Fwrdd Rheoli Strategol arall. Roedd swydd y cadeirydd yn tueddu i gylchdroi rhwng y gwasanaeth prawf a'r heddlu, er bod un o Gadeiryddion y gwasanaeth prawf wedi cymryd drosodd oddi wrth Gadeirydd Llywodraethwyr Carchar. Dim ond yn ddiweddar yr oedd rhai o'r Cadeiryddion a gyfwelwyd wedi derbyn eu rôl. Yng Nghaint, mynychai Cadeirydd Bwrdd Rheoli Strategol bob un o gyfarfodydd lefel 3 MAPPa. Roedd cynrychiolaeth gan reolwyr yr Awdurdodau Cyfrifol yn SMBau MAPPa yn unol â'r canllawiau, ac eithrio mewn un ardal lle'r oedd cynrychiolaeth yr heddlu ar lefel is na'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol.
- 7.8 Roedd gan yr holl MAPPAs strategaeth gyfathrebu, protocolau gyda'r asiantaethau yn eu hardal, a chynllun busnes cyfredol ac adroddiad blynyddol.
- 7.9 Roedd presenoldeb ar y Bwrdd Rheoli Strategol yn gyffredinol dda, ond dywedwyd wrthym y gallai fod yn anodd ymgysylltu â rhai asiantaethau. Y ddwy brif asiantaeth lle'r oedd hyn yn cael ei ystyried yn broblem oedd iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Ar gyfer y ddau, roedd y meysydd gwaith amrywiol ac eang a wnaed gan eu sefydliadau yn golygu y gallai fod yn anodd cael pobl o hynafedd digonol i siarad a gweithredu'n gorfforaethol.
- 7.10 Roedd ystyried DPA (KPIs) yn fusnes arferol ar gyfer BRhS. Roeddent yn fesurau oedd yn ymwneud â phrosesau yn bennaf; nid oeddent yn rhy heriol a chafodd y targedau eu cyrraedd i raddau sylweddol. Roedd Byrddau Rheoli Strategol yn effro i bresenoldeb y bobl iawn mewn cyfarfodydd lefel 2 a 3. Roedd carchardai yn Hampshire yn sicrhau bod yr uwch seicolegydd ffrensig ar gyfer y rhanbarth yn bresennol ym mhob cyfarfod lefel 3 yn ogystal â rhywun o'r carchar perthnasol.
- 7.11 Roedd gan bob Bwrdd Rheoli Strategol o leiaf un cynghorydd lleig, ac eithrio un ardal. Roedd rhai MAPPa wedi defnyddio eu cynghorwr lleig i gyfrannu at adolygiadau Achosion Difrifol. Roedd Cadeiryddion Byrddau Rheoli Strategol a

chydlynwyr /rheolwyr MAPPA yn gyffredinol yn gadarnhaol am gyfraniad ymgynghorwyr lleyg, gan roi sylwadau ar eu gallu i ofyn cwestiynau anodd ac i ddarparu safbwynt annibynnol ac allanol defnyddiol. Roedd ymgynghorydd lleyg o Gaint wedi awgrymu i'r Bwrdd Rheoli Strategol yn y sir honno y gallai asiantaethau Dyletswydd i Gydweithredu roi cyflwyniad am eu gwaith. Rhoddodd Adran Tai gyflwyniad ar eu gwaith yn Hydref 2014. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol yng Nghaint, gan fod tai yn broblem heb unrhyw gyflenwad parod o lety fforddiadwy.

- 7.12 Roedd SMB MAPPA wedi comisiynu archwiliadau o'u gwaith dros y 12 mis blaenorol. Roedd MAPPA Caint wedi comisiynu cyfres o archwiliadau ar amrywiaeth o bynciau perthnasol, a chafodd y canlyniadau eu hadrodd i'r Bwrdd Rheoli Strategol. Roedd yn galonogol gweld bod canfyddiadau archwiliadau Caint mewn perthynas â rheoli risg a datgelu yn gynhwysfawr ac yn cyd-fynd â'n casgliadau ein hunain yn ystod yr arolygiad hwn.
- 7.13 Roedd pob MAPPA yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth. Darparodd Hampshire bedwar digwyddiad ymwybyddiaeth MAPPA y flwyddyn ar sail aml-asiantaeth. Yn ogystal, roeddent yn cyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth MAPPA i asiantaethau unigol ar draws y sir. Roedd hyn yn cynnwys Timau Troseddau Ieuencid, Cadeirydd y Bwrdd Diogelu Plant Lleol, bydwagedd, Canolfan Byd Gwaith, ymwelwyr iechyd, grwpiau tai a grwpiau eglwysig. Mabwysiadodd MAPPAs eraill ddull tebyg.

Arweinyddiaeth MAPPA lleol

- 7.14 Roedd yr heddlu a'r gwasanaeth prawf yn darparu cyllid ar gyfer seilwaith MAPPA yn yr ardaloedd y gwnaethom ni ymweld â hwy, ac roeddem yn fodlon gyda'r ffordd y siaradai uwch reolwyr am eu cymheiriaid a'r ffordd yr oeddent yn gweithio gyda'i gilydd. Roedd rhai MAPPA wedi llwyddo i sicrhau cyllid ychwanegol gan asiantaethau oedd yn gweithio yn y Bwrdd Rheoli Strategol, ond mewn un ardal roedd y cydlynnydd yn brwydro i godi £500 ychwanegol i ddarparu rhywfaint o hyfforddiant penodol.
- 7.15 Yn y chwe ardal a arolygwyd, arsylwyd amrywiaeth o fodelau ar gyfer rheoli a chefnogi MAPPA. Rydym yn cydnabod na fyddai'r math o drefniant a welsom yn Swydd Gaerlyr a Rutland, lle'r oedd y cydlynnydd a'r Arolygydd Dditectif Amddiffyn y Cyhoedd lleol yn cadeirio'r holl gyfarfodydd lefel 2 a 3 rhyngddynt wedi bod yn ymarferol mewn bwrdeistref MAPPA Metropolitan fawr neu fwrdeistref yn Llundain.
- 7.16 Yn Llundain, fe wnaeth rheolwr bwrdeistref leol a gweinyddwr gydlynw gwaith tra bu tîm bach yn y ganolfan yn gwasanaethu'r Bwrdd Rheoli Strategol ac yn cynhyrchu cyngor am bolisi a data perfformiad. Ealing oedd un o'r bwrdeistrefi yn Llundain oedd yn treialu Share Safe, datrysiad TG ar y we y bwriadwyd iddo sicrhau diogelwch ac effeithlonrwydd cofnodion.
- 7.17 Roedd Manceinion Fwyaf yn gweithredu amrywiad ar y trefniant yn Llundain, tra roedd y tair ardal arall yn gweithredu model mwy traddodiadol tebyg i'r un oedd yn gweithredu yn Swydd Gaerlyr a Rutland.
- 7.18 Nid oeddem yn teimlo bod unrhyw drefniant o reidrwydd yn israddol i un arall, er ein bod yn canmol ansawdd y gwaith MAPPA a welwyd yn Swydd Gaerlyr a Rutland. Roedd y cyfarfodydd MAPPA lefel 3 a arsylwyd gennym yn rhagorol o ran ansawdd y gwaith papur a ddarparwyd ymlaen llaw, presenoldeb a chyfraniadau Awdurdodau Cyfrifol ac asiantaethau Dyletswydd i Gydweithredu, y cadeirio gan y cydlynnydd ac eglurder a ffocws y cyfan o'r gweithrediadau. Yn bwysig, roedd gan y cyfarfodydd ymdeimlad o ddwyyster a phwysigrwydd, a oedd yn briodol gan eu bod yn delio â phwnc difrifol iawn. Rydym wedi arsylwi mewn man arall yn yr adroddiad hwn fod Swydd Gaerlyr a Rutland bob amser yn cynhyrchu cofnodion prydlon, ac, er nad

ydym yn cymharu a chyferbynnu canlyniadau mewn perthynas â'r cyrff a arolygir o fewn adroddiad arolygu, mae'n gywir dweud bod eu perfformiad yn gyson dda.

- 7.19 Roedd cydlynwyr /rheolwyr MAPPA yn uchel eu parch gan aelodau Byrddau Rheoli Strategol a staff gweithredol y buom yn siarad â hwy. Roeddent yn dangos gwybodaeth dda am eu hachosion ac angerdd gwirioneddol ar gyfer y gwaith.
- 7.20 Roedd y cyfrifoldeb am gadeirio cyfarfodydd lefel 2 a 3 yn amrywio ar draws y MAPPAs y gwnaethom eu harolygu. Mewn rhai ardaloedd, roedd arolygwyr dditectif a'r hyn oedd yn cyfateb i uwch swyddog prawf yn cadeirio cyfarfodydd lefel 2 tra roedd cydlynwyr MAPPA a /neu reolwyr oedd yn uwch o fewn yr heddlu a'r gwasanaeth prawf yn cadeirio cyfarfodydd lefel 3. Mewn ardal arall, roedd y gwasanaeth prawf yn tueddu i gadeirio'r rhan fwyaf o'r cyfarfodydd. Dywedodd y rhan fwyaf o'r Cadeiryddion eu bod wedi derbyn hyfforddiant perthnasol, a'u bod yn teimlo'n hyderus yn y rôl. Roeddem yn meddwl bod dull Llundain, lle'r oedd Cadeiryddion a gweinyddwyr yn cael eu hyfforddi gyda'i gilydd yn syniad da.
- 7.21 Mae'r trefniadau newydd a ddaeth i rym o fis Mehefin 2014, lle mae pob achos MAPPA sy'n ddarostyngedig i oruchwyliaeth statudol bellach yn cael eu rheoli gan yr NPS, yn golygu bod llai o swyddogion yn rheoli nifer uwch o'r achosion cymhleth hyn. Er y byddai llawer o'r achosion a arolygwyd gennym ar fin cael eu rhyddhau neu o gwmpas y pwynt o gael eu rhyddhau pan oeddem yn cynnal yr arolygiad hwn, nid oeddem yn teimlo bod trosglwyddo'r achosion a arolygwyd gennym o'r Ymddiriedolaeth Prawf i swyddogion newydd o fewn yr NPS wedi cael effaith andwyol ar oruchwyliaeth gyffredinol yr achos. Fodd bynnag, dywedodd rhai uwch reolwyr o'r NPS wrthym fod llwythi gwaith ar gyfer yr NPS yn uwch nag yr oeddent wedi cynllunio ar eu cyfer yn wreiddiol oherwydd nad oeddent wedi rhagweld cymryd achosion risg uchel o niwed heb fod yn achosion MAPPA.

Casgliad

- 7.22 Gwnaeth arolygiad MAPPA 2011 bum argymhelliad. Roedd pedwar o'r argymhellion ar gyfer Cadeiryddion cyfarfodydd lefel 2 neu 3. Roedd hynny'n adlewyrchu canfyddiadau cyffredinol yr arolygiad ynghylch ansawdd yr arweinyddiaeth a ddangosid gan Gadeiryddion MAPPA, a oedd yn gydlynwyr MAPPA penodol neu'n rheolwyr yn y brif ffrwd. Y casgliad oedd bod *'yr angen i ddal pobl eraill i gyfrif a llunio ac adolygu cynlluniau effeithiol i reoli lefel y risg a gyflwynir i'r cyhoedd gan droseddwyr cymwys ar gyfer MAPPA nid yn unig yn gofyn am wybodaeth drylwyr o bolisiau a phrosesau, ond hefyd sgiliau ardderchog wrth gadeirio cyfarfodydd ac ymarfer awdurdod priodol.*
- 7.23 Er bod y canfyddiadau o'r arolygiad diwethaf yn fras yn gadarnhaol, rydym yn sicr y bu gwelliannau ers 2011. Mae MAPPA yn rheoli llai o gyfarfodydd lefel 2 a 3, er gwaetha'r twf mewn achosion MAPPA yn gyffredinol. Maent yn cael eu cynnal o leiaf yn ôl yr amllder isaf a nodir yng nghanllawiau MAPPA.
- 7.24 Mae cymhlethdod ffiniau daearyddol asiantaethau ac ad-drefnu aml, yn enwedig o ran iechyd, yn golygu bod yn rhaid i MAPPAs fod yn wyladwrus yn barhaus. Mewn nifer o achosion, fe wnaethom ganfod rhywbeth yr oeddem yn meddwl y dylai fod wedi'i wneud nad oedd wedi ei wneud neu rywun nad oedd yn bresennol a ddylai fod. Ond ar y cyfan, roedd yn amlwg bod llawer mwy o bwyslais ar ddal pobl eraill i gyfrif nag a ganfuwyd gennym yn 2011. Roedd cadeiryddion cyfarfodydd lefel 2 a 3 yn llai amharod i fynd ar ôl pobl, a, lle roeddent yn aflwyddiannus, roeddent yn defnyddio dylanwad Cadeirydd y Bwrdd Rheoli Strategol.

- 7.25 Roedd MAPPa wedi llwyddo i reoli yr hyn a allai fod yn llwyth gwaith mwy, drwy gael yr achosion iawn i'r cyfarfodydd lefel 2 a 3, a'u cyfeirio i lawr cyn gynted ag y bo modd. Roedd hyn wedi galluogi'r llwyth gwaith i barhau yn hydryn.

Atodiad 1: Geirfa

CPPC	Achos Diogelu'r Cyhoedd Critigol.
nDelius	Y system rheoli achosion oedd yn cael ei defnyddio ar adeg yr arolygiad gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.
Dyletswydd i Gydweithredu	Asiantaethau a nodwyd o dan adran 325(3) <i>Deddf Cyfiawnder Troseddol</i> 2003 fel rhai sydd â 'Dyletswydd i Gydweithredu' gyda'r Awdurdod Cyfrifol, sef yr heddluoedd a'r carchardai a'r gwasanaethau prawf, wrth asesu a rheoli'r holl droseddwyr MAPPA.
Pedair Colofn	Datblygwyd gan Brifysgol De Montford, mae'r dull Pedair Colofn wedi'i gynllunio i greu rhwydweithiau cefnogol ar gyfer troseddwyr a gwella ffactorau amddiffynnol er mwyn lleihau'r risg o aildroseddu. Mae'n ffordd o reoli ac asesu risg mewn modd cymesur, tryloyw a chytbwys. Mae gan y dull Pedair Colofn bedwar gweithgaredd allweddol, Goruchwylio; Monitro a Rheoli; Ymyriadau a Thriniaeth; a Chynllunio Diogelwch Ddiodefwyr.
GP	Meddyg Teulu.
Arolygiaeth Cwnstabiliaeth EM	Arolygiaeth Cwnstabiliaeth EM.
Arolygiaeth Prawf EM	Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi.
Ymyriadau Adeiladol ac Ymyriadau Cyfyngol	Gwaith gyda throseddwr sydd wedi'i gynllunio i newid eu hymddygiad trosedd a chefnogi diogelu'r cyhoedd. <i>Ymyriad adeiladol</i> yw un lle mai'r prif bwrpas yw lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu. Yn iaith rheoli troseddwyr gwaith yw hwn i gyflawni'r dibenion 'help' a 'newid', yn wahanol i'r diben 'rheoli'. <i>Ymyriad cyfyngol</i> yw un lle mai'r prif bwrpas yw cadw risg y troseddwr o wneud niwed i eraill i isafswm Yn iaith rheoli troseddwyr gwaith yw hwn i gyflawni'r dibenion 'help' a 'newid', yn wahanol i'r diben 'rheoli'. Enghraifft: gyda throseddwr rhyw, gallai <i>ymyriad adeiladol</i> olygu ei roi drwy raglen troseddwr rhyw achrededig; gallai <i>ymyriad cyfyngu</i> (i leihau eu risg o niwed i eraill) olygu monitro eu llety, cyflogaeth a'r lleoedd y maent yn eu mynychu yn rheolaidd ac yn fanwl, a'r un pryd osod a gorfodi cyfyngiadau clir fel bo'n briodol i bob achos. DS Mae'r ddau fath o ymyriad yn bwysig.
IOM	Mae Rheoli Troseddwyr Integredig yn dod ag ymateb traws-asiantaeth i'r drosedd a'r bygythiadau o aildroseddu a wynebir gan gymunedau lleol. Mae'r troseddwyr mwyaf cyson a phroblematig yn cael eu nodi a'u rheoli ar y cyd gan asiantaethau partner yn gweithio gyda'i gilydd.
DPA	Dangosydd perfformiad allweddol.
MAPPA	Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd: lle mae'r gwasanaeth prawf, yr heddlu, carchardai ac asiantaethau eraill yn gweithio gyda'i gilydd yn lleol i reoli troseddwyr sy'n peri risg uwch o niwed i eraill.
Modus operandi	Cymerwyd o'r Lladin yn golygu'r dull o weithredu neu ffordd person o weithio. Mae'r term yn cael ei ddefnyddio yn aml gan yr heddlu i ddisgrifio'r ffordd y mae trosedd yn cael ei chyflawni.

MOSAVO	Rheoli Troseddwy Rhyw a Throseddwy Treisgar; mae'r cwrs hyfforddi hwn yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth i ymarferwyr uned diogelu'r cyhoedd yr heddlu i'w galluogi i adnabod a rheoli troseddwy rhyw, troseddwy treisgar a throseddwy peryglus eraill sy'n dod o fewn y Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd.
NOMS	Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy.
OASys	System Asesu Troseddwy
OMPPG	Grŵp Rheoli Troseddwy a Diogelu'r Cyhoedd (o fewn NOMS).
P-NOMIS	System Gwybodaeth Rheoli Troseddwy Carchar Cenedlaethol; cronfa ddata weithredol a ddefnyddir mewn carchardai ar gyfer rheoli troseddwy.
Awdurdodau Cyfrifol	Yr heddlu, prawf a charchardai yw'r tri Awdurdod Cyfrifol o fewn MAPPA.
Risg o niwed i eraill	Dyma'r term a ddefnyddir yn gyffredinol gan Arolygiaeth Prawf EM i ddisgrifio gwaith i amddiffyn y cyhoedd, yn bennaf drwy ddefnyddio ymyriadau cyfyngol, i gyfyngu cyfle i'r unigolyn ymddwyn mewn ffordd sy'n risg o niwed i eraill i isafswm.
RMP	Cynllun Rheoli Risg: mae hwn yn nodi sut y bydd y risg o niwed i eraill yn cael ei reoli.
RoSHO	Mae'r Gorchymyn Risg o Niwed Difrifol yn orchymyn ataliol sifil a roddir pan fydd person 18 oed neu drosodd wedi cyflawni gweithred a bennir mewn perthynas â phlentyn o dan 16 oed ar o leiaf ddau achlysur. I geisio RoSHO, nid oes rhaid i'r diffynnydd gael euogfarn am drosedd rhywiol (neu unrhyw drosedd). Mae RoSHO yn gwahardd y diffynnydd rhag gwneud unrhyw beth a ddisgrifir ynddo. O dan <i>Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlisma 2014</i> , mae RoSHOs, ynghyd â SOPOs a Gorchymynion Teithio Tramor (FTOs) wedi cael eu disodli gan ddau orchymyn newydd, Gorchymyn Atal Niwed Rhywiol (SHPO) a Gorchymyn Risg Rhywiol (SRO).
Landlord Cymdeithasol Cofrestredig	Sefydliadau nid-er-elw a ariennir gan y Llywodraeth sy'n darparu tai fforddiadwy. Maent yn cynnwys cymdeithasau tai, ymddiriedolaethau a mentrau cydweithredol.
RSO	Troseddwr rhyw cofrestredig: o dan Ddeddf Troseddwy Rhyw 1997, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, mae'n rhaid i bob troseddwr rhyw sydd wedi ei euogfarnu gofrestru gyda'r heddlu o fewn tri diwrnod i'w gollfarn neu ryddhad o'r carchar. Gallai methu â gwneud hynny arwain at garchar. Mae'n rhaid iddynt roi gwybod i'r heddlu os ydynt yn newid eu henw neu gyfeiriad a datgelu os ydynt yn treulio saith diwrnod neu fwy i ffwrdd o'r cartref.
Bwrdd Rheoli Strategol	Bwrdd Rheoli Strategol: mae'n goruchwylio gweithrediad Trefniadau Aml-Asiantaeth er Diogelu'r Cyhoedd. Mae'n cynnwys amrywiaeth o asiantaethau sydd naill ai'n Awdurdodau Cyfrifol neu'n rhai â Dyletswydd i Gydweithio.

SOPO	<p>Gorchymyn Atal Troseddau Rhyw: a gyflwynwyd gan <i>Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003</i> a disodlodd orchmynion troseddwr rhyw a gorchmynion atal. Mae'n fesur sifil sydd ar gael i'r llys pan fydd yn euogfarnu person o drosedd a restrir yn atodlen 3 neu atodlen 5 i <i>Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003</i>, neu ar gais yr heddlu mewn perthynas â pherson sydd wedi cael ei drin yn flaenorol ar gyfer trosedd o'r fath. Mae'r gorchymyn yn gosod cyfyngiadau ar y gwrthrych ac yn sbarduno'r gofynion hysbysu. O dan <i>Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlisma 2014</i>, mae SOPOs, ynghyd â RoSHOs a Gorchmynion Teithio Tramor (FTOs) wedi cael eu disodli gan ddau orchymyn newydd, Gorchymyn Atal Niwed Rhywiol (SHPO) a'r Gorchymyn Risg Rhywiol (SRO).</p>
TACT	<p>Mae troseddwr y <i>Ddeddf Terfysgaeth (TACT)</i> wedi cyflawni troseddau terfysgaeth, a gynhwysir yn Atodlen 15 <i>Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003</i>.</p>
ViSOR	<p>Mae ViSOR yn gronfa ddata gyfrinachol genedlaethol sy'n cefnogi MAPPA. Mae'n hwyluso rhannu gwybodaeth a chudd-wybodaeth yn effeithiol am droseddwr treisgar a rhywiol rhwng tair asiantaeth Awdurdod Cyfrifol MAPPA (yr heddlu, y gwasanaeth prawf a charchardai). Nid yw ViSOR bellach yn acronym ond yn hytrach dyma enw ffurfiol y gronfa ddata.</p>

Atodiad 2: Rôl yr arolygiaethau a chod ymarfer

Arolygiaeth Prawf EM

Mae gwybodaeth am Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r Cod Ymarfer ar gael ar ein gwefan:

www.justiceinspectrates.gov.uk/hmiprobation

Mae'r Arolygiaeth yn gorff cyhoeddus. Dylai unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylwadau ar arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater arall sy'n dod o fewn ei chylch gwaith ysgrifennu at:

*Prif Arolygydd Prawf EM
Llawr 1af, Canolfan Llysoedd Sifil Manceinion
1 Bridge Street West
Manceinion, M3 3FX*

Arolygiaeth Cwnstabiliaeth EM

Mae gwybodaeth am Rôl Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi a'r Cod Ymarfer ar gael ar ein gwefan:

<http://www.hmic.gov.uk/>

Mae'r Arolygiaeth yn gorff cyhoeddus. Dylai unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylwadau ar arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater arall sy'n dod o fewn ei chylch gwaith ysgrifennu at:

*Prif Arolygydd Cwnstabiliaeth EM
6ed Llawr, Globe House, 89 Sgwâr Eccleston
Llundain, SW1V 1PN*